# Deall diwylliant (Sgiliau ymchwil)

## Sut eir ati i ymchwilio mewn cymdeithaseg?

### Pam fod ymchwil yn bwysig mewn cymdeithaseg?

#### Bwledi

- Cymdeithaseg yw astudiaeth systematig o gymdeithas.
- Mae set benodol o ddulliau a elwir yn 'safbwynt cymdeithasegol.'
- Mae cymdeithasegwyr yn gwrthod synnwyr cyffredin ac yn ceisio herio barn pobl o'r byd.
- Defnyddia cymdeithasegwyr dystiolaeth i gefnogi eu syniadau.
- Ystyrir bod cymdeithaseg fel arfer yn wrthrychol ac yn rhydd o werthoedd.

#### Testun

Pobl a'r berthynas a ffurfiant sydd dan sylw mewn cymdeithaseg. Ar raddfa fawr, mae cymdeithasegwyr yn siarad am ddiwylliannau a chymdeithasau, ond ar raddfa fach, mae cymdeithasegwyr yn siarad am ystyron a hunaniaeth. Yn wir, mae hyn yn faes eang ac mae'n bwysig i bawb sy'n astudio'r testun gael iaith gyffredin a dealltwriaeth gytûn er mwyn gallu ymdopi â'r wybodaeth maent yn delio â hi. Gelwir y ddealltwriaeth gytûn hon yn 'y safbwynt cymdeithasegol.' Nid yn unig yr hyn mae cymdeithasegwr yn dewis edrych arno sy'n gwneud darn o ymchwil yn gymdeithasegol, ond yn hefyd y dull a ddefnyddir sy'n gwneud y gwaith yn gymdeithasegol.

Mae cymdeithaseg yn ymwneud â phobl; sut maent yn gweld y byd, a'r hyn a wnânt. Mae cymdeithasegwyr yn ceisio deall ac egluro'r byd cymdeithasol. Dyma beth mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei wneud beth bynnag, y rhan fwyaf o'r amser, felly pam fod angen i ni astudio hyn mewn ffordd academaidd? Oherwydd bod y rhan fwyaf ohonom yn cymryd pethau'n ganiataol: synnwyr cyffredin yw'r enw ar y tybiaethau hyn a gymrir yn ganiataol. Er hynny, tasg y cymdeithasegwr yw herio credoau synnwyr cyffredin a'u harchwilio. Enghreifftiau o gredoau synnwyr cyffredin yn y gorffennol yw'r farn na fyddai merched yn gallu magu plant o gael gormod o addysg. Heddiw, nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn credu fod hyn yn wir, ond dyma oedd y gred am genedlaethau lu. Pa enghreifftiau eraill o gredoau synnwyr cyffredin y gellid eu profi'n anghywir o'u harchwilio?

Mae cymdeithaseg yn seiliedig ar dystiolaeth. Golyga hyn fod cymdeithasegwyr yn dod i gasgliadau o dystiolaeth y maent hwy eu hunain, neu gymdeithasegwyr eraill, wedi'i chasglu. Nid yw'n ddigon dibynnu ar brofiad personol, oherwydd dyna'n unig ydyw, dim ond i un person y digwyddodd. Rhaid i dystiolaeth fod yn systematig; rhaid cael patrwm neu duedd cyffredin i'r ymddygiad. Dylid cyfeirio tystiolaeth fel bod modd gwirio pwy gasglodd y dystiolaeth a beth a ddywedwyd, ac a yw'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu'r dystiolaeth wir yn cefnogi eu safbwynt. Yn bennaf oll, byddai'r rhan fwyaf o bobl, ond ddim pawb, yn dweud bod angen i gymdeithaseg fod yn rhydd o werthoedd (ni roddir barn y cymdeithasegwyr fel petaent yn ffeithiol) ac yn wrthrychol (anemosiynol).

#### Cwestiynau

1. Beth sydd dan sylw mewn cymdeithaseg?
2. Sut mae cymdeithaseg yn wahanol i synnwyr cyffredin?
3. Pam fod angen i gymdeithaseg fod yn wrthrychol ac yn rhydd o werthoedd?

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Sgiliau ymchwil)

## Allweddeiriau

- Gwrthrychol - anemosiynol, ymgais i fod yn wyddonol a diduedd.
- Goddrychol - bod yn emosiynol ac â thuedd.
- Y safbwynt cymdeithasegol - ffordd wrthrychol a rhydd o werthoedd o edrych ar gymdeithas.
- Systematig - cael dull y gall eraill ei ddeall
- Cyfeirio - egluro ble cawsoch yr wybodaeth.

## Pa ddulliau a ddefnyddir gan gymdeithasegwyr?

### Bwledi

- Mae dau prif ddysnesiad wrth gynnal ymchwil.
- Mae ymchwil meintiol yn disgrifio'r hyn mae pobl yn ei wneud a'i ddweud, gan ddefnyddio rhifau ac ystadegau.
- Mae ymchwil ansoddol yn ymwneud â sut mae pobl yn deall ac yn teimlo am y byd, gan ddefnyddio arsylliadau a disgrifiadau.
- Mae pobl yn cyfuno'r ddau fath o ymchwil mewn dull a elwir yn lluosogrwydd methodolegol.

### Testun

Credai cymdeithasegwyr cynnar y dylai cymdeithaseg fod yn empirig. Dylai fod yn seiliedig ar egwyddorion a gwyddorau a dylai pobl ond astudio'r hyn a welant. Cyhoeddwyd yr astudiaeth gynharaf yn defnyddio'r dull gwyddonol hwn yn 1897 gan Emile Durkheim ac mae dal mewn print hyd heddiw. Yn ei astudiaeth glasurol ef o hunanladdiad, ceisiodd brofi bod y weithred fwyaf personol hon yn cael ei rheoli gan batrymau cymdeithasol, a bod tueddiadau i'w gweld. Gelwir y math hwn o gymdeithaseg yn gymdeithaseg feintiol, oherwydd ei fod yn ymwneud â rhifau. Mae'n mesur gwir ymddygiad pobl, ac yn cyfrif eu hymateb i gwestiynau. Mae'n rhoi'r math o ddata mae'r llywodraeth yn ei ddefnyddio i gynllunio gwasanaethau. Fe'i cesglir yn aml drwy gyfrwng holiaduron.

Er hynny, nid yw edrych ar yr hyn mae pobl yn ei ddweud a'i wneud, yn dweud rhyw lawer wrth gymdeithasegwyr sut maent wir yn meddwl neu'n datblygu syniadau am eu hunain a'r byd. Daeth yn amlwg, yn nyddiau cynnar y pwnc, bod pobl yn ymddwyn yn unol â'u credoau a'u syniadau. Arweiniodd hyn at ddatblygu ffurf arall o gymdeithaseg, a elwir yn Gymdeithaseg Ansoddol. Mae'n ymwneud â theimladau, emosiynau, gweithredoedd ac ystyron. Daeth y dull hwn o fynd i'r afael â chymdeithaseg yn fwy poblogaidd yn yr 1970au. Mae'n defnyddio arsylwi, cyfweld ac amrywiaeth o ddulliau eraill.

Am nifer o flynyddoedd, ystyrid bod y ddau ddull hyn yn groes i'w gilydd, ond mae cymdeithasegwyr yn credu mwyfwy y dylid defnyddio'r ddau ddull ar y cyd; mae cryfderau un dull yn canslo gwendidau'r dull arall. Gelwir y dull hwn yn lluosogrwydd methodolegol. Bydd llawer o astudiaethau yn defnyddio mwy nag un dull, gan gredu y bydd y data o bob dull yn cefnogi'r deunydd a geir o'r llall. Gelwir y broses hon yn driongli.

### Cwestiynau

1. Beth yw ymchwil meintiol?
2. Beth yw ymchwil ansoddol?

© CBAC / WJEC 2015

3. Pam fod dau ddynesiad i ymchwilio mewn cymdeithaseg?
4. Beth yw manteision lluosogrwydd methodolegol?

### Allweddeiriau

- Empirig - defnyddio dulliau gwyddonol.
- Meintiol - ymwneud â rhif a disgrifio.
- Ansoddol - ymwneud ag ystyr a theimlad.
- Lluosogrwydd methodolegol - defnyddio mwy nag un dull mewn gwaith ymchwil.
- Triongli - proses o wirio dilysrwydd gan ddefnyddio mwy nag un dull.
- Data - gwybodaeth a gesglir o waith ymchwil
- Dibynadwyedd - pa mor ddibynadwy yw ymchwil a pha mor aml y gellir ei ailadrodd.
- Dilysrwydd - i ba raddau y gall tystiolaeth yr ymchwil gefnogi canfyddiadau'r gwaith ymchwil.

## Pa ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael i gymdeithasegwyr?

### Bwledi

- Cynhyrchir data cynradd gan y cymdeithasegwyr sy'n cynnal yr ymchwil.
- Cynhyrchir data eilaidd gan bobl eraill a fe'i defnyddir gan y cymdeithasegwr.
- Mae'n hawdd casglu data cynradd, ond ni wneir hyn yn dda pob amser.
- Dylid bod yn wyliadwrus gyda data eilaidd, nid yw bob amser wedi'i gasglu gyda chymdeithasegwyr mewn golwg.

### Testun

Gall cymdeithasegwyr fynd ati i gasglu data mewn amryw o wahanol ffyrdd. Gallant gasglu'r wybodaeth y mae arnynt ei hangen eu hunain. Gelwir hyn yn casglu data cynradd, a gelwir y broses yn ymchwil cynradd neu'n casglu data cynradd. Mae nifer o wahanol ddulliau o gasglu data cynradd. Y rhai mwyaf cyffredin yw arolygon sy'n defnyddio holiaduron a chyfweliadau, ond mae arsylliadau ac arbrofion hefyd yn bwysig. Disgwylir i gymdeithasegwyr ysgrifennu am eu dulliau pan fyddant yn rhoi eu prosiectau ymchwil ar ddu a gwyn, fel bod modd i eraill arfarnu ansawdd y dulliau a ddefnyddiwyd. Mae ymchwil cynradd neu gasglu data cynradd yn hynod bwysig mewn cymdeithaseg.

Mae'n gymharol hawdd casglu data cynradd. Er hynny, mae'n anodd iawn gwneud hyn yn dda; dyma pam fod astudio methodoleg gymdeithasegol mor bwysig. Mae'r mathau o brosiectau sy'n nodweddiadol o ymchwil cynradd yn brosiectau ar raddfa fach, sy'n canolbwyntio ar broblemau neu faterion penodol. Bydd cymdeithasegwyr yn casglu data cynradd os ydynt yn dymuno gweithio ar destun nad yw wedi'i astudio'n llawn o'r blaen, neu os ydynt eisiau gwneud gwaith gwreiddiol.

Dibynna llawer o gymdeithasegwyr ar ddata eilaidd. Dyma ddeunydd sydd wedi'i gynhyrchu gan bobl eraill. Ystadegau swyddogol yw'r ffynhonnell data eilaidd bwysicaf, sydd wedi'u casglu gan adrannau'r llywodraeth megis y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol ac arolygon, yr heddlu, y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau addysg. Mae cryn ddadlau i ba raddau y gellir ymddiried mewn ystadegau swyddogol, ond maent yn hynod ddefnyddiol i gymdeithasegwyr oherwydd eu bod yn rhoi gwybodaeth i ni am batrymau a thueddiadau mewn cymdeithas. Mae llyfrau, ymchwil, papurau newydd, a dyddiaduron sydd eisoes wedi'u hysgrifennu yn fathau eraill o ddata eilaidd. Mae anfantais i rai o'r

© CBAC / WJEC 2015

deunyddiau hyn, er enghraifft, ysgrifennwyd llawer ohono am resymau eraill ar wahân i ymchwil cymdeithasol. Un o'r ffynonellau data eilaidd bwysicaf yn y DU yw'r llyfr blynyddol Social Trends, a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (ONS).

### Cwestiynau

1. Beth yw ymchwil cynradd?
2. Beth yw ymchwil eilaidd?
3. Beth yw manteision ac anfanteision dibynnu ar ddata eilaidd?

### Allweddeiriau

- Ymchwil cynradd - cynhelir gan yr ymchwilydd.
- Ymchwil eilaidd - cesglir a chyhoeddir gan bobl eraill ac fe'i defnyddir gan y cymdeithasegwr.
- Social Trends - llyfr blynyddol sy'n crynhoi data ystadegol o ffynonellau'r llywodraeth am gymdeithas yn y DU. Gellir ei lawr lwytho o wefan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol.

## Beth yw dibynadwyedd a dilysrwydd?

### Bwledi

- Nid yw unrhyw ddarn o ymchwil yn berffaith. Mae gan bob ymchwil ei gryfderau a'i wendidau.
- Mae ansawdd tystiolaeth yn dibynnu ar ansawdd yr ymchwil.
- Rhaid i gymdeithasegwyr arfarnu ansawdd y dystiolaeth a ddefnyddiant.
- Dibynadwyedd yw'r graddau y gellir ymddiried mewn darn o ymchwil a'i ailadrodd.
- Dilysrwydd yw'r graddau y gellir cefnogi canfyddiadau'r ymchwil gyda'r dystiolaeth a geir o'r ymchwil hwnnw.

### Testun

Mae ansawdd ymchwil yn bwysig iawn oherwydd bod cymdeithasegwyr yn seilio eu casgliadau ar y dystiolaeth yn yr ymchwil hwnnw. Os bydd yr ymchwil yn wallus, nid oes fawr o werth i'r dystiolaeth na'r casgliadau. Er hynny, ni all yr un darn o ymchwil fod yn berffaith.

Mae hyn oherwydd nad oes modd rhagdybio pobl, nid ydynt wastad yn dweud y gwir, ac nid ydynt wastad yn gwybod pryd maent yn anonest chwaith. Mae pobl yn wahanol i destunau gwyddoniaeth bur oherwydd eu bod yn atblygol. Golyga hyn eu bod yn gallu meddwl am yr hyn a wnânt, ac am yr hyn a ddywedant. Efallai na fyddant yn meddwl yr un peth yn gyson o'r naill sefyllfa i'r llall.

Gan fod cymdeithasegwyr yn cydnabod mai tasg amhosibl yw cynhyrchu darn ymchwil sy'n berffaith, maent yn cydnabod pa mor bwysig yw pwyso a mesur ansawdd ymchwil. Mae pob gwyddonydd cymdeithasol yn defnyddio'r un mesurau allweddol i arfarnu ansawdd unrhyw ddarn o ymchwil y maent yn ei ddefnyddio neu'n ei gynhyrchu. Y mesurau pwysicaf hyn yw dibynadwyedd a dilysrwydd. Maent yn debyg, ond ddim yr un fath, felly ni ddylid defnyddio'r naill am y llall.

Dibynadwyedd

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Sgiliau ymchwil)

Mae'r dynesiad gwyddonol yn rhoi gwerth mawr ar ddibynadwyedd data. Cymdeithaseg empirig yw cymdeithaseg sy'n ymwneud â mesur ffenomenau gweledol, sef pethau y gellir eu gweld a'u cyfrif. Er mwyn mesur newid cymdeithasol, neu brofi damcaniaethau cymdeithasol, rhaid i'r data a gynhyrchir fod yn ddibynadwy. Mae'n anodd diffinio dibynadwyedd oherwydd ei fod yn ymwneud â nifer o syniadau. Yr un mwyaf elfennol a'r pwysicaf o'r rhain yw'r gallu i ailadrodd neu gysondeb. Os bydd mwy nag un person yn gweinyddu prawf neu holiadur, golyga hyn y dylai'r canlyniadau fod yn weddol debyg rhwng dau ddarn o ymchwil strwythuredig, gan gymryd nad oes dim newidiadau sylfaenol wedi digwydd rhwng y ddau brawf. Ystyrir bod dibynadwyedd yn aml yn nodweddu ymchwil cymdeithasol meintiol.

Dilysrwydd
Mae'r dulliau ansoddol a meintiol mewn cymdeithaseg yn rhoi pwyslais mawr ar ddilysrwydd. Dilysrwydd yw'r graddau y mae canfyddiadau'r ymchwil wir yn cynrychioli beth roedd yr ymchwilydd yn ceisio'i ddarganfod mewn gwirionedd. Mae nifer o bethau all effeithio ar ddilysrwydd gwaith ymchwil - er enghraifft, gall cynllun yr ymchwil fod yn wallus, neu efallai bod yr ymchwilydd yn gwneud casgliadau na ellir eu cyfiawnhau. Honnir bod ymchwil ansoddol yn fwy dilys nag ymchwil meintiol oherwydd gellir archwilio atebion pobl yn fanwl. Er hynny, nid yw ymchwil ansoddol pob amser yn ddibynadwy oherwydd na ellir ei ailadrodd.

### Cwestiynau

1. Pam nad yw'n bosib i unrhyw ddarn ymchwil fod yn berffaith?
2. Beth yw'r mesurau allweddol ar gyfer ansawdd tystiolaeth ymchwil?
3. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng dibynadwyedd a dilysrwydd?

### Allweddeiriau

- Atblygol - y gallu i feddwl am weithredoedd eich hun.
- Dibynadwyedd - y graddau y gellir ymddiried mewn darn o ymchwil a'i ailadrodd.
- Dilysrwydd - y graddau y gellir cefnogi canfyddiadau'r ymchwil gyda'r dystiolaeth a geir o'r ymchwil hwnnw.

## Moeseg ac ymchwil cymdeithaseg

### Bwledi

- Mae cymdeithasegwyr yn edrych ar fanylion preifat bywydau pobl.
- Mae gan bobl yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag niwed, yn yr un modd â chymdeithasegwyr.
- Mae moeseg yn golygu astudio moesoldeb
- Mae cymdeithasegwyr yn cadw at god moeseg sy'n amddiffyn y bobl a astudiant, enw da'r bobl, a'u hunain rhag niwed.
- Ni ddylid torri'r côd moeseg hwn.

### Testun
Mae agwedd bwysig arall ar ymchwil gwyddor gymdeithasol y dylai pob cymdeithasegydd fod yn ymwybodol ohoni. Gan mai pobl sydd dan sylw mewn gwyddorau cymdeithasol, efallai bydd angen gofyn cwestiynau personol, neu arsylwi pobl mewn sefyllfaoedd preifat. Felly mae pobl yn rhoi eu ffydd mewn cymdeithasegwyr. Gallant roi unigolion mewn

© CBAC / WJEC 2015

sefyllfa allai godi cywilydd arnynt, neu roi niwed iddynt. Roedd Tearoom Trade Laud Humphries (1970) yn rhoi dynion mewn sefyllfa ble gallent gael eu gweld yn cymryd rhan mewn gweithgarwch cyfunrywiol mewn cyfnod pan allent fod wedi cael eu herlyn am hyn, a bod wedi dwyn gwarth cymdeithasol ar eu hunain.

Yn yr un modd, gallai'r ymchwilydd hefyd fod mewn perygl. Un astudiaeth enwog oedd honno gan James Patrick (1973), A Glasgow Gang Observed, a gyhoeddwyd yn ddienw oherwydd bod yr ymchwilydd wedi bod ar gyrion torcyfraith a gwyddid fod ei grŵp astudio yn cario cyllyll. Teimlai ei fod mewn gwir berygl o gael ei niweidio ganddynt, neu gan eraill petaent yn gwybod pwy ydoedd.

Mae moeseg yn cyfeirio at astudio beth sy'n gywir ac yn anghywir. Mae cymdeithasegwyr wedi datblygu Codau Moesol sy'n cael eu hadolygu'n gyson, a bernir pob gwaith ymchwil ar y sail ei fod yn foesegol neu beidio. Os bernir bod yr ymchwil wedi rhoi'r ymchwilydd mewn perygl o gael anaf neu niwed, mae'r ymchwil yn anfoesegol. Pan wneir awgrymiadau ar gyfer ymchwil, yna trafodir moeseg yr ymchwil cyn i'r ymchwilydd hyd yn oed ddechrau ar y gwaith.

Mae Cymdeithas Gymdeithasegol Prydain [British Sociological Association] yn disgwyl i'r ymchwilydd osgoi iaith hiliol a rhywiaethol, asesu risg y perygl i'r ymchwilwyr a'r testunau, rhoi sicrwydd o gyfrinachedd, osgoi manteisio ar bobl fregus. Mae angen gwneud pobl yn ymwybodol eu bod yn destun astudiaeth fel y gallant gael eu tynnu o'r data os ydynt yn dymuno. Hefyd, dylai ymchwilwyr gael cymwysterau a sgiliau addas er mwyn cynnal yr ymchwil. Dylai'r ymchwil hefyd fod ar gael i'r cyhoedd ar ryw adeg.

### Cwestiynau

1. Pam fod angen côd moeseg mewn cymdeithaseg?
2. Pa reolau fyddech chi'n eu hysgrifennu i gymdeithasegwyr?

### Allweddeiriau

- Moeseg (etheg)- astudio moesoldeb.
- Cymdeithas Gymdeithasegol Prydain [British Sociological Association] - y corff llywodraethu ar gyfer cymdeithaseg mewn prifysgolion ym Mhrydain.

## Pam fod arbrofi yn bwnc llosg yn y gwyddorau cymdeithasol?

### Bwledi

- Mae gwyddonwyr mewn llawer o bynciau yn defnyddio arbrofion i gynnal ymchwil.
- Mae hyn yn anodd iawn mewn cymdeithaseg.
- Mae'n anodd diffinio llawer o'r testunau a astudir gan gymdeithasegwyr mewn ffordd syml a mesuradwy.
- Gwelid bod llawer o'r arbrofi ar bobl yn anfoesegol oherwydd bod pobl yn cael eu rhoi mewn perygl.
- Mae pobl yn addasu eu hymddygiad o wybod eu bod yn cael eu hastudio, felly gall canlyniadau'r arbrawf fod yn ddiwerth.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Sgiliau ymchwil)

## Testun

Arbrofi yw'r dull clasurol a ddefnyddir yn y rhan fwyaf o'r gwyddorau. Mae'r broses hon yn ddealladwy ac yn gyffredin i'r holl wyddorau fel ffordd o brofi ffenomenau gweledol. Mae'r gwyddonydd yn arsylwi rhywbeth, yn crybwyll damcaniaeth i'w egluro ac wedyn yn cynnal profion i wirio a ellir profi'r ddamcaniaeth neu beidio. Dylai gwyddonwyr eraill allu ailadrodd y profion hyn. Dylai'r gwyddonydd fod yn wrthrychol ac yn anemosiynol am y profion. Mesurir hyn o safbwynt dibynadwyedd.
Mae rhai gwyddorau cymdeithasol megis seicoleg yn dibynnu ar ddull arbrofi i ddysgu mwy am eu disgyblaethau. Mewn cymdeithaseg, er hynny, ni ddefnyddir yr arbrawf gwyddonol yn aml, ac mae'r rhesymau am hyn yn egluro un o brif anawsterau'r dull gwyddonol.

Yr anhawster cyntaf i gymdeithasegwyr yw ei bod weithiau'n anodd diffinio'r pwnc dan sylw. Cyn mesur unrhyw beth, mae'n bwysig diffinio beth sy'n cael ei fesur. Ychydig o bobl all gytuno ar ddiffiniadau sylfaenol o dermau bob dydd megis y teulu, tlodi, cariad neu addysg. Mae'n amhosibl bron diffinio ymddygiad mwy cymhleth megis salwch meddwl neu anghydraddoldeb cymdeithasol mewn ffordd fydd yn bodloni pawb. Felly, mae'n rhaid i gymdeithasegwyr fod yn hollol glir beth maent yn edrych amdano. Gelwir y broses o ddiffinio term yn weithredolaeth. Gelwir y term sy'n peri anhawster yn derm sy'n cael ei herio (contested concept).

Problem arall yw bod llawer o sylwebwyr yn credu bod arbrofi ar bobl yn anfoesegol. Roedd canlyniadau rhai arbrofion enwog ar bobl, a gynhaliwyd gan seicolegwyr cymdeithasol, mor niweidiol fel bod cryn ddadlau wedi bod yn eu cylch. Yr enwocaf o'r rhain oedd arbrofion Stanley Milgram ar ufudd-dod a phersonoliaeth awdurdodaidd, ac arbrawf Carchar Stanford Zimbardo.

Un o'r arbrofion mwyaf diddorol oedd y gyfres o arbrofion a wnaed gan Elton Mayo. Canlyniad hyn oedd iddo ddisgrifo ffenomen a elwir yn Effaith Hawthorne. Yn yr arbrawf hwn ar amodau gwaith ac allbwn, gwelodd Mayo bod yr arbrawf ei hun wedi arwain at yr effaith y bu ddarganfod. Mae pobl yn atblygol ac yn awyddus i blesio, felly maent yn addasu eu hymddygiad i gael y canlyniadau mae'r ymchwilydd yn chwilio amdanynt. Ymddygiad anymwybodol yw hyn, ond mae'n digwydd ac nid yw'r arbrawf yn wyddonol nac yn ddilys wedyn.

## Cwestiynau

1. Beth yw gwerth y dull arbrofi i ymchwilwyr
2. Sut gellir dweud fod arbrofi ar bobl yn anfoesegol?
3. Pam fod angen i gymdeithasegwyr weithredoli termau cyn dechrau astudio pobl?
4. Beth yw Effaith Hawthorne?

## Allweddeiriau

- Gweithredolaeth - diffinio term mewn ffordd y gellir ei fesur.
- Cysyniad sy'n cael ei herio - term y gellir ei ddiffinio mewn mwy nag un ffordd.
- Arbrawf - dull systematig a ddefnyddir i brofi damcaniaeth.
- Damcaniaeth - gosodiad y gellir ei brofi.
- Ffenomenon - rhywbeth sy'n digwydd.

© CBAC / WJEC 2015

## Pam fod arolygon mor gyffredin?

### Bwledi

- Y dull cymdeithasegol mwyaf cyffredin a ddefnyddir yw arolwg, sy'n golygu gofyn cwestiynau i grwpiau o bobl.
- Mae'n ddull hyblyg iawn, ond mae angen ei lunio'n dda er mwyn iddo gynhyrchu unrhyw ddata sydd o werth
- Mae holiaduron yn ysgrifenedig
- Mae cyfweliadau yn teimlo fel sgwrs.

### Testun

Arolwg yw'r dull ymchwil cymdeithasegol mwyaf cyffredin a ddefnyddir. Mae llawer o ddisgyblaethau eraill wedi mabwysiadu ac addasu'r dull hwn fel ffordd o ddarganfod beth mae pobl yn ei feddwl neu sut maent yn ymddwyn. Mae arolwg yn ymddangos yn broses hawdd iawn, ond mae angen ei gynllunio'n ofalus a chyda gwrthrychedd cymdeithasegol er mwyn datgelu unrhyw beth o werth.

Arolwg yw pan ofynnir cyfres o gwestiynau i nifer o bobl. Gall y cwestiynau fod yn ysgrifenedig gyda phobl yn nodi eu hatebion eu hunain; holiadur yw hwn. Gall rhywun ddarllen y cwestiynau ar goedd; cyfweliad strwythuredig yw hwn. Gall arolwg gyrraedd nifer fawr o bobl. Gwneir Cyfrifiad pob deng mlynedd yn y DU sy'n ceisio cyrraedd holl boblogaeth y DU. Yn yr un modd, mae posib arolygu nifer gymharol fach o bobl megis dosbarth o fyfyrwyr neu nifer o bobl sy'n pasio heibio mewn canolfan siopa. Gellir gwneud rhai arolygon ar y we. Mae gwerth y canlyniadau yn dibynnu'n llwyr ar ansawdd y cwestiynau a chynllun yr ymchwil. Ymatebydd yw rhywun sy'n cymryd rhan mewn arolwg.

Mae dau fath o arolwg. Mae arolwg hydredol yn dilyn pobl dros gyfnod o amser. Maent yn ddrud i'w cynnal ac yn gofyn i bobl ymrwymo yn y tymor hir. Er hynny, maent yn ffordd wych o fesur newid cymdeithasol a thueddiadau cymdeithasol. Mae arolwg trawstoriadol yn mesur pobl ar adeg benodol, gellir ei ystyried fel llun sy'n cipio gwybodaeth ar un adeg benodol.

Mae holiaduron yn ffordd dda o ofyn union yr un cwestiynau i nifer fawr iawn o bobl. Maent yn weddol rad i'w creu ac yn gymharol hawdd i'w gweinyddu. Yr anfanteision yw na fydd pawb yn darllen y cwestiynau'r un ffordd. Bydd yr ateb i unrhyw gwestiwn yn amrywio yn ôl y cyd-destun a phwy sy'n gofyn y cwestiwn. Gall cwestiynau fod yn gaeedig: mae'r ymatebydd yn dewis ateb o blith rhai sydd eisoes wedi'u hysgrifennu. Gall cwestiynau fod yn agored: mae'r ymatebydd yn nodi ei deimladau.

Mae cyfweliadau yn teimlo fel sgwrs. Weithiau, mae cwestiynau wedi'u hysgrifennu a'u sgriptio. Cyfweliad strwythuredig yw hyn oherwydd mai'r cyfwelydd sy'n rheoli'r sefyllfa. Weithiau, mae'r cyfwelydd yn gadael i'r cyfwelai siarad o'i ewyllys.
Cyfweliad distrwythur yw hyn. Mae'r rhan fwyaf o gymdeithasegwyr yn tueddu i ddefnyddio cyfuniad o'r ddau ddull i gynhyrchu cyfweliadau lled-strwythuredig. Mae cyfweliadau yn gadael i bobl ddatblygu ar bwyntiau neu ystyried atebion. Mae'r rhan fwyaf o gyfwelwyr wedi'u hyfforddi'n dda ac yn brofiadol iawn oherwydd weithiau gall y cyfwelydd effeithiol ar ansawdd yr atebion, heb fod yn ymwybodol o beth sy'n digwydd. Gelwir hyn yn duedd y cyfwelydd.

© CBAC / WJEC 2015

### Cwestiynau

1. Beth yw arolwg?
2. Beth yw'r ddau fath o arolwg?
3. Beth yw'r ddau ddull arolwg?
4. Beth yw manteision ac anfanteision holiaduron?
5. Beth yw manteision ac anfanteision y dull cyfweld?

### Allweddeiriau

- Arolwg - cyfres o gwestiynau i nifer o bobl.
- Cyfweliad - mae'r cwestiynau ar ffurf sgwrs.
- Holiadur - mae'r cwestiynau wedi'u hysgrifennu.
- Tuedd y cyfwelydd - yr effaith caiff y cyfwelydd ar y cyfwelai, gall hyn effeithio ar y canlyniadau.
- Astudiaeth hydredol - mae hyn yn digwydd dros gyfnod o amser.
- Astudiaeth drawstoriadol - ciplun o un lle ac un amser.
- Cyfweliad strwythuredig - mae'r cyfwelydd yn rheoli'r sgwrs.
- Cyfweliad distrwythur - mae gan y cyfwelai ryddid i siarad o'i ewyllys.
- Ymatebwyr - pobl sy'n ateb cwestiynau.
- Cwestiynau agored - gall ymatebwyr ysgrifennu atebion manwl.
- Cwestiynau caeedig - ymatebwyr yn dewis ateb sy'n gweddu i'w teimladau.

## Sut mae dulliau cymdeithasegwyr yn effeithio ar gynllunio'u hymchwil a'u canlyniadau?

### Beth yw cefndir meddwl gwyddonol mewn cymdeithaseg?

### Bwledi

- Datblygodd cymdeithaseg ochr yn ochr â'r dull astudio gwyddonol
- Gelwir y dull astudio gwyddonol yn rhesymu rhagdybiaethol-diddwythol Gorllewinol. Mae'n gyffredin ym mhob pwnc academaidd.
- Mae rhai cymdeithasegwyr yn credu y dylai cymdeithaseg fod yn wyddor
- Awgryma eraill na ellir astudio cymdeithas mewn ffordd wyddonol oherwydd bod cymdeithasegwyr eu hunain yn ffrwyth cymdeithas.
- Dibynna'r ffordd maent yn deall y byd ar eu cefndir diwylliannol.

### Testun

Dechreuodd cymdeithaseg fel disgyblaeth academaidd yr un pryd â roedd pobl yn dechrau datblygu trefn glir ar gyfer arbrofion gwyddonol. Yr un pryd, roedd syniadau gwyddoniaeth yn dechrau gwrthdaro ag egwyddorion crefydd. Mae cred grefyddol yn egluro pethau drwy ddweud mai 'dyna oedd bwriad Duw', ac yn ystyried mai cred yw ffydd mewn pethau na ellir eu gweld. Mae gwyddoniaeth yn egluro pethau drwy arbrofi ac arsylwi. Mae gwyddoniaeth wedi arwain at ffordd o feddwl a elwir yn rhesymu rhagdybiaethol-diddwythol. Mae ffordd glir a rhesymegol o astudio pethau y gall unrhyw un ei dilyn. Mae'n ffurfio'r sail i feddwl academaidd mewn ysgolion a phrifysgolion oherwydd ei bod yn systematig ac yn ddealladwy i bobl sy'n meddwl.

Fel hyn mae'r broses yn gweithio. Mae'r ymchwilydd yn gweld digwyddiad ac yn ceisio'i egluro. Ar ôl meddwl, mae'r ymchwilydd yn rhoi esboniad posibl; mae hwn ar ffurf

© CBAC / WJEC 2015

damcaniaeth. Mae'r ymchwilydd yn creu arbrawf neu astudiaeth i brofi'r ddamcaniaeth. Dadansoddir y canlyniadau gan ddod i gasgliad. Derbynnir neu gwrthodir y ddamcaniaeth. Disgwylir i'r ymchwilydd lunio casgliadau am ansawdd y dull ymchwil (arfarnu). Ysgrifennir adroddiad a'i gyhoeddi. Mae ymchwilwyr eraill nawr yn ailadrodd yr arbrawf i weld a ydynt yn cael canlyniadau tebyg neu beidio, ac maent hefyd yn arfarnu'r ymchwil. Er bod pob disgyblaeth mewn ysgolion a cholegau yn dilyn yr un egwyddorion sylfaenol, maent yn eu haddasu rhywfaint i anghenion eu maes astudiaeth.

Bu dadlau ers tro byd mewn cymdeithaseg ynglŷn ag i ba raddau y gall cymdeithaseg honni mai gwyddor ydyw. Mae dadleuon sy'n cefnogi'r farn y dylai cymdeithaseg fod yn wyddor yn canolbwyntio ar y tri phwynt hyn: dylai cymdeithasegwyr astudio'r hyn y gallant ei weld a'i arsylwi, pwrpas cymdeithaseg yw darganfod pam fod pethau'n digwydd ac ymchwilio i ffeithiau cymdeithasol y gellir eu darganfod a'u hegluro. Dylai cymdeithaseg fod yn wrthrychol ac yn rhydd o werthoedd.

Mae'r rheiny sy'n feirniadol o'r farn y gall cymdeithaseg fod yn wyddor yn dweud nad yw'r byd ei hun yn wyddonol. Mae'n rhaid ei ddehongli os ydym am ddeall beth sy'n digwydd. Rhaid i gymdeithaseg fod yn oddrychol oherwydd bod pobl eu hunain yn rhan o'r gymdeithas maent yn ei hastudio, ac maent yn dod â'u syniadau eu hunain i'r hyn a welant. Bydd eu safbwyntiau yn effeithio ar beth fyddant yn ei ddarganfod. Mae rhai cymdeithasegwyr yn mynd â'r ddadl hon gam ymhellach gan ddweud y dylai cymdeithaseg fod yn emosiynol, ac y dylai herio pethau sydd o'i le gyda'r byd cymdeithasol.

### Cwestiynau

1. Beth yw'r enw ar y math o feddwl sy'n gysylltiedig ag ymchwil academaidd?
2. A ellir astudio cymdeithaseg mewn ffordd wyddonol?

### Allweddeiriau

- Gwrthrychol - anemosiynol, ymdrech i fod yn wyddonol ac yn ddiduedd mewn astudiaeth.
- Goddrychol - bod yn emosiynol ac â thuedd
- Rhydd o werthoedd - ffordd wrthrychol a rhydd o werthoedd o edrych ar gymdeithas.
- Systematig - cael dull y gall eraill ei ddeall.
- Rhesymu rhagdybiaethol-diddwythol Gorllewinol - ffordd o edrych ar y byd a'i astudio'n systematig.

## Pam fod angen ymchwil rhyngweithiol?

### Bwledi

- Mae pobl yn dehongli'r byd yn ôl eu dealltwriaeth eu hunain.
- Er mwyn deall eu gweithredoedd, mae'n bwysig deall sut maent yn dehongli'r byd.
- Mae Dehonglwyr yn ceisio deall sut mae pobl yn dehongli'r byd
- Mae Dehonglwyr yn defnyddio arsylliadau a chofnodion personol yn ogystal â chyfweliadau distrwythur.
- Mae cymdeithasegwyr gweithredol yn gadael i'w atebwyr fod yn rhan o'r broses astudio.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Sgiliau ymchwil)

## Testun

Er gwaethaf cryfderau amlwg y dull cymdeithaseg positifiaeth, mae'n amlwg nad yw bodau dynol yr un fath â gwrthrychau. Mae bodau dynol yn meddwl am eu byd. Gelwir hyn yn natur ymatblyg neu'n fyfyrio. Mae bodau dynol yn meddwl ac mae ganddynt emosiynau hefyd. Mae'n amlwg bod syniadau neu deimladau tu cefn i ymddygiad pobl; ni fydd pethau sy'n gwneud synnwyr i'r person sy'n eu gwneud yn gwneud dim synnwyr o gwbl i eraill. Meddyliwch am weithredoedd bomwyr hunanleiddiol o safbwynt y bomiwr. I'r bomiwr, mae'r weithred yn rhesymol ac yn bwrpasol; er hynny, ni fydd eraill yn gweld y weithred fel hyn. Bydd pobl yn mynd i drafferth fawr oherwydd eu syniadau. Awgryma hyn y gall credoau personol pobl am gymdeithas fod yn bwysicach wrth bennu eu gweithredoedd nac y mae positifyddion yn sylweddoli.

Er mwyn deall sut mae pobl yn ymddwyn, mae'n bwysig deall sut maent yn meddwl, sut maent yn teimlo a beth maent yn ei ddeall am y byd. Deilliodd y dull ymchwil hwn o waith dau ddamcaniaethwr pwysig, sef Max Weber (1864 - 1920) a George Mead (1863 - 1931). Roedd y ddau unigolyn dylanwadol hyn yn gweld cymdeithas fel lluniad cymdeithasol. Golyga hyn nad oes y ffasiwn beth â chymdeithas, ond bod pobl yn hytrach yn ymwneud â'i gilydd ac yn creu dealltwriaeth gytûn am y byd. Wedyn, maent yn byw fel petai eu byd personol yn realiti i bawb. Mae cymdeithasegwyr sy'n mynd i'r afael â chymdeithaseg fel hyn yn casglu data sy'n gymorth iddynt ddeall sut mae pobl yn dehongli'r byd. Maent yn ceisio deall sut mae pobl yn dehongli digwyddiadau, a beth sy'n dylanwadu ar yr hyn a welant.

Dehonglwyr neu Ryngweithwyr y gelwir cymdeithasegwyr sy'n cymryd y safbwynt hwn oherwydd eu bod yn ceisio dehongli'r byd neu'n ceisio deall sut mae pobl yn ymwneud â'i gilydd. Ethnomethodoleg yw'r enw ar y ffordd hon o fynd ati i ymchwilio. Poblogeiddiwyd y term gan Harold Garfinkel ac mae'n disgrifio'r ymdrech i geisio deall y rhesymau sydd du cefn i ymddygiad a gweithredoedd pobl. Ethnomethodoleg yw'r ymdrech i geisio gweld sut mae pobl yn gwneud synnwyr o'u profiadau. Term arall am hyn yw gwrth-bositifiaeth.

Arsylwi yw un o'r dulliau mwyaf cyffredin a ddefnyddir gan Ryngweithredwyr.
Gall arsylliadau berthyn i nifer o wahanol gategorïau. Gall arsylwyr gymryd rhan yn yr hyn sy'n digwydd, neu gymryd cam yn ôl. Gallant ddweud wrth bobl eu bod yn cael eu harsylwi a'u bod yn rhan o brosiect ymchwil, neu gallant ddewis cadw hyn yn gyfrinach. Hefyd, defnyddir cyfweliadau distrwythur neu lled-strwythuredig, dadansoddi cynnwys ystyron delweddau a darnau ysgrifenedig (semioleg), dadansoddi dyddiaduron, llythyrau a chofiannau. Defnyddiwyd lluniadau plant a ffotograffau. Cred rhai cymdeithasegwyr y gellir cynnwys y bobl a astudir yn y broses o gynllunio'r ymchwil, a rhoi sylwadau ar y canfyddiadau wrth iddynt gael eu hysgrifennu. Gelwir hyn yn ymchwil gweithredol. Mae Dehonglwyr yn creu data ansoddol. Dywedir bod eu gwaith yn aml yn ddilys iawn, ond ddim bob amser yn ddibynadwy.

## Cwestiynau

1. Pam fod Rhyngweithwyr yn gwrthod positifiaeth?
2. Pa dystiolaeth a geir fod credoau a syniadau yn dylanwadu ar ymddygiad pobl?
3. Pa fath o brosiectau ymchwil fyddai'n addas i ethnomethodolegwyr?

## Allweddeiriau

© CBAC / WJEC 2015

- Dehonglwyr - ceisio deall sut mae pobl yn deall y byd cymdeithasol.
- Rhyngweithwyr - ceisio deall sut mae pobl yn creu dealltwriaeth gytûn.
- Ethnomethodoleg - ymgais i ddeall rhesymau pobl am eu gweithredoedd.
- Ymchwil ethnograffig - ymchwil sy'n defnyddio ethnomethodoleg.
- Arsylliadau - pobl yn edrych ar sut mae pobl yn ymddwyn.
- Natur ymatblyg - y gallu i feddwl am eich gweithredoedd eich hun.
- Cyfweliadau - siarad â phobl.
- Semioleg - dadansoddi ystyron.

## Beth sy'n arbennig am ymchwil ffeministaidd?

### Bwledi

- Mae amrywiaeth o fathau o ffeministiaeth.
- Mae pob math o ffeministiaeth yn gwrthod patriarchaeth.
- Mae ymchwil ffeministaidd yn ceisio rhoi llais merched wrth wraidd y broses ymchwil.
- Dylai ymchwil ffeministaidd rymuso merched a bod yn wleidyddol yn yr ystyr ehangaf.
- Gwneir ymchwil ffeministaidd ar y cyd â thestunau'r ymchwil.
- Mae methodoleg ffeministaidd yn tueddu i fod yn bersonol ac yn ansoddol gan ddefnyddio arsylliadau cyfranogol, dyddiaduron, dadansoddi sgyrsiau, a chyfweliadau distrwythur.
- Nid yw ymchwil ffeministaidd yn ceisio bod yn rhydd o werthoedd.

### Testun

Roedd ffeministiaeth yn y 1970au yn herio bob math o feddylfryd gwrywaidd. Roedd nifer o linynnau i feddylfryd ffeministaidd, felly mae'n anodd sôn am ffeministiaeth ei hun. Roedd ffeministiaid radical yn gwrthod gwrywdod gan gyhuddo bob dyn o fod yn dreisiwr posibl. Roedd ffeministiaid rhyddfrydol yn gofyn am newid graddol mewn cymdeithas. Roedd ffeministiaid Marcsaidd yn gofyn am newid chwyldroadol. Erbyn y 1990au, roedd ffurfiau newydd o ffeministiaeth, megis ffeministiaeth ddu oedd yn datgelu'r baich dwbl ar ferched o leiafrifoedd ethnig o ganlyniad i batriarchaeth a gwahaniaethu hiliol. Mae'r rhan fwyaf o fathau o ffeministiaeth yn rhannu'r un credoau creiddiol ynglŷn â beth yw ymchwil ffeministaidd.

Cred ffeministiaid y dylai ymchwil rymuso merched. Golyga hyn bod ffeministiaid yn ceisio rhoi llais i ferched. Maent yn ymchwilio i destunau mae gwyddonwyr ac awduron gwrywaidd wedi'u diystyru. Mae ffeministiaid yn edrych ar destunau megis llafur domestig (Anne Oakley, Hannah Gavron), mamolaeth (Anne Oakley), perthynas rhwng merched (Valerie Hey), merched yn ddioddefwyr trosedd (Elizabeth Stanko), a phrofiadau gwahanol genedlaethau o ferched (Jane Pilcher). Mae gwaith pwysig wedi'i wneud ar drais o du dynion yn erbyn merched: cam-drin, aflonyddu, a rheolaeth sy'n digwydd yn y cartref a'r gymdeithas eangach. Felly, mae ffeministiaeth wedi effeithio ar destunau ymchwil.

Hefyd, tuedda ffeministiaid i gredu bod y broses ymchwil ei hun, a phositifiaeth yn arbennig, yn adlewyrchu ffordd o feddwl wrywaidd. Mae'r broses ymchwil yn grymuso'r ymchwilydd, yn arbennig yn y gwyddorau cymdeithasol, ble mae safbwynt y dyn yn llywodraethu. Gall yr ymchwilydd ddiystyru neu anwybyddu profiadau'r ymatebydd, gyda'r ymchwilydd yn rhoi ei ddehongliadau ei hun o ymatebion y sampl. Teimlai ffeministiaid cynnar y dylai'r broses ymchwil rymuso merched wrth eu helpu i ddeall eu

© CBAC / WJEC 2015

sefyllfa, a dangos rhywiaeth yn y gymdeithas. Yn wir, mae llawer o ymchwilwyr ffeministaidd yn rhoi eu profiadau a'u hanes eu hunain yn eu hymchwil.

### Cwestiynau

1. Pam bod cymdeithasegwyr yn sôn am ffeministiaeth?
2. Pa ddau safbwynt sy'n greiddiol i ffeministiaeth?
3. Pa ddulliau a ddefnyddir gan ymchwilwyr ffeministaidd?

### Allweddeiriau

- Ffeministiaeth - amrywiaeth o safbwyntiau sy'n ystyried bod y byd yn batriarchaidd.
- Ffeministiaeth radical - math eithafol o ffeministiaeth.
- Grymuso- rhoi pŵer i.
- Positifiaeth - ffordd wyddonol o edrych ar gymdeithaseg.
- Ymatebydd - person sy'n ateb cwestiynau.

## Sut mae ôl-foderniaeth a realaeth wedi effeithio ar waith ymchwil?

### Bwledi

- Ni all positifiaeth weithio oherwydd ni allwn astudio cymdeithas yn wyddonol.
- Nid yw rhyngweithedd yn gweithio oherwydd mae'n anwybyddu effaith strwythur cymdeithasol.
- Mae realaeth yn awgrymu y dylai ymchwilwyr gydnabod strwythur ac ystyr wrth gynnal ymchwil.
- Dywed ôl-fodernwyr nad oes ffasiwn beth â 'gwirionedd'. Rydym yn byw ein bywyd yn ôl nifer o naratifau. Felly, mae dehongli a dadansoddi yn ffordd effeithiol o astudio cymdeithas.

### Testun

Mae positifiaeth wedi bod yn fethiant mewn cymdeithaseg mewn amryw o ffyrdd, yn rhannol oherwydd na all ymchwil gwyddonol cymdeithasegol lai na methu. Mae rhyngweithedd yn fethiant i ymchwilwyr oherwydd ei fod ar raddfa fach ac yn bersonol. Nid yw hynny'n golygu bod yr un o'r ddau ddull yn ddiwerth, ond yn hytrach nid yw dull yn well na'r llall. Maent yn wahanol. Mae safbwyntiau newydd wedi datblygu mewn cymdeithaseg oherwydd y tensiwn rhwng y ddwy ddadl. Mae'r syniadau hyn yn effeithio ar sut mae ymchwilwyr yn mynd ati i ddeall y byd cymdeithasol.

Un ymateb i'r problemau gyda phositifiaeth fu datblygiad realaeth. Awgryma'r dull hwn bod strwythurau cymdeithasol yn bodoli, a'u bod yn dylanwadu ar bobl. Er hynny, mae gan bobl asiantaeth hefyd. Term technegol yw hyn. Mae'n golygu bod pobl yn gallu meddwl drostynt eu hunain, yn hytrach nag ymateb i eraill neu feddwl yr hyn y dywedir wrthynt am feddwl. Os derbynnir bod y ddau osodiad yn wir, yna gwaith y cymdeithasegwyr yw edrych ar sut mae pobl yn ymddwyn o fewn y strwythurau cymdeithasol y maent yn byw ynddynt. Dylid defnyddio dulliau positifiaeth a rhyngweithedd ar y cyd i roi cydbwysedd. Cesglir data ystadegol i danlinellu effaith perthnasau cymdeithasol, dim oherwydd mai dyna yw pwrpas cymdeithaseg. Mae llawer o waith ymchwil yn ddiweddar yn dilyn y safbwynt hwn sy'n cyfuno dilysrwydd a

© CBAC / WJEC 2015

mewnweledied ymchwil rhyngweithedd ag ymchwil positifiaeth. Byddai ymchwilydd sy'n defnyddio'r dull hwn yn casglu data am faint o fwlio a ddigwyddodd mewn ysgol er mwyn astudio'n fanwl pam fod bwlio yn digwydd.

Mae ôl-foderniaeth yn syniad newydd cymharol ddiweddar a dylanwadol iawn. Mae'r safbwynt hwn yn gwrthod positifiaeth oherwydd honnir na ellir cael un gwirionedd gwyddonol. Mae'r rhan fwyaf o'r pethau rydym yn eu 'gwybod' yn newid dros amser. Er enghraifft, mae syniadau am wrywdod ac ymddygiad gwrywaidd yn wahanol iawn heddiw i'r hyn roeddent yn y 1950au. Ystyriwch y gwahaniaethau rhwng y ffyrdd mae dynion hŷn ac iau yn ymddwyn tuag at ferched, neu eu syniadau nhw o sut i wisgo'n addas. Mae'r gwahaniaeth hwn yn enghraifft o safbwynt cymdeithasol gorgyrhaeddol, a elwir yn 'naratif gwrywaidd' neu 'disgwrs gwrywaidd'. Defnyddir y termau naratif a disgwrs i ddisgrifio math o 'wirionedd' cymdeithasol sy'n newid dros amser. Mae ôl-fodernwyr felly yn dadlau nad oes y ffasiwn beth â 'gwirionedd' felly nad oes pwrpas edrych amdano. Maent yn aml yn defnyddio disgrifiadau hynod ddeongliadol wrth ddadansoddi digwyddiadau ac yn dadwneud ffenomenau cymdeithasol wrth edrych arnynt mewn ffordd ddwys i ganfod ystyr.

### Cwestiynau

1. Beth yw'r brif broblem gyda phositifiaeth?
2. Beth yw'r brif broblem gyda dehongliadaeth?
3. Beth sydd gan realwyr i'w ddweud am ymchwil?
4. Beth yw naratif?
5. Sut mae damcaniaeth (theori)yn effeithio ar ddull ymchwil?

### Allweddeiriau

- Epistemoleg - astudio sut rydym yn gwybod pethau
- Ontoleg - astudio beth rydym yn gwybod, ffeithiau.
- Asiantaeth - gallu i feddwl ac ymddwyn drosoch eich hun.
- Realaeth - safbwynt sy'n cyfuno positifiaeth a rhyngweithedd.
- ôl-foderniaeth - gwrthod positifiaeth yn llwyr sy'n awgrymu nad oes ffasiwn beth â gwirionedd cymdeithasol, dim ond set o sgyrsiau neu naratifau.
- Disgwrs - dadl barhaus ar ffenomenau cymdeithasol arbennig.
- Naratif - stori.
- Dadwneud - edrych ar rywbeth fel delwedd i weld pa syniadau sydd tu cefn iddo.

# Beth yw'r broses o gynllunio ymchwil?

## Sut mae ymchwilwyr yn mynd ati gynllunio astudiaeth?

### Bwledi

- Cyn dechrau ymchwilio, rhaid cynllunio'r ymchwil.
- Mae'n hanfodol cynllunio ymchwil yn ofalus er mwyn iddo fod yn ddilys neu'n ddibynadwy.
- Gweithredoli yn aml yw'r cam cyntaf wrth gynllunio ymchwil.
- Gweithredoli yw'r broses o ddiffinio termau astudiaeth mewn ffordd y gellir ei fesur.
- Gall y diffiniad o ffenomenon a ddefnyddir effeithio ar ganlyniad yr astudiaeth.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Sgiliau ymchwil)

## Testun

Rhaid cynllunio ymchwil neu astudiaeth yn fanwl iawn er mwyn iddo fod o unrhyw werth, neu er mwyn iddo fod yn ddibynadwy neu'n ddilys. Dyma sy'n gwahanu gwaith cymdeithasegwyr proffesiynol oddi wrth bobl sy'n defnyddio'r dulliau yn unig. Bydd safbwyntiau cymdeithasegwyr yn effeithio ar y mathau o gwestiynau a ofynnir yn yr astudiaeth, yn ogystal ag effeithio ar y testun ei hun. Er enghraifft, bydd ffeministiaid yn aml yn dewis testun sy'n ymwneud â benyweidd-dra ac yn meddwl o safbwynt dulliau ansoddol. Ar y llaw arall, bydd positifydd yn edrych am batrymau ymddygiad ac yn meddwl o safbwynt creu ystadegau mesuradwy. Er hynny, mae nifer o brosesau eraill y dylid eu hystyried cyn dewis yr union ddull.

Un o'r camau cyntaf wrth gynllunio ymchwil yw gweithredoli termau'r astudiaeth. Mae hyn yn hanfodol. Bydd hyd yn oed ychydig o ddealltwriaeth o gymdeithaseg yn ddigon i wybod na fydd pawb yn deall termau yn yr un ffordd. Meddyliwch am ystyron posibl y gair 'te.'; yn dibynnu ar ble rydych, diod neu bryd bwyd ydyw. Gall 'Ydych chi eisiau paned o de?' fod yn wahoddiad i gael diod, neu'n wahoddiad gyfeillgarwch. Gellir ei ddefnyddio i gydymdeimlo pan fydd rhywbeth drwg wedi digwydd. Gan fod gan y gair 'te' gymaint o ystyron, meddyliwch am y testunau y gall cymdeithasegwyr eu hastudio. Mewn faint o wahanol ffyrdd y gellir diffinio tlodi? Gweithredoli yw'r broses o ddiffinio term mewn ffordd y gellir ei fesur. Mae'n hanfodol i unrhyw astudiaeth.

Wrth astudio tlodi, mae nifer o wahanol ddiffiniadau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Yn dibynnu ar y diffiniad a ddefnyddir, ystyrir bod llai neu fwy o bobl yn dlawd. Mae'r llywodraeth yn diffinio tlodi fel llai na hanner yr incwm cyfartalog cenedlaethol; sef incwm o tua £7,000. Nid yw pobl sy'n ennill £8,000 yn dlawd. Dyfeisiodd Peter Townsend ddiffiniad cymharol ar gyfer tlodi yn ei waith enwog ar dlodi. Roedd yn diffinio tlodi o safbwynt beth roedd pobl eraill yn teimlo oedd yn 'arferol' i'w gael. Felly, mae pobl sydd ag incwm mor isel fel nad oes modd iddynt fforddio beth sy'n arferol i bobl eraill, yn dlawd. Yn amlwg, mae Peter Townsend ac eraill sy'n defnyddio ei ddiffiniad yn gweld bod llawer mwy o bobl mewn tlodi na'r hyn a ddywed y llywodraeth.

## Cwestiynau

1. Pam fod y broses o gynllunio astudiaeth yn bwysig mewn cymdeithaseg?
2. Pam ei fod yn bwysig diffinio termau astudiaeth cyn hyd yn oed dechrau ar astudiaeth?
3. Sut wnaeth Townsend weithredoli'r term tlodi?
4. Sut wnaeth y ffordd y diffiniodd Townsend tlodi effeithio ar ganlyniadau ei ymchwil?
5. Sut fyddech chi'n mynd ati i ddiffinio ethnigrwydd mewn ffordd y gellir ei fesur?

## Allweddeiriau

- Gweithredolaeth - diffinio term astudiaeth mewn ffordd y gellir ei astudio neu'i fesur.
- Ansoddol - ymwneud ag emosiynau a theimladau.
- Meintiol - ymwneud â rhifau.
- Positifydd - dull gwyddonol o fynd i'r afael â chymdeithaseg.
- Ffeminist - y gred bod merched yn cael eu gormesu gan batriarchaeth.
- Patriarchaeth - dynion a ffyrdd o feddwl dynol yn gormesu.

© CBAC / WJEC 2015

## Pam fod data eilaidd yn bwysig mewn cymdeithaseg?

### Bwledi

- Ffynonellau eilaidd yw deunyddiau sydd wedi'u cyhoeddi gan ymchwilwyr ac awduron eraill.
- Maent yn bwysig i gymdeithasegwyr oherwydd maent yn rhoi cyd-destun i ymchwil.
- Mae llawer o ymchwilwyr yn ailadrodd astudiaethau blaenorol.
- Unwaith mae ymchwil eilaidd wedi'i gwblhau, gall yr ymchwilydd ysgrifennu set o amcanion syml a chyraeddadwy ar gyfer yr ymchwil. Mae hyn yn rhoi canolbwynt i'r ymchwilydd.

### Testun

Cyn dechrau ar ymchwil, mae'n bwysig dechrau gydag adolygiad llenyddiaeth. Mae nifer o resymau am hyn ac mae mor bwysig fel bod rhaid i'r holl lyfrau y cyfeiriwyd atynt gael eu rhestru mewn llyfryddiaeth ar ddiwedd yr ymchwil. Un o'r rhesymau pwysicaf pam fod angen adolygiad llenyddiaeth yw er mwyn i'r ymchwilydd fod yn ymwybodol o ganfyddiadau blaenorol ar yr un testun, ac yn ymwybodol o ddadleuon cyfoes. Mae angen ystadegau perthnasol a gellir cael gafael ar y rhain mewn ffynonellau eilaidd. Mewn unrhyw adroddiad y gellir ei lawr lwytho o wefan Joseph Rowntree Foundation, bydd adran ar y dechrau sy'n egluro'r ddadl yng nghyd-destun ymchwil blaenorol. Os yw'r ymchwilydd yn bositifydd, mae ymchwil blaenorol yn bwysicach byth oherwydd efallai mai pwrpas yr ymchwil newydd yw cefnogi neu wrthod yr ymchwil blaenorol.

Bydd llawer o bositifyddion yn ailadrodd gwaith ymchwil blaenorol er mwyn gweld newidiadau sydd wedi digwydd mewn cymdeithas. Yn y 1960au, gwnaed prosiect ymchwil enwog yn Abertawe gan Rosser a Harris. Roedd yr astudiaeth yn atgynhyrchiad o astudiaeth flaenorol gan Young a Willmott ar Bethnal Green yn Llundain. Yn amlwg, mae canfyddiadau astudiaeth y 1960au wedi dyddio, ac nid ydynt yn berthnasol i gymdeithas yn 2000. Mae newidiadau mewn patrymau gwaith a strwythur y teulu yn golygu bod astudiaeth Rosser a Harris yn ddogfen hanesyddol, cipolwg o amser, yn hytrach na disgrifiad manwl gywir o fywyd teuluol yn Abertawe heddiw. Mae Nicola Charles wedi ailadrodd astudiaeth wreiddiol Rosser a Harris yn ddiweddar, gan wneud rhai addasiadau gan gynnwys defnyddio dulliau ethnograffig. Gellir gweld yr adroddiad ar wefan ESRC. Ceir ynddo nifer o ganfyddiadau arwyddocaol sy'n disgrifio effaith newid cymdeithasol ar fywyd teuluol.

Rheswm arall dros wneud adolygiad llenyddiaeth yw er mwyn i'r ymchwilydd fireinio termau'r ymchwil, a phenderfynu ar set benodol o amcanion. Mae ymchwil fel arfer wedi'i gyfyngu i dri neu bedwar amcan, ac mae'r rhain fel arfer wedi'u nodi yn yr ymchwil. Mae adroddiadau ESRC yn rhoi crynodebau mewn Saesneg Clir, ac mae'r crynodebau hyn yn disgrifio cyd-destun yr ymchwil yn syml, ei amcanion, ei ddulliau, a'i ganfyddiadau. Byddai'n syniad edrych ar y crynodebau Saesneg Clir a gweld beth yw amcanion adroddiadau.

Diddorol yw nodi nad yw rhai ôl-fodernwyr a ffeministiaid yn dechrau gyda set o amcanion. Teimlant y gall hyn gyfyngu ar y canfyddiadau. Maent yn datblygu amcanion manwl wrth i'r ymchwil fynd yn ei flaen. Defnyddiodd Simon Charlesworth (2000) y dull hwn wrth astudio bywyd dosbarth gweithiol yn Rotherham. Hefyd, defnyddiodd

© CBAC / WJEC 2015

gyfweliadau distrwythur a dadansoddi disgwrs oherwydd ei fod eisiau sgwrsio'n agored â'i ymatebwyr wrth i'r ymchwil ddatblygu. Serch hynny, roedd y prosiect ymchwil yn seiliedig ar waith Pierre Bourdieu, ac yn sicr dan ddylanwad gwaith a llenyddiaeth flaenorol. Defnyddiodd Valerie Hey (1997) un o'r mathau mwyaf diddorol o ddata eilaidd. Roedd hi eisiau astudio sut roedd grwpiau cyfeillgarwch merched yn ffurfio. Defnyddiodd ddata eilaidd ar ffurf y llythyrau a'r nodiadau roeddent yn eu pasio i'w gilydd yn yr ystafell ddosbarth.

### Cwestiynau

1. Beth yw adolygiad llenyddiaeth?
2. Pam fod adolygiad llenyddiaeth yn bwysig?
3. Pam nad yw gwaith Rosser a Harris ar Abertawe bellach yn ddefnyddiol er mwyn deall y gymdeithas fodern?
4. A yw'n hanfodol cael set o amcanion clir ar gyfer astudiaeth?

### Allweddeiriau

- Adolygiad llenyddiaeth - edrych ar beth mae eraill wedi'i ysgrifennu cyn dechrau ar yr un testun.
- Ethnomethodoleg - ceisio deall rhesymau dros ymddygiad pobl.
- Ymchwil ethnograffig - ymchwil sy'n defnyddio ethnomethodoleg.

## Sut mae cymdeithasegwyr yn dewis dull?

### Bwledi

- Mae cymdeithasegwyr positifiaeth yn defnyddio dulliau sy'n creu data rhifyddol.
- Mae cymdeithasegwyr deongliadaeth yn ceisio adnabod ystyr a chael dealltwriaeth.
- Mae cymdeithasegwyr realaeth yn cyfuno dulliau, sef lluosogrwydd methodolegol.
- Mae 'Making of a Moonie' gan Barker yn enghraifft enwog o luosogrwydd methodolegol.

### Testun

Yn amlwg, mae'r penderfyniad pwysig nesaf sydd angen ei wneud yn ymwneud â natur y data. Mae hyn yn ymwneud â phwrpas yr ymchwil. Ar ôl penderfynu ar ddynesiad, gellir dewis o blith amryw o ddulliau i'w defnyddio. Mae gan bob dull set o ddadleuon damcaniaethol sy'n cyfeirio at cryfderau a gwendidau a materion ymarferol a moesegol y dull. Mae nifer o resymau pan nad yw'n ddigon ysgrifennu rhestr o gwestiynau a'u gofyn i bobl. Un rheswm yw'r ffaith fod cynllun y cwestiynau yn gallu effeithio ar ganlyniadau'r ymchwil.

Bydd positifyddion yn casglu data meintiol, a bydd Rhyngweithwyr yn casglu data ansoddol. Tuedda positifyddion i ddefnyddio arolygon ar raddfa fawr, holiaduron gyda chwestiynau caeedig gydag atebion yn cael eu darparu a'r ymatebwyr yn dewis yr ateb sy'n gweddu orau i'w barn. Mae cwestiynau caeedig weithiau'n defnyddio graddfa Likert. Yma, gall yr ymatebydd ddewis lefel ymateb e.e. cytuno'n gryf, ddim yn gwybod, anghytuno, anghytuno'n gryf. Bydd gan bob ateb posibl sgôr rhifyddol y gellir ei newid yn hawdd i ddata ystadegol. Bydd deongliadwyr yn defnyddio holiaduron penagored, cyfweliadau, arsylliadau, a grwpiau ffocws.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Sgiliau ymchwil)

Defnyddia rai cymdeithasegwyr ddulliau lluosog i gydbwyso un set o ganfyddiadau yn erbyn un arall. Triongli yw hyn. Mae realyddion yn defnyddio dulliau lluosog am resymau damcaniaethol. Byddant yn ceisio cyfuno dulliau neu greu prosiectau ymchwil sydd ag amrywiaeth o lefelau er mwyn cael ymchwil sy'n ddibynadwy iawn, ond hefyd yn ddilys o safbwynt dealltwriaeth ac ystyr. Gelwir y cyfuniad o ddulliau yn lluosogrwydd methodolegol. Mae hyn yn nodwedd gyffredin iawn mewn ymchwil cymdeithasegol yn ddiweddar.

Mae 'Making of a Moonie' (1984) gan Eileen Barker yn enghraifft nodedig o luosogrwydd methodoleg. Ymchwil i gwlt crefyddol oedd hwn, oedd yn destun pryder mawr yn yr 1980au. Mae'r credoau yn wahanol ond gwrthodwyd Moonies gan y rhan fwyaf o bobl yn yr 1970au a'r 1980au, yn yr un modd â mae pobl yn amau seientoleg yn 2000. Ar y cychwyn, roedd Barker yn agored iawn gyda'r Moonies am ei hymchwil. Bu'n eu harsylwi, gan gymryd rhan yn eu gweithgareddau. Yn ddiweddarach, ar ôl iddynt ddechrau ymddiried ynddi, roedd hi'n gallu cynnal cyfweliadau a rhannu holiaduron. Mae'r astudiaeth hon yn un glasurol am nifer o resymau. Yn sicr, ansawdd y fethodoleg ymchwil yw un o'r rhesymau pwysicaf.

### Cwestiynau

1. Pam fod positifyddion yn ffafrio cwestiynau caeedig?
2. Pam fod deongliadwyr yn ffafrio cwestiynau penagored?
3. Beth yw graddfa Likert?
4. Beth yw mantais lluosogrwydd methodolegol?

### Allweddeiriau

- Deongliadwyr - ceisio deall sut mae pobl yn deall y byd cymdeithasol .
- Rhyngweithwyr - ceisio deall sut mae pobl yn creu dealltwriaeth gytûn.
- Ethnomethodoleg - ceisio deall rhesymau pobl am eu hymddygiad.
- Arsylliadau - gwylio sut mae pobl yn ymddwyn.
- Holiaduron - rhestr o gwestiynau ar ddarn o bapur.
- Cwestiynau agored - gall ymatebwr ysgrifennu atebion manwl.
- Cyfweliadau - siarad â phobl.
- Ymatebydd - rhywun sy'n ateb cwestiynau i gymdeithasegwr.
- Graddfa Likert - ffordd o fesur cryfder teimlad tu ôl i ymateb.

## Sut mae cymdeithasegwyr yn dewis pwy i astudio?

### Bwledi

- Mae angen i gymdeithasegwyr ddiffinio eu poblogaeth.
- Bydd angen i gymdeithasegwyr gael mynediad at y boblogaeth.
- Caiff positifyddion lai o drafferth yn cael mynediad at boblogaeth.
- Byddant yn defnyddio technegau samplu systematig i ddewis sampl.
- Efallai bydd ethnograffwyr yn gweld angen porthor i gael mynediad at boblogaeth.

### Testun

© CBAC / WJEC 2015

Ar ôl penderfynu ar destun, mae'n bwysig diffinio pwy fydd dan sylw yn yr astudiaeth. Weithiau, mae hyn yn gofyn i'r cymdeithasegwr fod yr un mor fanwl ag y mae angen bod gyda thermau'r astudiaeth. Er enghraifft, gallai 'pobl ifanc' fod rhwng 15-18 neu 21-30 oed. Yn amlwg, byddai angen i'r cymdeithasegwyr fod yn fanwl oherwydd bydd nodweddion plant yn eu harddegau hwyr yn wahanol i oedolion ifanc. Poblogaeth yw'r enw ar y grŵp o bobl mae'r cymdeithasegwyr yn edrych arnynt. Mae'n derm cyffredinol sy'n disgrifio nodweddion y grŵp cyfan o bobl. Dewisir rhai o'u plith i'w hastudio'n fanylach.

Weithiau, bydd angen cymorth ar y cymdeithasegwyr i gysylltu â'r bobl mae eisiau eu hastudio. Cael mynediad at boblogaeth yw'r enw ar hyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn gofyn am ychydig o ddychymyg. I bositifyddion, mae hyn fel arfer yn golygu ysgrifennu llythyrau neu ffonio pobl i ofyn a ydynt eisiau bod yn rhan o'r astudiaeth neu beidio. Gall hefyd olygu anfon nifer fawr o holiaduron gydag amlenni parod. Weithiau, cynigir cymhelliad i bobl ymateb. Mae cwmnïau masnachol yn aml yn cynnig talebau neu raffl. Mae holiaduron yn cael eu rhoi ar y Rhyngrwyd i bobl ymateb iddynt. Mae amheuaeth pa mor ddibynadwy yw hyn oherwydd does dim ffordd i'r ymchwilydd wirio pa mor wir yw'r atebion a roddir. Ar ôl dewis poblogaeth, dewisir unigolion o fewn y boblogaeth honno i gynrychioli'r boblogaeth gyfan. Samplu yw enw'r broses hon o ddewis unigolion. O safbwynt data meintiol, ystyrir ei bod yn bwysig iawn bod y sampl yn gynrychioladol o'r gymuned gyfan. Fel arall, bydd rhyw fath o duedd yn y canlyniadau.

Defnyddir samplau cyfleus neu belen eira pan fydd gwybodaeth am y boblogaeth yn wael, neu pan fydd hi'n anodd cael mynediad at y boblogaeth. O ran natur, nid yw'r samplau hyn yn gynrychioladol a thueddant i fod yn nodweddiadol o ymchwil Rhyngweithiol. Gofynnir i ymatebwyr ddod o hyd i bobl sydd â nodweddion penodol er mwyn i'r ymchwilydd ofyn cwestiynau. Mae ffyrdd mathemategol o ddewis sampl hefyd. Mae samplu ar hap fel system loteri, ble rhoddir enwau pobl mewn het, a chynnal arolwg ohonynt wedyn. Mae samplu systematig yn golygu dewis enwau o restr gan ddefnyddio rhyw fath o system (fesul deg enw). Mae samplu haenedig yn golygu dewis grwpiau ac wedyn dewis enwau o'u plith. Samplu cwota yw pan ddewisir pobl oherwydd bod ganddynt nodweddion penodol.

Ar y llaw arall, mae angen i ddeongliadwyr ac ethnograffwyr fynd yn agos iawn at eu poblogaethau. Cânt anawsterau mawr yn ceisio cael mynediad at bobl. Mae ethnograffeg yn gyffredin iawn mewn ysgolion. Fe'i gwneir yn aml gan bobl wedi eu cyflogi fel athrawon neu mewn cymunedau gan bobl sy'n rhan o'r gymuned honno. Gweithiodd yr ethnograffwr Shane Blackman (1997) mewn uned ddigartref yn Brighton ble allai siarad â phobl ifanc ddigartref a di-waith. Gwelai ei hun fel ymchwilydd 'gweithredol' felly roedd eisiau gwneud i bethau ddigwydd a chael ymwneud â'r bobl. Felly, er mwyn i'r grŵp astudio ymddiried ynddo, bu'n yfed a chwarae pêl-droed gyda hwy, eu cynghori, a bod yn ffrind iddynt. Yn fwy diweddar, cyhoeddodd Sudhir Venkatesh (2008) astudiaeth ble mae'n disgrifio ei brofiadau mewn gang yn Chicago. Fe'i rhybuddiwyd i beidio â gwneud y prosiect er lles ei ddiogelwch ei hun.

Gall samplau fod yn gyfyngedig i ychydig o unigolion. Yn aml, bydd ethnograffwyr yn defnyddio rhywun arwyddocaol yn y gymuned i fod yn borthor. Mae gan y porthor eisoes fynediad at y grŵp, ac mae'n gweithredu fel cyfryngwr rhwng y grŵp astudio a'r ymchwilydd, yn egluro pethau ac yn hwyluso'r ymchwil ei hun. Er enghraifft, defnyddiodd Alexander (2000) weithiwr cymdeithasol o'r enw Yasmin i gael mynediad at gangiau

© CBAC / WJEC 2015

Asiaidd. Daeth Yasmin yn ffrind ac aeth hi ac Alexander ar wyliau efo'i gilydd yn India. Dysgodd Alexander am ddiwylliant Asia gan Yasmin.

### Cwestiynau

1. Beth yw poblogaeth?
2. Pam ei fod yn bwysig i bositifyddion bod samplau yn gynrychioladol?
3. Pam fod ymchwil ethnograffig yn aml yn llai cynrychioladol?
4. Beth yw rôl y porthor mewn ymchwil ethnograffig?

### Allweddeiriau

- Poblogaeth - y bobl sydd o ddiddordeb i'r cymdeithasegwr.
- Mynediad - cysylltu â'r boblogaeth.
- Ymatebydd - person sy'n ateb cwestiynau.
- Porthor - helpu ethnograffwyr i gysylltu â phoblogaeth.
- Sampl - grŵp bach sy'n gynrychioladol o'r holl boblogaeth astudio.

## Sut mae cymdeithasegwyr yn profi ansawdd eu cynllun astudiaeth?

### Bwledi

- Bydd cymdeithasegwyr yn aml yn creu prosiect ar raddfa fach cyn bod eu cynllun ymchwil yn derfynol, a chyn ei weithredu. Astudiaeth beilot yw hyn.
- Rhaid i bwyllgor moeseg gymeradwyo llawer o'r cynllun ymchwil cyn y gellir ei gynnal yn y maes.
- Gall cymdeithasegwyr nawr fynd ati i gynnal yr astudiaeth. Mae angen iddynt wirio eu dulliau wrth iddynt gynnal yr ymchwil.
- Unwaith byddant wedi cynnal yr ymchwil, bydd cymdeithasegwyr yn ysgrifennu adroddiad ymchwil.
- Cyhoeddir adroddiad o'r ymchwil mewn llyfr, ar lein neu mewn cylchgrawn.
- Bydd pobl yn darllen yr adroddiad ac yn gwneud sylwadau ar ei gryfderau a'i wendidau. Beirniadaeth yw hyn.
- Gellir cyhoeddi canfyddiadau'r ymchwil mewn papurau newydd a chylchgronau.

### Testun

Unwaith mae'r astudiaeth wedi dechrau dod at ei gilydd, bydd angen i'r ymchwilydd brofi fersiwn o'r prosiect ar raddfa fach, er mwyn sicrhau y gwnaiff weithio. Gwneir hyn yn amlach mewn ymchwil positifiaeth yn hytrach nag ymchwil rhyngweithedd. Mae'r ymchwilydd yn profi'r cwestiynau gyda sampl arbrofol i sicrhau y cynhyrchir y data y chwilir amdano. Gelwir rhediad sych o'r astudiaeth raddfa lawn yn astudiaeth beilot neu'n astudiaeth dichonolrwydd. Treialwyd Cyfrifiad 2001 yn 1997 yn gyntaf, ar sampl o 100,000 o gartrefi, i weld sut fyddai'r cyhoedd yn ymateb i'r ymchwil, yn ogystal â gweld pa mor ddefnyddiol oedd yr holiadur ei hun.

Hefyd, bydd prifysgolion a sefydliadau astudio academaidd yn gofyn am gymeradwyaeth moeseg gan y cymdeithasegwr i sicrhau na all y gwaith amharu ar neb. Mae llawer o astudiaethau cynnar mewn cymdeithaseg a seicoleg yn dal i fod yn ddadleuol hyd heddiw oherwydd y posibilrwydd i boblogaeth yr astudiaeth gael niwed, neu i'r cymdeithasegwyr gael niwed. Wrth gynnal yr ymchwil, bydd yr ymchwilydd yn gwneud nodiadau ar yr hyn

© CBAC / WJEC 2015

sydd i'w ddarganfod, ond hefyd sut mae'r broses ymchwil ei hun yn effeithio ar y canlyniadau terfynol. Weithiau, rhaid i gymdeithasegwyr ail arfarnu eu cynllun a dechrau o'r newydd oherwydd rhesymau sydd tu hwnt i'w rheolaeth. Er enghraifft, yn astudiaeth Hey o gyfeillgarwch rhwng merched, roedd merched iau yn gwrthod cymryd rhan, felly roedd rhaid i Hey astudio grŵp cyfoed oedd yn hŷn na'r grŵp yr oedd wedi bwriadu'i astudio yn wreiddiol.

Bydd y data a gynhyrchir mewn gwaith ymchwil yn cael ei ddadansoddi. Bydd y dadansoddiad hwn yn rhan bwysig o'r adroddiad ysgrifenedig terfynol. Coladu yw enw'r broses o brosesu'r data. Gelwir canlyniadau ymchwil cynradd yn ddata crai gan nad ydynt wedi'u prosesu. Gellir prosesu ymchwil positifiaeth gyda rhaglenni dadansoddi ystadegol cyfrifiadurol. Gellir prosesu ymchwil rhyngweithiol ar raglenni cyfrifiadurol hefyd, ond bydd yr ymchwilydd neu'r tîm ymchwil yn aml yn ei ddadansoddi i edrych am themâu yn y deunydd a gesglir.

Mae'r adroddiad ysgrifenedig yn rhan bwysig o'r broses arfarnu oherwydd mai ar y ffurf hon bydd y cyhoedd yn gweld ac yn beirniadu'r ymchwil. Sylwch y gall beirniadaeth yn y byd academaidd fod yn bositif yn ogystal â negatif. Mewn iaith bob dydd, mae pobl yn meddwl bod beirniadaeth yn ddrwg. Adeg yma y bydd yr ymchwil yn destun dadl gyhoeddus. Mae mudiadau megis JRF neu Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant yn cyhoeddi eu hastudiaethau i'r wasg er mwyn i newyddiadurwyr ysgrifennu straeon amdanynt.

### Cwestiynau

1. Beth yw astudiaeth beilot?
2. Pam fod cymdeithasegwyr yn gwneud astudiaethau peilot?
3. Beth yw pwyllgor moeseg?
4. Pa broblemau all godi i gymdeithasegwyr sy'n coladu data?

### Allweddeiriau

- Beirniadaeth - rhoi sylwadau ar gryfderau a gwendidau rhywbeth.
- Astudiaeth beilot - prawf o'r cynllun ymchwil ar raddfa fach.
- Cymeradwyaeth moeseg - caniatâd i gynnal ymchwil oherwydd na fydd yn niweidio neb, neu oherwydd y bydd manteision yr ymchwil yn gorbwyso'r difrod allai wneud.
- Coladu - prosesu data crai i gael patrymau a thueddiadau.
- Data crai - data heb ei brosesu.
- Dichonadwy - rhywbeth sy'n realistig ac yn ymarferol i'w wneud.
- Peilot - rhywbeth sy'n arwain y ffordd, neu sy'n dod cyn rhywbeth mwy.

## Pam fod moeseg mor bwysig mewn ymchwil cymdeithasegol?

### Beth yw moeseg?

### Bwledi

- Yn y gorffennol, roedd gwyddonwyr yn arbrofi ar bobl. Roedd y canlyniadau yn annerbyniol ar y cyfan.

© CBAC / WJEC 2015

- Mae pobl wedi dod yn gynyddol ymwybodol o ystyriaethau moesegol.
- Mae gan gymdeithasegwyr godau moeseg i amddiffyn testunau ymchwil, yn ogystal â'r cymdeithasegwyr sy'n gwneud yr ymchwil.

## Testun

Yn nyddiau cynnar gwyddoniaeth, roedd teimlad mewn llawer o bynciau bod 'y diben yn cyfiawnhau'r modd.' Teimlid nad oedd fawr o bwys bod pobl yn cael eu brifo neu'u niweidio yn y broses o wella gwybodaeth. Arweiniodd hyn at nifer o achosion ble roedd gwyddoniaeth yn cyfiawnhau ymddygiad camdriniol. Digwyddodd yng ngwersylloedd crynhoi yn yr Almaen, ble gwnaed arbrofion brwnt ar Iddewon. Cyfiawnhawyd hyn oherwydd bod yr arbrofion yn fodd i wella gwybodaeth. Roedd ychydig o'r wybodaeth a gafwyd yn ddefnyddiol, ond dadleuwyd a ddylai pobl ei defnyddio neu beidio o ystyried sut y cafwyd yr wybodaeth. Bu sawl sgandal enwog ym myd gwyddoniaeth: profi effeithiau ymbelydredd o fomiau atom ar filwyr diamddiffyn o Brydain yn y 1950au, arbrofion Tuskegee yn America ble roedd dynion Affricanaidd-Americanaidd yn datblygu syffilis heb ei drin, hyd yn oed pan roedd triniaeth hollol dderbyniol.

Stori David Reimer yw un o'r straeon tristaf o gamddefnyddio gwyddoniaeth i ddeall effeithiau cymdeithasol. Mae sôn mawr amdano mewn llenyddiaeth. Roedd David yn un o efeilliaid. Cafodd ei bidyn ei ddifrodi mewn llawdriniaeth pan roedd yn blentyn. Perswadiwyd ei rieni i adael i'r doctoriaid dynnu ei organ cenhedlu, a magwyd David fel merch a'i galw yn Brenda. Ni fu David erioed yn hapus fel Brenda, a throdd yn ôl yn ddyn pan roedd yn oedolyn, gan ladd ei hun yn y pendraw yn 2004. Dywedodd fod ei orffennol yn 'fath o artaith' na allai ddod drosto. Cyfiawnhawyd hyn oherwydd y byddai'n profi unwaith ac am byth yr ateb i'r ddadl natur/magwraeth. Ni phrofodd dim, ond lladdodd David. Edrychwch am hanes David ar y Rhyngrwyd.

Yn amlwg, mae'r achosion a ddisgrifir yn eithafol, ond mae'r materion yn amlwg. Mae canlyniad i bob gweithred. Os yw cymdeithasegwyr yn ymddwyn fel petaent ddim yn ymwybodol o hyn, gallant wneud niwed difrifol i'r bobl maent yn eu hastudio. O ganlyniad i lawer o achosion tebyg, mae'r rhan fwyaf o gymdeithasau cymdeithasegol wedi llunio codau moeseg manwl sy'n gosod rheolau ar gyfer astudiaethau y dylai pob ymchwilydd eu dilyn. Nid yw wastad yn hawdd cymhwyso codau moeseg ym mhob sefyllfa. Fel rheol gyffredinol ar gyfer ymchwil gan fyfyriwr, os oes cryn amheuaeth, mae'n well peidio â gwneud yr astudiaeth.

## Cwestiynau

1. Sut oedd rhai gwyddonwyr yn cyfiawnhau eu hymddygiad camdriniol?
2. Pa faterion moesegol a godir gan achos David Reimer?
3. A ellir cyfiawnhau trin eraill yn greulon neu'n anarferol oherwydd bod hyn yn symud gwyddoniaeth yn ei blaen?

## Allweddeiriau

- Moeseg- astudiaeth o ymddygiad foesol.
- Cam-drin - ymddygiad sy'n rheoli neu'n dychryn rhywun arall.
- Codau Moeseg - rheolau ar gyfer ymddygiad proffesiynol derbyniol.
- Côd moesegol - rheolau ar gyfer ymddygiad proffesiynol derbyniol.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Sgiliau ymchwil)

## Pa ddulliau cymdeithasegol sy'n debygol o godi materion moesegol difrifol?

### Bwledi

- Mae cymdeithaseg yn delio gyda thestunau peryglus yn gymdeithasol ac yn emosiynol.
- Efallai bod rhai astudiaethau yn fwy personol nag eraill.
- Mae astudiaethau ethnomethodolegol yn gofyn i'r ymchwilydd guddio pwrpas yr astudiaeth oddi wrth y rheiny sy'n cael eu hastudio.
- Gall gwerth y canfyddiadau weithiau gyfiawnhau twyll.
- Dylai'r ymchwilydd fod yn ymwybodol o effaith y twyll ar y person a astudir.

### Testun

Nid oes gan bob dull cymdeithasegol yr un elfen o risg moesegol, ond mae ychydig o risg ym mhob un oherwydd natur y testun dan sylw. Wrth ofyn cwestiynau syml ond personol am berthynas rhywun ag eraill, codir pob math o beryglon na fydd yr ymchwilydd wedi gallu eu rhagweld; materion heb eu datrys, profedigaethau, cam-drin teuluol neu ymyrryd mewn materion sy'n rhy bersonol i'w rhannu.

Twyll yw un o'r materion moesegol pwysicaf. A yw'n iawn peidio â dweud wrth bobl eu bod yn cael eu hastudio? Os bydd pobl yn ymateb i ddulliau meintiol, maent yn gwbl ymwybodol eu bod yn destun astudiaeth a gallant ddewis peidio ag ateb cwestiynau neu gymryd rhan gan wybod yn union beth maent yn ei wneud. Gelwir hyn yn ganiatâd gwybodus. Mae gan ymatebwyr yr hawl i wybod beth maent yn ei wneud, ac mae ganddynt hawl i beidio â datgelu gwybodaeth os ydynt yn dewis gwneud felly. Nid yw hyn wastad yn bosibl gyda chymdeithaseg ansoddol. Efallai na fydd pobl yn ymddwyn yn naturiol o wybod eu bod yn cael eu gwylio. Nod y cymdeithasegwr yw gweld sut mae pobl yn ymddwyn mewn amgylchiadau arferol. Felly, efallai bod elfen o dwyll mewn dulliau ansoddol weithiau. Efallai nad yw pobl yn ymwybodol eu bod yn destun astudiaeth, ac efallai na fyddent eisiau i eraill gael gwybod am eu hymddygiad na'u credoau personol.

Felly mae twyll yn broblem i unrhyw un sy'n defnyddio ethnomethodoleg. Os yw ymchwilwyr yn datgelu eu bod yn arsylwi, ni fydd pobl yn rhoi caniatâd neu byddant yn ymddwyn yn annaturiol. Mae hyn yn arwyddocaol os yw'r astudiaeth yn golygu edrych ar ymddygiad risg megis cymryd cyffuriau, troseddu, neu wyriad rhywiol.
Gwnaed un o'r astudiaethau mwyaf twyllodrus gan Laud Humphries (1970) ar ymddygiad dynion yn chwilio am weithgarwch cyfunrywiol byr mewn toiledau cyhoeddus. Ceir disgrifiad da o'r astudiaeth hon ar y Rhyngrwyd. Roedd cyfunrhywiaeth yn anghyfreithlon yn St Louis ar y pryd, ac ni fyddai dynion wedi caniatáu i ymchwilydd weld eu hymddygiad. Er mwyn cael ei wybodaeth, roedd Humphries yn dweud celwydd yn gyson am ei bwrpas a'i hunaniaeth wrth ei grŵp astudio. Mae llawer o faterion moesegol yn codi o'r astudiaeth hon, ac mae'n astudiaeth glasurol o safbwynt y dadlau sydd wedi bod yn ei chylch.

Roedd rhaglen deledu Mark Daly (2003), 'The Secret Policeman', yn astudiaeth newyddiadurol enwog. Ymunodd Daly â'r heddlu gan ffilmio, yn y cudd, tystiolaeth o ymddygiad hiliol ymysg ei gydweithwyr. Daeth yn gyfaill i rai ohonynt. Collodd y gweithwyr hyn eu swyddi yn yr heddlu pan ddangoswyd y rhaglen deledu. Camarweiniodd Daly y gweithwyr hyn am ei wleidyddiaeth a'i deimladau.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Sgiliau ymchwil)

## Cwestiynau

1. Pam bod gan bob math o gymdeithaseg elfen o risg moesegol?
2. Pa ddulliau cymdeithasegol sydd â'r risg moesegol mwyaf?
3. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cymdeithaseg a newyddiaduraeth?
4. Rhestrwch y problemau moesegol sy'n gysylltiedig ag arsylwi.

## Allweddeiriau

- Twyll - camarwain pobl yn fwriadol
- Ethnomethodoleg - ceisio deall rhesymau am ymddygiad pobl.
- Ymchwil ethnograffig - ymchwil gan ddefnyddio ethnomethodoleg.
- Arsylwi - dull sy'n golygu gwylio pobl yn eu hamgylchedd arferol i weld sut maent yn ymddwyn.
- Newyddiaduraeth - ysgrifennu neu adrodd gyda'r bwriad o ddifyrru neu ysgogi'r darllenydd neu'r gwyliwr.

## Pam fod cyfrinachedd yn bwysig?

### Bwledi

- Gall ymchwil cymdeithasegol fusnesu ym mywydau personol pobl.
- Mae pob cymdeithasegwr yn amddiffyn enwau a manylion personol y bobl maent yn gweithio gyda hwy.
- Gall pobl sy'n teimlo bod rheolau cyfrinachedd yn eu hamddiffyn ddatgelu gwybodaeth ddefnyddiol.
- Wrth gadw at y rheol cyfrinachedd, gall cymdeithasegwyr eu hunain fod yn euog o dorri rheolau moesegol eraill.
- Hyd yn oed os yw enwau wedi'u cuddio, dylai cymdeithasegwyr gymryd gofal i amddiffyn pobl.

### Testun

Mae cyfrinachedd yn golygu bod rhaid i'r cymdeithasegwr amddiffyn hunaniaeth y bobl mewn astudiaeth. Mae cymdeithasegwyr yn mynnu bod ymatebwyr yn anhysbys. Gall ymchwil cymdeithasegol fusnesu neu ymyrryd ym mywydau pobl a bod yn bersonol iawn. Ceir yr enghreifftiau mwyaf eithafol mewn ymchwil ffeministaidd. Mae ffeministiaid, er enghraifft, yn ymchwilio i destunau megis aflonyddu rhywiol a materion cyfreithiol trais rhywiol. Gwnaed un astudiaeth hynod herfeiddiol gan Liz Kelly, ymchwilydd ffeministaidd (1990) ar drais lesbiaidd yn erbyn merched eraill. Er hynny, mae astudiaeth sy'n llai 'busneslyd' yn anhysbys oherwydd efallai na fyddai pobl yn dweud unrhyw beth preifat wrth ymchwilwyr oherwydd bod perygl i hyn gael ei wneud yn gyhoeddus, neu i rywun olrhain hyn yn ôl iddynt.

Cyhoeddodd Dick Hobbs (1995) ymchwil i drosedd proffesiynol. Cyfwelwyd troseddwyr a rhoddwyd rhyddid iddynt siarad dros eu hunain. Bu rhai gyfaddef i drais, delio cyffuriau, mewnforio pornograffi, lladrata ac amrywiaeth o gynllwyniau i dwyllo. Yn amlwg, ni fyddai'r troseddwyr wedi trafod eu hymddygiad, eu rhesymau na'u diwylliant gyda Hobbs pe baent wedi teimlo bod perygl iddynt gael eu harestio, neu i'r wybodaeth gael ei throsglwyddo. Roedd Hobbs yn gallu dod i gasgliadau defnyddiol wrth addo i'r troseddwyr y byddai eu gwybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Er hynny, wrth i Hobbs gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol, roedd hyn yn rhoi ei astudiaeth mewn lle

© CBAC / WJEC 2015

peryglus arall yn foesegol. Os ydi rhywun yn ymwybodol bod trosedd wedi'i chyflawni, ac yn peidio â rhoi gwybod i'r heddlu, yna mae'r person hwnnw yn euog o fod yn drydydd person yn y drosedd.

Bydd cymdeithasegwyr weithiau'n barnu pobl neu'n sôn am eu hymddygiad mewn ffordd angharedig. Mae arsylliadau, yn arbennig, yn golygu rhywfaint o ddehongli digwyddiadau gan yr ymchwilydd. Arsylwodd Tony Sewell, (1997) athrawon mewn ysgolion yn Llundain, gan ddweud fod y mwyafrif ohonynt yn hiliol, gan gynnwys athrawon Du ac Asiaidd. Yn ei hastudiaeth o ysgol ble'r oedd hi'n gweithio, o'r enw St Hilda's, mae Heidi Safia Mirza (1992) yn gwneud sylwadau personol am'Mr Madden', y Pennaeth. Ffug enw yw hwn, ond mae'n dweud wrthym sut oedd hi'n teimlo tuag at y Pennaeth hwn. Ni fyddai'n dasg anodd i rywun ddatgelu pwy yw'r bobl hyn.

Ni ddatgelir enwau'r athrawon hyn yn yr astudiaeth, ond byddant hwy eu hunain, ac eraill, yn gallu adnabod pwy ydynt. Y mater i'r ymatebwyr yma yw nad ydynt yn gallu ateb y cyhuddiadau. Mae hyn yn rhoi dimensiwn arall i'r ddadl. Mae gan y rheol cyfrinachedd oblygiadau i ddibynadwyedd yr ymchwil. Efallai nad oes unrhyw un sy'n gallu cefnogi dehongliadau'r cymdeithasegwyr, neu eu hanesion o'r hyn a ddigwyddodd. Dengys hyn pa mor bwysig yw hi i gymdeithasegwyr fod yn dystion proffesiynol a dibynadwy i ddigwyddiadau.

### Cwestiynau

1. Pam fod cymdeithasegwyr yn mynnu bod ymatebwyr yn anhysbys?
2. Pam fod y rheol cyfrinachedd yn bwysig i Hobbs?
3. Beth yw anfanteision cyfrinachedd ymatebwyr i gymdeithasegwyr?
4.

### Allweddeiriau

- Cyfrinachedd - cymdeithasegwyr ddim yn datgelu enwau na manylion personol unigolion.
- Anhysbys - cuddio enw a hunaniaeth person.
- Ffugenw - enw ffug neu enw arall.
- Dibynadwyedd - pa mor ddibynadwy yw ymchwil a pha mor aml y gellir ei ailadrodd.
- Dilysrwydd - i ba raddau y gall tystiolaeth yr ymchwil gefnogi canfyddiadau'r gwaith ymchwil.

## All cymdeithasegwyr roi eu hunain mewn perygl wrth ymchwilio?

### Bwledi

- Mae angen i gymdeithasegwyr fod yn ymwybodol o effeithiau emosiynol rhai mathau o ymchwil arnynt hwy eu hunain.
- Mae angen i gymdeithasegwyr fod yn ymwybodol os yw pobl eraill neu'r sefyllfaoedd maent ynddynt yn eu rhoi mewn perygl corfforol.
- Mae rhai cymdeithasegwyr wedi'u llofruddio oherwydd eu gwaith.

### Testun

© CBAC / WJEC 2015

Yn amlwg, mae dau fath o berygl yn wynebu cymdeithasegwyr. Y cyntaf yw'r perygl emosiynol. Yn ei hastudiaeth o'r Moonies, roedd Eileen Barker yn ymwybodol o'r perygl o glosio gormod a throi at y grefydd roedd hi'n ei hastudio. Gall cymdeithasegwyr sy'n astudio testunau sensitif neu emosiynol weld eu bod yn uniaethu gormod â'u pobl, a chynhyrfu'n emosiynol eu hunain. Dadansoddwyd hyn gan Dickson-Swift et al (2008) wrth astudio ymchwilwyr gofal iechyd. Argymhellodd awduron yr astudiaeth y dylai'r ymchwilwyr adnabod y ffactorau risg emosiynol i'w hunain wrth gynnal yr astudiaeth. Eto, mae hyn yn fater moesegol sy'n fwy perthnasol i ymchwil ansoddol nag ymchwil empirig. Mae ethnomethodolegwyr yn fwy tebygol o weithio ar raddfa fach, ac o weithio'n agosach gyda'r ymatebwyr o gymharu ag ymchwilwyr empirig.

Roedd llawer o ymchwil ethnomethodolegol cynnar yn edrych ar gangiau ar strydoedd ac isddiwylliannau troseddol. Astudiodd Whyte (1955) gang Americanaidd ac astudiodd Becker (1966, 1970) dramgwyddwyr a phobl oedd yn cymryd cyffuriau yng Nghaliffornia. Roeddent yn rhoi eu hunain mewn perygl wrth fod gyda'u grwpiau astudio. Astudiaeth James Patrick (1973) o gangiau ar strydoedd Glasgow oedd un o'r astudiaethau enwocaf. Cyhoeddwyd hwn yn ddienw i ddiogelu'r awdur. Mae hyn yn creu cyfyng-gyngor moesegol. Os ydynt yn cymryd rhan yn y drosedd, maent mewn perygl o gael eu dal a'u cosbi. Os ydynt yn gwrthod cymryd rhan, bydd hyn yn difetha'r astudiaeth neu daw pawb i wybod pwy ydynt mewn gwirionedd. Roedd hyn yn broblem i Patrick a oedd yn rhan o gynllwyn i ddwyn car.

Yn fwy diweddar, astudiodd Hobbs droseddwyr proffesiynol. Roedd a wnelo rhai ohonynt â llofruddiaeth, neu fathau eraill o drais. Mae rhai cymdeithasegwyr hyd yn oed wedi'u llofruddio wrth gynnal ymchwil sensitif. Llofruddiwyd Myrna Mack Chang yn ddidrugaredd, o bosib gan filwyr Guatemala wrth astudio ffoaduriaid yn y wlad honno. Mae'n amlwg bod sensitifrwydd gwleidyddol ei hymchwil yn fygythiad i'r awdurdodau a orchmynnodd i'w lladd.

### Cwestiynau

1. Ym mha ffyrdd all cymdeithasegwr gael niwed?
2. A yw unrhyw ymchwil werth y perygl corfforol?
3. Pa ymchwil fyddai'n werth perygl corfforol difrifol?

### Allweddeiriau

- Risg - rhoi eich hun mewn sefyllfa ble mae perygl o gael niwed, naill ai'n emosiynol neu'n gorfforol.

## Beth yw caniatâd gwybodus llawn?

### Bwledi

- Dylai pobl roi caniatâd gwybodus llawn wrth gymryd rhan mewn ymchwil.
- Mae rhai pobl yn fregus ac ni allant roi caniatâd gwybodus llawn.
- Dylai'r cymdeithasegwr ofyn am ganiatâd gwybodus gan rywun cyfrifol arall.
- Mewn ymchwil cuddiedig, dylid gofyn am ganiatâd ar ddiwedd yr ymchwil.

### Testun

© CBAC / WJEC 2015

Gall gwaith ymchwil gyffroi rhai aelodau, yn enwedig os ydynt yn cael eu camarwain i feddwl y gall eu bywyd newid, neu os gwneir iddynt boeni mewn rhyw ffordd. Yn arbrofion sioc drydanol enwog Milgram, roedd y bobl yn darganfod rhywbeth am eu hunain nad oeddent yn dewis gwybod. Mewn egwyddor, dylai unrhyw un sy'n debygol o fod yn rhan o arolwg cymdeithasol neu brosiect ymchwil roi caniatâd gwybodus llawn. Dylai'r ymchwilydd egluro pwrpas yr astudiaeth, ble caiff ei ddefnyddio a pha ddulliau a ddefnyddir i gasglu data. Gall y cyfranogwyr ddewis a ydynt eisiau parhau â'r astudiaeth neu beidio.

Ddim pawb sy'n gallu gwneud y fath benderfyniad dros eu hunain. Efallai nad yw rhai pobl yn sylweddoli beth maent yn cytuno i'w wneud oherwydd anabledd meddyliol, oed (ifanc a hen), iechyd meddwl neu fathau eraill o anableddau. A yw hyn yn golygu na ddylent gael eu hastudio na chael llais? Mewn sefyllfaoedd fel hyn, disgwylir i gymdeithasegwyr ddefnyddio eu sgiliau proffesiynol i gael caniatâd y cyfranogwyr wrth egluro'r ymchwil mewn ffordd syml, a chael caniatâd gofalydd neu riant hefyd. Dylai ymchwilwyr sy'n astudio plant sy'n iau nag 16 oed fod yn ymwybodol o faterion amddiffyn plant. Rhaid i ymchwilwyr fod yn ofalus iawn gyda phlant. Weithiau, gallant feithrin perthynas emosiynol gydag oedolion hefyd.

Mae caniatâd gwybodus felly yn creu problemau neilltuol i ymchwilwyr sy'n gweithio ar astudiaethau cuddiedig. Mae canllawiau moesegol sydd wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar yn awgrymu y dylai ymchwilwyr roi'r cyfle i'r bobl sy'n cymryd rhan mewn ymchwil gael sesiwn dibriffio, a'r cyfle i dynnu'r caniatâd yn ôl ar ddiwedd yr ymchwil.

### Cwestiynau

1. Beth yw caniatâd gwybodus llawn?
2. A oes modd cael caniatâd gwybodus llawn?
3. Os oes unrhyw beryglon moesegol yn ymwneud ag astudio pobl fregus, a yw hyn yn golygu na ddylid eu hastudio?

### Allweddeiriau

- Cyfranogwr - rhywun sy'n cymryd rhan mewn prosiect ymchwil.
- Caniatâd gwybodus llawn - dylai cyfranogwyr mewn ymchwil ddeall i beth maent yn cytuno wrth ddweud y gwnânt gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil.
- Pobl fregus - rheiny sydd mewn mwy o berygl nag eraill.
- Ymchwil cuddiedig - ymchwil cudd.

# Pa dechnegau samplu a ddefnyddir gan gymdeithasegwyr?

## Pam fod cynrychioldeb yn bwysig mewn cymdeithaseg?

### Bwledi

- Nid yw'n ymarferol astudio pawb sy'n perthyn i gategori mae cymdeithasegwyr eisiau ei astudio.
- Mae cymdeithasegwyr yn astudio grwpiau bach o bobl sy'n cynrychioli grwpiau mwy o bobl.

© CBAC / WJEC 2015

- Mae cymdeithasegwyr empirig yn pwysleisio pwysigrwydd gofalu bod y grŵp bach yn debyg i'r grŵp mwy. Cynrychioldeb yw hyn.
- Cyffredinoli yw pan fydd hi'n bosib gwneud casgliadau am y grŵp llai sy'n berthnasol i'r grŵp mwy.
- Y ffrâm sampl yw'r grŵp o bobl y tynnir y grŵp astudio ohoni.

## Testun

Wrth astudio testun megis tlodi, gall niferoedd fod yn enfawr. Yn 2006, roedd 13,000,000 o bobl yn byw mewn cartrefi ag incwm y cartref yn is na 60% o'r incwm cyfartalog. Nid yw'n ymarferol i gymdeithasegwyr geisio cynnal arolwg o gymaint â hyn o bobl. Mae'r costau o ran amser ac arian yn golygu bod y prosiect yn anymarferol. Serch hyn, mae tlodi yn bwnc hynod bwysig. Mae nifer fawr o bobl yn mynd ati i astudio ei effaith ar bethau megis iechyd, disgwyliad oes, addysg, tai a chyfraddau trosedd.

Felly, bydd cymdeithasegwyr yn defnyddio un o blith nifer o ddulliau derbyniol i benderfynu i bwy byddant yn gofyn i gymryd rhan mewn astudiaeth. Byddant yn dewis nifer fach o bobl i gynrychioli pawb yn y boblogaeth sy'n perthyn i'r maes maent eisiau ei astudio. Nid oes raid bwyta'r pryd i gyd i wybod sut mae'n blasu, mae llong ceg yn ddigon. Felly, nid oes angen i gymdeithasegwr ofyn i bawb sy'n perthyn i gategori arbennig am eu profiadau er mwyn cael syniad o sut fydd llawer o bobl yn y grŵp hwnnw yn teimlo. Samplu yw'r broses o ddewis grŵp llai i'w astudio. Er hynny, os nad yw'r grŵp llai hwn yn debyg i'r holl bobl allai berthyn i'r grŵp sy'n cael ei astudio, ni fydd canlyniadau'r astudiaeth yn gynrychioladol.

Mae samplu yn gywir yn arbennig o bwysig i gymdeithasegwyr empirig am resymau sy'n ymwneud â sut mae pobl yn meddwl. Os ydym yn gweld nifer o bobl sy'n perthyn i gategori arbennig yn gwneud rhywbeth, rydym yn dueddol o gymryd yn ganiataol bod pawb yn y categori hwnnw'r un fath; dyma wraidd stereoteipio. Dylai astudiaeth syml o gymdeithaseg fod yn ddigon i ddangos bod gwneud tybiaethau yn gamarweiniol. Wrth ddefnyddio dulliau samplu gofalus a systematig, mae cymdeithasegwyr empirig yn ceisio dileu gwallau wrth gasglu'r data. Gellir defnyddio sampl gynrychioladol dda i gyffredinoli am y boblogaeth i gyd.

Y boblogaeth yw'r grŵp sy'n cael ei astudio. Gallai fod yn grŵp mawr megis mamau sengl, pobl dosbarth gweithiol neu aelodau lleiafrif ethnig. Gallai fod yn grŵp llai megis pobl ddigartref yng Nghaerdydd. Y ffrâm sampl yw'r bobl o fewn y boblogaeth y bydd yr ymchwilydd yn tynnu sampl ohoni. Gwnaed camgymeriad clasurol mewn prosesau samplu a fframiau samplu yn Arolwg Barn y Literary Digest yn 1936. Roedd Alf Landon a Franklin D Roosevelt yn ymgyrchu i fod yn Arlywydd America. Roedd arolwg barn y Literary Digest yn rhagweld buddugoliaeth ysgubol i Landon. Er hynny, roedd eu sampl nhw yn cynnwys pobl oedd yn berchen ar geir, ffonau, ac arian i brynu cylchgronau. 1936 oedd blwyddyn y Dirwasgiad Mawr ac roedd tlodi enbyd ledled Unol Daleithiau'r America. Pleidleisiodd pobl dlawd am Roosevelt. Roedd y sampl ond yn cynnwys pobl gyfoethog, felly roedd ganddi duedd ac roedd yn anghynrychioliadol.

## Cwestiynau

1. Pam bod cymdeithasegwyr yn defnyddio samplau?
2. All sampl fod yn gwbl gynrychioladol o boblogaeth?

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Sgiliau ymchwil)

## Allweddeiriau

- Cymdeithaseg empirig - astudio'r hyn gellir ei arsylwi a'i fesur.
- Cynrychioldeb - grŵp bach sydd â'r un nodweddion â grŵp mwy.
- Cyffredinoli - casgliadau y gellir eu gwneud am grŵp bach sy'n berthnasol i'r grŵp mwy.
- Ffrâm sampl - y grŵp y dewisir y cyfranogwyr mewn astudiaeth ohono.
- Poblogaeth - yr holl bobl y gellir eu hystyried i fod yn rhan o'r sampl.
- Mynediad - gallu cysylltu â phobl a gofyn iddynt gymryd rhan mewn astudiaeth.

## Beth yw samplu cyfleus?

### Bwledi

- Tueddir i ddefnyddio samplau cyfleus mewn ymchwil rhyngweithiol.
- Mae amrywiaeth o fathau o samplu cyfleus.
- Maent yn ddefnyddiol i gael mynediad at boblogaeth nad yw fel arfer yn cymryd rhan mewn ymchwil.
- Gall fod yn anodd cyffredinoli o sampl gyfleus, ond er hynny, gall casgliadau eraill fod yn ddilys ac yn ddefnyddiol.

### Testun

I'r cymdeithasegwyr sy'n teimlo na all cymdeithaseg fod yn wyddor, nid oes cymaint o bwysau arnynt i ddefnyddio technegau samplu cynrychioladol. Nid yw hyn yn golygu nad oes modd cyffredinoli eu samplau, oherwydd mae hyn yn aml yn bosibl. Deallir bod y gallu i gyffredinoli wedi'i gyfyngu, a gellir ystyried hyn cyn dod i unrhyw gasgliad. Bydd ymchwilwyr yn defnyddio yr hyn a elwir yn sampl gyfleus.

Mae nifer o wahanol samplau cyfleus, gan gynnwys samplu pelen eira, ble gofynnir i bob cyfranogwr enwi rhywun arall y gall yr ymchwilydd holi.

Gyda'r defnydd o arolygon ar y we, gwelir bod pobl yn gynyddol yn defnyddio samplau hunangyfeirio. Maent yn gwirfoddoli cymryd rhan mewn astudiaeth. Nid yw hyn yn ddull diweddar. Mae ymchwilwyr wastad wedi hysbysebu am bobl i gymryd rhan mewn astudiaethau. Dyma sut cafodd Milgram ei ymatebwyr ef ar gyfer astudio personoliaeth awdurdodaidd. Samplu cyfle yw pan fydd pobl yn digwydd bod mewn sefyllfa neilltuol ac ar gael i ateb cwestiynau. Defnyddir yr holl ddulliau hyn yn eithaf aml. Ni ddylai'r ymchwilydd roi gormod o bwyslais ar ddibynadwyedd dulliau samplu fel hyn.

Tueddir i ddefnyddio samplau cyfleus mewn sefyllfaoedd pan nad yw'n glir pwy yn union sy'n rhan o'r boblogaeth y chwilir amdani. Yr enghreifftiau clasurol yw gwrywgydwyr a lesbiaid, pan roedd ymddygiad cyfunrywiol yn erbyn y gyfraith, pobl yn cymryd cyffuriau, troseddwyr, a grwpiau eraill sy'n anodd cael mynediad atynt.
Byddai sampl gyfleus yn golygu mynd at bobl mewn archfarchnad ar ddydd Sadwrn, neu siarad â phobl yn y dorf mewn gêm bêl-droed. Mae astudiaeth Lee Monaghan o godwyr pwysau, ac astudiaeth Skegg o ferched dosbarth gweithiol Swydd Gaerhirfryn, yn enghreifftiau o samplau cyfleus.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Sgiliau ymchwil)

### Cwestiynau

1. Disgrifiwch y tri math gwahanol o samplu cyfleus.
2. Pryd mae samplau cyfleus yn debygol o gael eu defnyddio?
3. O ba safbwynt fydd cymdeithasegwyr sy'n defnyddio samplau cyfleus yn gweithio ohono?

### Allweddeiriau

- Sampl gyfleus - mae'r ymchwilydd yn holi pobl sydd ar gael.
- Sampl pelen eira - mae'r ymchwilydd yn gofyn i bobl allweddol ofyn i eraill gymryd rhan.
- Samplau hunangyfeirio - pobl yn gwirfoddoli gan ymateb i hysbyseb neu gais.
- Sampl cyfle - mae'r ymchwilydd yn gofyn i bobl sy'n digwydd bod yno pan gynhelir yr ymchwil.
- Ethnomethodoleg - ceisio deall rhesymau pobl am eu hymddygiad.
- Ymchwil ethnograffig - ymchwil sy'n defnyddio ethnomethodoleg.

## Beth yw samplu ar hap?

### Bwledi

- Mewn samplu ar hap, mae gan bob aelod o'r ffrâm sampl yr un siawns o fod yn rhan o'r astudiaeth.
- Defnyddir rhestri yn aml ar gyfer ffrâm sampl ar hap: mae cofrestri etholiadau a rhestri dosbarthiadau yn fframiau sampl delfrydol.
- Mae problemau os bydd y sampl yn rhy fach; gall patrymau anfwriadol godi all effeithio ar gynrychioldeb y canlyniadau.
- Mae samplu systematig yn golygu dewis enwau yn ôl proses arbennig, megis fesul deg enw ar restr. Oni bai bod y rhestri eu hunain ar hap, gellir cael patrymau yn y data.
- Gyda phrosesau samplu haenedig, mae pobl yn cael eu rhannu i gategorïau a chymrir eu henwau ar hap.

### Testun

Mae samplu ar hap yn ffordd wyddonol o samplu. Mewn sampl ar hap syml, mae gan bob aelod o'r ffrâm sampl yr un siawns o gael ei bigo. Mewn gwirionedd, 'tynnu enwau o het' neu raffl yw hyn. Yn eu harolwg o deuluoedd yn Abertawe yn 1965, defnyddiodd Rosser a Harris gofrestr etholiadol ar gyfer eu ffrâm sampl. Cofrestr etholiadol yw rhestr o bawb sydd â'r hawl i bleidleisio mewn ardal arbennig (neu etholaeth). Cymrodd Rosser a Harris bob hanner canfed teulu ar y rhestr a chysylltu â hwy yn y gobaith iddynt gytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Roedd y gyfradd ymateb yn 87%. Mae hyn yn codi'r cwestiwn beth fyddai gweddill y teuluoedd (13%) wedi cyfrannu at y canfyddiadau. Mae'n codi problem fethodolegol arall, sef diffyg ymateb. Diddorol yw nodi bod y gyfradd ymateb yn 43% pan ail wnaed yr astudiaeth yn 2002 gan Davies a Charles.

Ni ddefnyddir samplu ar hap yn aml oherwydd bod rhai problemau yn codi. Y fantais amlwg yw ei fod yn osgoi tuedd o safbwynt dewis cyfranogwyr. Yr anfantais yw y gall patrymau anfwriadol godi o'r data. Os yw'r ffrâm sampl yn fach iawn, mae siawns go uchel i hyn ddigwydd. Er enghraifft, cymrwch mewn cymdeithas bod 50% o ferched a 50% o ddynion yn cael eu geni, ond dim ond cyfran o deuluoedd sydd â'r un rhaniad cyfartal yn eu teulu. Mae maint bach pob teulu unigol yn golygu y gall dosbarthiad rhyw ym mhob

© CBAC / WJEC 2015

teulu arwain at batrymau anfwriadol mewn dosbarthiad rhyw. Efallai bod gan rieni blant o'r un rhyw. Mae teulu yn uned rhy fach i gynrychioli'r gymdeithas gyfan.

Weithiau, mae cymdeithasegwyr yn defnyddio samplu systematig. Dewisir pob degfed enw ar restr. Amrywiad ar samplu ar hap yw hyn. Nid yw defnyddio sampl ar hap systematig yn ei hun yn ddigon i leihau'r perygl o batrymau yn datblygu yn y sampl. Er enghraifft, gallai rhestri dosbarthiadau mewn ysgol greu problemau fel fframiau sampl. Dywed bod yr ymchwilydd yn dewis yr enw cyntaf ar restr bob dosbarth; gallai hyn achosi problem o ran bod y rhestri yn ôl trefn gallu'r plant efallai. Byddai'r plentyn mwyaf galluog ym mhob dosbarth yn ffurfio'r sampl. Mae rhestri yn ôl y wyddor yn creu problem debyg, o ran bod llawer o enwau Asiaidd sydd wedi'u hetifeddu yn dechrau gydag A, felly byddai plant o dras Asiaidd yn cael eu gorgynrychioli.

Weithiau, bydd cymdeithasegwyr yn defnyddio trefn haenedig ar hap, neu drefn sampl hanedig. Mae hyn yn golygu rhannu'r ffrâm sampl i gategorïau arwyddocaol, ac wedyn defnyddio technegau samplu ar hap. Os byddai angen i'r ymchwilydd gymharu bechgyn a merched, ni fyddai sampl ar hap bur yn rhoi nifer gyfartal o fechgyn a merched. Byddai'r ymchwilydd wedyn yn creu dau gategori, ac yn samplu o fewn pob un.

### Cwestiynau

1. Beth yw sampl ar hap?
2. Beth yw manteision technegau samplu ar hap?
3. Pa ffactorau allai effeithio ar gynrychioldeb sampl ar hap?

### Allweddeiriau

- Sampl ar hap - ble mae gan bawb mewn 'ffrâm sampl' yr un siawns o gael eu dewis.
- Tuedd - rhoi gogwydd ar rywbeth er mwyn iddo ddangos rhagfarn neu farn.
- Cofrestr etholiadol - rhestr o bawb sydd â'r hawl i bleidleisio mewn etholiad.
- Diffyg ymateb - pobl sy'n dewis peidio ag ymateb mewn astudiaeth.
- Sampl systematig - cymryd enwau oddi ar restr.
- Samplu haenedig - rhennir y samplau i ddosbarthiadau arwyddocaol, wedyn cymrir samplau o bob un o'r dosbarthiadau hyn.

## Pam defnyddio samplu cwota?

### Bwledi

- Mae samplu cwota yn digwydd pan fydd ymchwilydd yn edrych am bobl sy'n diwallu set o nodweddion gofynnol.
- Mae hyn yn gyffredin mewn arolygon gwleidyddol a marchnata.
- Y fantais yw bod modd targedu pobl gyda'r dull hwn, ac mae'n rhad.
- Yr anfantais yw bod tuedd yn gallu bod yn ffactor, yn ddamweiniol.
- Mae samplu cwota yn ddefnyddiol i osgoi gwastraffu amser gyda samplau sy'n rhy fawr ac yn amhenodol i bwrpas yr astudiaeth.

### Testun

Weithiau, mae angen i gymdeithasegwyr edrych ar bobl sy'n perthyn i grwpiau arbennig. Efallai bydd angen i gyfwelydd edrych am bobl sydd â nodweddion neilltuol. Wrth ymchwilio i broblemau iechyd ymysg dynion oedrannus, does dim pwynt defnyddio

© CBAC / WJEC 2015

samplau ar hap. Mae angen i ymchwilwyr gael nifer benodol o ddynion hŷn sy'n fodlon cymryd rhan yn yr astudiaeth. Yn ei hastudiaeth o ddynion hŷn, dewisodd Sara Arber (2002) gyfranogwyr o blith rhestr o ddwy ganolfan iechyd, ond rhoddodd boster mewn llefydd ble roedd ei phoblogaeth darged yn debygol o fod hefyd. Cafwyd 33 o ddynion priod a dynion oedd yn cyd-fyw dros 65 oed, a 33 o weddwon, deg wedi ysgaru, a 12 o ddynion heb briodi erioed.

Mantais samplu cwota yw nad oes raid iddo fod yn gymhleth i'w drefnu; mae sefydliadau ymchwil y farchnad yn defnyddio'r dull hwn. Maent yn mynd o amgylch tai neu'n mynd at bobl ar y stryd. Yn amlwg, nid yw'r dull samplu hwn ar hap. Gall hefyd fod yn anghynrychioliadol oherwydd mewn arolwg cwota ar y stryd, mae'n debyg y bydd y cyfwelwyr yn mynd at bobl sy'n edrych yn garedig ac yn ddymunol, sy'n ateb eu meini prawf. Does dim modd profi i ba raddau mae tuedd y cyfwelydd yn ffactor mewn ymchwil.

Nid yw diffyg cynrychioldeb o angenrheidrwydd yn beth drwg mewn astudiaeth. Mae'n dibynnu'n fawr ar gyd-destun yr ymchwil. Roedd astudiaethau Goldthorpe a Lockwood (1961-2) o weithwyr cefnog yn Llundain yn fwriadol edrych am bobl dosbarth gweithiol ar gyflogau uchel er mwyn ymchwilio i agweddau cymdeithasol. Dadleuwyd nad oedd pwrpas astudio pob grŵp dosbarth gweithiol os oeddent yn edrych am dystiolaeth o newid mewn agweddau. Dylient ganolbwyntio ar y bobl hynny oedd yn fwy tebygol o ddangos y newidiadau mewn agwedd yr edrychid amdanynt.

### Cwestiynau

1. Beth yw samplu cwota?
2. Pam fod cymdeithasegwyr yn defnyddio samplu cwota?

### Allweddeiriau

- Samplu cwota - ymchwilwyr yn edrych am bobl sydd â nodweddion neilltuol.
- Ymchwil y farchnad - defnyddir dulliau cymdeithasegol i adnabod patrymau gwario i gwmnïau masnachol.
- Cefnog - cyfoethog, gydag arian i wario.

## Pa bwyntiau eraill y gellid eu codi am samplu?

### Bwledi

- Wrth gynllunio astudiaeth, ni ddylai cymdeithasegwyr gymryd yn ganiataol y bydd ganddynt fynediad at grŵp o bobl.
- Gall diffyg ymateb effeithio ar ansawdd y sampl.
- Gall gymryd dipyn o amser i ddadansoddi samplau mawr. Mae'n anodd rheoli'r data ac adnabod patrymau, yn enwedig os yw'r data a gesglir yn ansoddol.

### Testun

Nid yw'n dilyn bod cymdeithasegwyr yn cael mynediad at ffrâm samplu sydd eisoes yn bodoli. Mae rheolau cyfrinachedd sy'n amddiffyn pobl. Er enghraifft, mae gan ganolfannau iechyd restri o gleifion sydd ag AIDS, neu bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, ond mae Deddfau Gwarchod Data yn golygu na wnânt rannu'r data hwn ag eraill. Petai ysgolion yn rhoi mynediad i gymdeithasegwyr at enwau a chyfeiriadau plant, byddent

© CBAC / WJEC 2015

mewn trafferth yn foesegol ac yn gyfreithiol. Yn olaf, nid yw rhai pobl eisiau cael eu hastudio. Mae'n anodd iawn cael gwybodaeth am bobl dra chefnog, grwpiau crefyddol arbennig, neu grwpiau gwleidyddol arbennig oherwydd ni fyddai'n talu iddynt petai gwybodaeth amdanynt yn gyhoeddus.

Hyd yn oed os yw proses samplu wedi'i chynllunio'n hynod dda, nid yw hyn yn golygu y gwnaiff pawb ymateb i'r holiadur. Mae hyn yn ystyriaeth bwysig. Os bydd llawer o bobl yn gwrthod cymryd rhan, gallai hyn gael effaith ddifrifol ar ansawdd y canlyniadau. Ni cheir fawr o ymateb i holiaduron a anfonir drwy'r post; cydnabyddir hyn ac mae cwmnïau ymchwil masnach yn cynnig cymhellion i bobl gymryd rhan, megis talebau i'w gwario mewn siopau ar y stryd fawr, neu roi eu henw mewn raffl.

Mae mater ymarferol arall yn gysylltiedig â samplu. Os bydd samplau yn rhy fawr, ond bod yr ymchwil yn ansoddol, yna gellir defnyddio cyfrifiaduron i goladu'r data a gesglir gan adnabod patrymau. Er hynny, mae'n anos delio gydag ymchwil ansoddol ac mae'n anodd rheoli samplau mawr o ran amser ac ansawdd y data a gesglir.

### Cwestiynau

1. Beth yw'r broblem mynediad?
2. Sut gall diffyg ymateb effeithio ar gynllun y sampl?
3. Pa faterion ymarferol sy'n gysylltiedig â samplu?
4. Pam fod angen i gymdeithasegwyr fod yn ymwybodol o ddylanwad samplu ar ansawdd canfyddiadau?

### Allweddeiriau

- Deddf Gwarchod Data - mae yn erbyn y gyfraith datgelu gwybodaeth breifat am bobl heb eu caniatâd.
- Diffyg ymateb - nid yw pobl eisiau cymryd rhan mewn ymchwil.

# Pa mor ddefnyddiol yw holiaduron i gymdeithasegwyr?

## Rhagymadrodd

### Bwledi

- Mae holiaduron fel arfer yn gofyn cwestiynau caeedig
- Mae pawb yn cael yr yn cwestiynau yn yr un dref, felly mae'n haws cymharu
- Mae llawer o holiaduron yn cael eu rhagflaenu gan holiaduron peilot
- Gellir anfon holiaduron drwy'r post

### Testun

Rhestr o gwestiynau ar ddarn o bapur yw holiadur. Mae'n ddull sy'n aml yn cael ei ddefnyddio mewn arolygon cymdeithasol.Mae Arolygon Cymdeithasol yn cael eu cynnal pan fydd ymchwilydd eisiau casglu gwybodaeth ystadegol gan nifer fawr o bobl, fel arfer er mwyn cyffredinoli am y boblogaeth yn ei chyfanrwydd. Gan eu bod ar raddfa eang gyda phwyslais ar ffeithiau, mae holiaduron fel arfer yn gofyn cwestiynau caeedig (gyda

nifer cyfyngedig o atebion), sydd wedi eu codio ymlaen llaw er mwyn gallu eu dadansoddi ar gyfrifiadur.

Mae'r cwestiynau yn cael eu safoni h.y. mae pawb yn cael yr un cwestiwn yn yr un drefn, ac felly fe dybir bod modd cymharu atebion pobl gan eu bod yn ymateb i union yr un cwestiynau.

Gall y cwestiynau fod yn agored, caeedig neu'n gwestiynau aml ddewis. Mae geiriad cwestiynau mewn arolygon yn bwysig iawn gan fod ansawdd y canlyniadau yn cael ei effeithio gan y cwestiynau. Os nad ydi'r rhai sy'n ymateb yn deall y geiriau a ddefnyddir neu os nad yw'r ateb neu'r dewis a hoffent hwy ei weld ddim yno, nid yw'r arolwg yn cynhyrchu canlyniadau defnyddiol. Mae'r cwestiynau yn cael eu safoni h.y. mae pawb yn cael yr un cwestiwn yn yr un drefn, ac felly fe dybir bod modd cymharu atebion pobl gan eu bod yn ymateb i union yr un cwestiynau.

Am y rhesymau hyn, mae llawer o holiaduron yn cael eu rhagflaenu gan arolwg peilot sy'n ceisio darganfod a chywiro unrhyw broblemau cyn i'r holiadur terfynol fynd allan. Mae hyn hefyd yn gallu rhoi rhyw syniad i'r ymchwilydd am faint o amser y bydd yr holiadur yn ei gymryd a'r drefn orau i ofyn y cwestiynau.

Mae bron pob holiadur wedi'i seilio ar sampl o'r boblogaeth. Mae samplau yn angenrheidiol gan nad oes gan ymchwilwyr yr amser na'r arian i astudio pawb yn y boblogaeth e.e. os byddai eu hymchwil wedi ei seilio ar ferched dros 16 oed yn y Deyrnas Unedig, fe fyddai'n cynnwys dros 23 miliwn o bobl.

Gall holiaduron gael eu gyrru drwy'r post ar ffurf holiadur neu eu rhoi i grwpiau o bobl e.e. mewn ysgol neu ffatri, neu gellir eu gweinyddu gyda holwr yn darllen allan y cwestiynau ac yn cofnodi'r atebion. Mae gan bob dull ei gryfderau a'i wendidau.

Daw'r wybodaeth canlynol o arolygon cymdeithasol. Mae'r 'General Household Survey' yn dweud wrthym yn 1992 bod gan 33% o gartrefi Prydeinig chwaraewr CD. Mae 'National Leadership Surveys Ltd' yn adrodd mai 'Reader's Digest' oedd y cylchgrawn a ddarllenwyd mwyaf yn 1992. A darganfu 'Cinema and Video Industry Audience Research' bod 89% o'r grŵp oedran 15 - 24 wedi mynychu sinema o leiaf un waith yn 1992.

Daw'r wybodaeth uchod o arolygon cymdeithasol.

## Cwestiynau

1. Beth yw cwestiynau caeedig?
2. Beth yw cwestiynau agored?
3. Beth yw cryfderau a gwendidau holiaduron sy'n cael eu gyrru drwy'r post?

## Allweddeiriau

- Cwestiynau caeedig - cwestiynau sydd yn gofyn am atebion byr, ydw / nag ydw, oes / nag oes / weithiau.
- Cwestiynau agored - cwestiynau sydd yn gofyn am atebion hir, manwl,estynedig.
- Holiadur - rhestr o gwestiynau ar ddarn o bapur.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Sgiliau ymchwil)

## Mathau o gwestiynau

### Bwledi

- Mae cwestiynau caeëdig wedi eu codio ymlaen llaw.
- Mae holiadur strwythedig yn cynnwys cwestiynau caeëdig.
- Mae cwestiynau agored yn rhoi cyfle i fanylu.
- Mae rhai holiaduron yn cynnwys cwestiynau agored.

### Testun

Defnyddir dau fath o gwestiynau mewn holiaduron -caeëdig ac agored.

Mewn cwestiwn caeëdig, mae'r amrediad o ymatebion yn cael eu gosod gan yr ymchwilydd. Fel arfer rhaid i'r ymatebwr ddethol un ateb o ddau ddewis neu fwy.

Mae holiadur gyda chwestiynau caeëdig yn gymharol hawdd, cyflym a rhad i'w dosbarthu a'u mesur. Maent yn cael eu codio ymlaen llaw, yn yr ystyr bod y categorïau wedi eu gosod a'r unig beth mae'n rhaid i'r ymatebwr wneud yw dewis un neu eu rhoi mewn trefn. Serch hynny, mae'r ymchwilydd wedi dewis yr atebion sydd ar gael, ac yn yr ystyr yma yn gorfodi ei ddewis ef/hi o atebion ar yr ymatebwr

Mae cwestiwn agored yn gofyn i'r ymatebwr ateb cwestiwn yn eu geiriau eu hunain. Mae cwestiynau agored yn rhoi mwy o ryddid i'r ymatebwr, ond mae côdio/ grwpio'r atebion yn gallu bod yn anodd ac yn cymryd llawer o amser.
Mae'r rhan fwyaf o ymchwilwyr yn gweld cwestiynau caeëdig yn addas ar gyfer data syml, ffeithiol fel oed, rhyw a lefel incwm. Ond mae cwestiynau agored yn fwy addas ar gyfer data ar agweddau a gwerthoedd ble mae'n rhaid i'r ymatebwr fynegi sut maent yn teimlo. Mae cwestiwn agored yn caniatáu iddynt ddweud pethau yn eu ffordd eu hunain.

### Cwestiynau

1. Eglurwch yn gwahaniaethau rhwng cwestiynau caeëdig a chwestiynau agored.

### Allweddeiriau

- Cwestiynau agored - cwestiynau sy'n gofyn am atebion hir, manwl, estynedig.
- Cwestiynau caeedig - cwestiynau sy'n gofyn i'r ymatebydd ddewis ateb, ydw / nag ydw, oes / nag oes / weithiau.

## Manteision Holiaduron

### Bwledi

- Mae'n bosib casglu llawer o ddata gyda holiaduron.
- Mae positifwyr yn cefnogi data meintiol.
- Mae data meintiol yn fwy dibynadwy na data ansoddol.
- Drwy ddefnyddio holiaduron mae'n bosib defnyddio samplau mwy.
- Maent yn rhad i'w dosbarthu.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Sgiliau ymchwil)

## Testun

Wrth ddefnyddio holiaduron mae'n bosib casglu swm sylweddol o ddata oddi wrth nifer fawr o bobl dros gyfnod byr o amser. Mae'n hawdd cyfrif a dadansoddi'r data yn gyflym am ein bod yn delio gydag ystadegau.

Mae positifwyr yn cefnogi data meintiol oherwydd gellir ei ddadansoddi yn fwy 'gwyddonol'.
Mae'n fwy dibynadwy na data ansoddol. Gellir ei wirio gan gymdeithasegwyr eraill ac felly mae dibynadwyedd yn uchel.

Gan fod yr atebion yn safonol, gellir eu casglu ynghyd a'u rhoi drwy raglenni coladu drwy gymorth cyfrifiadur i'w dadansoddi'n gyflym. Cesglir a dadansoddir gwybodaeth y Cyfrifiad fel hyn. Dechreuir cael canlyniadau o fewn blwyddyn o gwblhau'r Cyfrifiad. O ystyried nifer y bobl sy'n ymateb i'r Cyfrifiad (cofnodir o leiaf 60 miliwn o enwau), mae hyn yn anhygoel.

Drwy ddefnyddio holiaduron o'r math yma mae'n bosib defnyddio samplau mwy ac felly mae yna fwy o gyfiawnhad dros gyffredinoli i'r boblogaeth ehangach. Nid yw hyn yn bosib gydag astudiaeth fanwl o nifer fach o bobl.

Gall y samplau ar gyfer holiaduron fod yn enfawr felly gellir cyrraedd niferoedd fawr iawn o'r gymuned; gyda'r fantais o gael ymatebion ysgrifenedig hefyd. Cwblhawyd Arolwg Troseddu Prydain gan 47,203 o bobl yn 2006. Byddai sefydliadau ymchwil masnachol megis Mori fel arfer yn cysylltu â miloedd o bobl yn eu harolygon a gallwch weld hyn o'u gwefan. Mae gan y rhaglen Nestle Social Research i bobl ifanc sampl o dros 1,000 o bobl ifanc. Gall y samplau mawr wella cynrychioldeb.

Mae holiaduron yn eithaf cyflym i'w cwblhau ac nid ydynt mor bersonol â rhai dulliau eraill. Mae'n haws eu gwasgaru yn ddaearyddol ac felly cael barn llawer o bobl o nifer o fannau gwahanol.

Nid ydynt yn ddrud gan nad oes angen talu cyfwelydd, ac mae'n rhad dosbarthu'r canlyniadau. Nid oes yma duedd cyfwelydd chwaith ac maent yn ddelfrydol i ateb cwestiynau personol efallai na fyddai rhywun yn fodlon eu hateb yn onest wyneb yn wyneb.

Manteision ymarferol holiaduron yw eu bod yn rhad iawn i'w cynnal o gymharu â dulliau eraill sy'n gofyn am lawer mwy o amser o du'r tîm ymchwil ei hun. Maent yn broses gyfarwydd ac mae pobl yn dueddol o fod yn fodlon helpu os gallant. Nid ydynt yn rhy 'fusneslyd' chwaith; efallai bod pobl yn fodlon ateb holiadur ar fater preifat megis iechyd rhywiol yn hytrach na gorfod ateb cwestiynau o'r fath wyneb yn wyneb.

Ar y llaw arall, beirniadodd Shucksmith a Hendry (1998) arolygon ar raddfa fawr ar ffurf holiaduron oherwydd nad oeddent yn ddilys iawn.
Roeddent yn awgrymu nad yw pobl ifanc yn aml yn ymddiried mewn cyfrinachedd arolygon ac felly maent yn cam gynrychioli eu hunain. Gallant or-ddweud neu ddweud celwydd ac felly lleihau dilysrwydd. Gwelsant hefyd mai un o'r problemau gydag arolwg ar raddfa fawr yw ein bod yn cael trosolwg o ymddygiad, heb synnwyr o ddiwylliant a gwahaniaethau rhwng ardaloedd daearyddol llai.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Sgiliau ymchwil)

Adroddodd McBeath a Mortimore (2001) ar y prosiect Gwella Effeithiolrwydd Ysgolion. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i adnabod ysgolion effeithiol. Ailadroddwyd ac ail ddyluniwyd holiaduron a fu'n effeithiol mewn astudiaethau eraill i arbed amser ac i wella dibynadwyedd eu hastudiaeth eu hunain.

### Cwestiynau

1. Beth yw manteision holiaduron?

### Allweddeiriau

- Positifwyr - cymdeithasegwyr sydd yn defnyddiol dynesiad gwyddonol.
- Dibynadwyedd - Mae dulliau ymchwil a data yn ddibynadwy pan mae ymchwilwyr gwahanol sy'n defnyddio'r un dulliau yn cael canlyniadau tebyg. Mae dull dibynadwy yn galluogi i astudiaethau i gael eu hail-adrodd a'u copïo, a chael yr un canlyniadau neu ddarganfyddiadau.
- Data meintiol - Mae ymchwil meintiol yn ceisio casglu ffeithiau a ffigyrau drwy ddefnyddio dulliau fel arolwg cymdeithasol neu ddadansoddiad o ystadegau.
- Data ansoddol - Mae ymchwil ansoddol yn ceisio cael dealltwriaeth fanylach o'r sefyyllfa e.e.cyfweliadau anffurfiol.

## Anfanteision Holiaduron

### Bwledi

- Mae rhyngweithredwyr yn beirniadu data ystadegol am ddiffyg dyfnder
- Mae rhyngweithredwyr yn cefnogi data ansoddol
- Mae data ansoddol yn aml yn cael ei ystyried yn fwy dilys na data meintiol
- Mae'n bosib dehongli'r cwestiynau yn anghywir mewn holiadur
- Mae graddfa ymateb holiaduron yn isel, yn enwedig holiaduron sy'n cael eu gyrru drwy'r post.

### Testun

Mae rhyngweithredwyr yn beirniadu data ystadegol drwy ddweud ei fod yn anaddas ar gyfer rhoi esboniadau cymdeithasegol i ymddygiad dynol. Nid oes yma gyfle i fanylu yn llawn. Gall fod diffyg dilysrwydd yma o'r herwydd, gan nad oes yma ddigon o ddyfnder a gwybodaeth bersonol.

Efallai ei bod hi'n bosib i'r ymatebwyr ddehongli'r cwestiynau yn wahanol am nad ydynt wedi eu deall yn iawn. Nid yw'r ymatebwyr yn cael cyfle i ddatgelu gwybodaeth os nad oes cwestiwn penodol amdano yn yr holiadur.
Os nad yw'r ymatebwyr yn gallu rhoi atebion llawn a chywir neu os ydynt yn dweud celwydd, yna mae'r dilysrwydd yn llai.

Mae cwestiynau caeedig mewn holiadur yn cyfyngu ar yr hyn sydd gan yr ymatebwyr i ddweud. Nid yw'n bosib manylu.

Mae yna broblem hefyd gydag anfon holiaduron drwy'r post yn ôl i'r ymchwilydd sy'n arwain at gyfradd ymateb isel. Mae yna dros 50% o bobl sy'n dewis peidio ag anfon holiaduron yn ôl am wahanol resymau. Ymchwiliodd Smith et al (2006) i fwlio 'cyber', sef bwlio gan ddefnyddio cyfrifiaduron, ffonau symudol, gwefannau a negeseua. Lluniwyd

© CBAC / WJEC 2015

holiadur gyda chwestiynau agored a chaeedig. Ffoniodd y tîm ymchwil ysgolion yn ardal Llundain a gofyn a oeddent eisiau cymryd rhan yn yr arolwg. Cytunodd ugain ysgol. Anfonwyd wyth holiadur at athrawon penodol a gofynnwyd iddynt roi un holiadur i fachgen a merch ar hap ym mhob grŵp oed. Yn y pendraw, dim ond 14 ysgol a ddychwelodd yr holiaduron a hyd yn oed wedyn, ni lwyddodd pob ysgol i ddychwelyd yr wyth. Yn amlwg, nid oedd y dull samplu yn arbennig o effeithiol, a rhaid cwestiynu cynrychioldeb y data a gafwyd.

Anfonir holiaduron yn aml ar ôl y digwyddiad, felly mae Arolwg Troseddu Prydain blynyddol [sy'n fesur mwy dibynadwy o drosedd gwirioneddol nag ystadegau swyddogol], yn dibynnu ar ofyn i bobl a ydynt wedi bod yn destun trosedd yn y flwyddyn ddiwethaf. Yn amlwg, efallai bod ymatebwyr wedi anghofio rhai digwyddiadau yn yr amser hwnnw. Mae holiaduron yn safonol. Golyga hyn eu bod i gyd yr un fath.

Nid yw'n bosib gofyn am eglurhad ar unrhyw bwynt sydd wedi'i gamddeall, neu i'r ymchwilydd ofyn am eglurhad dros roi ateb neilltuol. Dyma un o'r prif feirniadaethau ar brofi deallusrwydd.

Bydd ymatebwyr yn ateb cwestiynau ar lefel arwynebol iawn os yw'n ymddangos bod yr arolwg am gymryd amser hir i'w gwblhau. Mewn astudiaeth o sut mae pobl sydd ag anabledd dysgu yn ateb cwestiynau gan Antaki (1999), gwelwyd bod y cyfwelwyr oedd yn helpu'r ymatebwyr drwy'r holiadur yn aml yn golygu'r cwestiynau yn y fath fodd fel bod y cwestiynau yn hawdd i'w hateb, ond bod yr atebion o ganlyniad yn annilys. Mae hyn yn arwain at broblem arall gyda holiaduron; nid ydynt yn llwyddiannus gyda grwpiau arbennig o bobl: rheiny â lefel lythrennedd isel megis poblogaeth estron, plant neu bobl anabl. Mae'n annhebygol y gwnaiff pobl sydd â bywyd prysur ymateb. Golyga hyn fod problemau difrifol yn ymwneud â chynrychioldeb. Mae hyn yn broblem arbennig hefyd gydag arolwg ar lein, sy'n tueddu i gynhyrchu samplau anghytbwys o'r ifanc, yr addysgedig a'r cyfoethog.

Mae'n fwyfwy anodd gwneud holiaduron dros y ffôn oherwydd bod marchnatwyr mewn canolfannau galwadau yn aml yn defnyddio'r esgus eu bod yn gwneud arolwg i ddechrau gwerthu nwyddau. Nid yw rhifau ffôn llawer o bobl bellach yn y cyfeiriadur ffôn, neu efallai eu bod wedi arwyddo cytundebau dim galwadau i osgoi cael eu poeni, ac felly ni allant fod yn rhan o samplau cyfreithlon.

### Cwestiynau

1. Beth yw anfanteision holiaduron?

### Allweddeiriau

- Rhyngweithredwyr - mae'r rhyngweithredwyr yn cefnogi data ansoddol sydd yn cynnwys dyfnder.
- Dilysrwydd - Mae hwn yn cyfeirio at y gwirionedd a chywirdeb disgrifiad neu fesuriad.
- Graddfa ymateb - faint o holiaduron sydd yn cael eu hanfon yn ôl wedi eu cwblhau.

## Astudiaethau Hydredol

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Sgiliau ymchwil)

## Bwledi

- Mae astudiaeth hydredol yn archwilio'r un grŵp o bobl dros gyfnod hir o amser.
- Cryfder astudiaeth hydredol yw ei allu i archwilio datblygiadau dros gyfnod o amser.
- Fe all astudiaethau hydredol gostio llawer o amser ac arian.

## Testun

Sut allwch chi ddangos sut mae person yn edrych?
Un ffordd yw cynhyrchu ffotograff. Mae hyn yn debyg i'r rhan fwyaf o ymchwil gymdeithasegol sy'n cynnwys 'snapshot', un ymchwiliad o agwedd o fywyd cymdeithasol. Ffordd arall o ddangos sut mae person yn edrych yw cynhyrchu cyfres o ffotograffau wedi eu tynnu ar adegau gwahanol yn ystod eu bywyd. Mae hyn yn dangos sut mae eu hymddangosiad yn newid a datblygu. Mewn cymdeithaseg fe geir yr astudiaeth hydredol sydd yn archwilio'r un grŵp o bobl dros gyfnod hir o amser.

Fel y mae'r enghraifft ganlynol yn dangos, gall astudiaethau hydredol ddarparu gwybodaeth bwysig.

Yn 1947 cynhaliodd y "Population Investigation Committee" arolwg o bob mam oedd wedi cael plentyn ym Mhrydain rhwng 3 a 5 Mawrth 1946. Cafodd hyn ei ddilyn gan archwiliad o'r plant a oedd yn canolbwyntio ar eu hiechyd.

Gan ddefnyddio'r un sampl, arweiniodd J.W.B Douglas dîm o bobl i astudio eu gyrfaoedd addysgol o'r ysgol gynradd i'r uwchradd hyd nes iddynt adael yn 1962. 'Roedd dau ddarganfyddiad o'r astudiaeth hon yn dangos pwysigrwydd y safbwynt hydredol.

Darganfu Douglas (1964) fod anogaeth rhieni yn hynod o bwysig o safbwynt cyrhaeddiad addysgol fel oedd y plant yn mynd yn hŷn. Darganfu hefyd bod eu perfformiad ym mlynyddoedd cynnar yr ysgol gynradd yn cael ei adlewyrchu drwy'r ysgol uwchradd.

Fel yr awgryma'r darganfyddiadau hyn, cryfder yr astudiaeth hydredol yw ei allu i archwilio datblygiadau dros gyfnod o amser. Wrth astudio'r un grŵp h.y. wrth gadw'r un sampl, gall yr ymchwilydd fod yn sicr nad yw unrhyw newidiadau mewn agwedd neu ymddygiad wedi eu hachosi gan newidiadau yn y sampl.

Ond cadw'r un grŵp yw un o'r prif anawsterau gyda astudiaethau hydredol. Cychwynnodd sampl Douglas gyda 5,362 o blant a diweddu gyda 4,720. Hefyd cychwynnodd y "National Child Development Study" gyda 17,000 o blant a anwyd yn Lloegr, yr Alban a Chymru rhwng 3 a 9 Mawrth 1958. Erbyn cwblhau'r astudiaeth yn 1981, dim ond 12,500 aelod o'r sampl wreiddiol oedd yr ymchwilwyr yn gallu cysylltu â hwy. Rhai o'r rhesymau dros hyn oedd marwolaeth, ymfudo, gwrthod cymeryd rhan a methu dod o hyd iddynt. Y canlyniad yw nid yn unig sampl lai, ond yn fwy na thebyg, sampl llai cynrychioladol.

Mae ymchwilwyr yn ymwybodol o hyn ac yn ceisio lleihau'r broblem. Gellir gweld hyn o'r ymdrech a geir gan rhai i geisio dod o hyd i aelodau o'r sampl wreiddiol. Maent yn cysylltu â pherthnasau, ymweld â chyn-gyfeiriadau a chyn-fannau gwaith, anfon llythyrau a ffonio, chwilio cofrestrau etholiadol a chyfeirlyfrau ffôn, yn ogystal â chysylltu ag adrannau tai a'r Swyddfa Cofnodi Troseddau ('Criminal Record Office').

© CBAC / WJEC 2015

Fel mae hyn yn awgrymu, fe all astudiaethau hydredol gostio llawer o amser ac arian. Nid oes gan y rhan fwyaf o sefydliadau yr adnoddau i ariannu ymchwiliad sy'n parhau am ugain mlynedd neu fwy.

### Cwestiynau

1. Beth yw astudiaeth hydredol?
2. Beth yw cryfderau astudiaeth hydredol?
3. Beth yw gwendidau astudiaeth hydredol?

### Allweddeiriau

- Astudiaeth hydredol - Mae astudiaeth hydredol yn archwilio'r un grw^p o bobl dros gyfnod hir o amser.
- Ymchwiliad 'snapshot' - ymchwiliad sy'n benodol i un lle ar un amser.

## Pam bod cymdeithasegwyr yn defnyddio cyfweliadau?

### Rhagymadrodd

### Bwledi

- Mae Cyfweliadau yn golygu gofyn cwestiynau mewn sefyllfa wyneb yn wyneb.
- Mae amrywiaeth o wahanol fathau o gyfweliadau a thechnegau cyfweld.
- Defnyddir cyfweliadau strwythuredig gan gymdeithasegwyr empirig sydd â sgript dynn.
- Defnyddir cyfweliadau lled-strwythuredig a distrwythur gan ymchwilwyr ansoddol sy'n fwy anffurfiol.
- Mae nifer o gyfranogwyr mewn cyfweliadau grŵp.

### Testun

Bydd gwyddonwyr cymdeithasol yn defnyddio'r dull cyfweld yn aml. Mae nifer o ddulliau cyfweld. Fe'i cysylltir fel arfer â dulliau ymchwil ansoddol ble edrychir am ddyfnder ac ystyr. Gall ymchwilwyr empirig hefyd ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd ble nad yw holiaduron yn ddefnyddiol o angenrheidrwydd. Cyfweliad yw sefyllfa ble ceir sgwrs ag atebwr. Mae'n ddull mwy personol na holiaduron. Gellir strwythuro cyfweliad yn dynn fel bod y cyfwelydd yn cael sgript fanwl iawn y mae'n rhaid ei dilyn, a darperir ymatebion i gwestiynau y gallai'r cyfranogwr yn yr astudiaeth eu gofyn. Gelwir y sgript yn rhaglen cyfweliad.

Ar y pen arall, ceir cyfweliad distrwythur ble mae'r ymchwilydd yn annog yr atebwr i siarad ac yn gadael iddo/iddi lywio telerau a manylion y cyfweliad. Mae'r dull cwbl ddistrwythur hwn yn nodweddiadol o ddulliau ymchwil ffeministaidd. Rhwng y ddau begwn hyn o gyfweld wyneb yn wyneb, ceir unrhyw nifer o bosibiliadau ar gyfer trefn y drafodaeth, a gelwir y rhain yn gyfweliadau lled-strwythuredig. Yn y sefyllfaoedd hyn, gall y cyfwelydd ofyn cwestiynau ychwanegol neu cwestiynau sy'n gofyn am eglurhad yn ogystal â chrisialu ystyr y cwestiwn cyfweld gwreiddiol.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Sgiliau ymchwil)

Nid oes raid i gyfweliadau fod gydag un person yn unig. Gall fod yn ddefnyddiol i ymchwilwyr gyfweld grwpiau neu grwpiau ffocws. Yma, bydd y cyfwelydd yn siarad â nifer o bobl. Golyga hyn bod yr holl gyfranogwyr yn rhan o'r broses gyfweld wrth iddynt drafod materion ac egluro'u pwyntiau.

Gellir cynnal cyfweliad dros y ffôn hefyd; mae hyn ychydig yn llai poblogaidd oherwydd mae'n anodd mesur ymateb yr atebwr drwy gliwiau megis iaith y corff neu fynegiant ar yr wyneb. Gellir cyfweld drwy gyfrwng cyfrifiadur, megis drwy MSN neu ar e-bost a blychau siarad.

### Cwestiynau

1. Beth yw manteision defnyddio arddull gyfweld hynod strwythuredig i gymdeithasegwyr empirig?
2. Pam fyddai rhai cymdeithasegwyr yn ffafrio arddull gyfweld anffurfiol?
3. Pryd fyddai cyfweliad yn well na holiadur?

### Allweddeiriau

- Cyfweliadau - yr ymchwilydd mewn sefyllfa sgwrsio â'r atebwr.
- Rhaglen cyfweliad - sgript ar gyfer cyfweliad.
- Cyfweliadau distrwythur - mae'r cyfwelydd yn dilyn trywydd a gynigir gan yr atebwr.
- Cyfweliad strwythuredig - mae'r cyfwelydd yn dilyn sgript.
- Cyfweliadau lled-strwythuredig - cyfuniad o ddulliau strwythuredig a distrwythur ble gellir dilyn sgript, ond caniateir ychydig o hyblygrwydd.
- Cyfweliadau grŵp - cyfwelydd yn siarad â mwy nag un person ar y tro (gelwir hefyd yn grŵp ffocws).

## Mathau o gyfweliadau

### Bwledi

- Mae cyfweliadau strwythuredig yn addas ar gyfer gwybodaeth ffeithiol.
- Maent yn fwy tebygol o gynhyrchu data cymharol.
- Mae cyfweliadau anffurfiol yn galluogi'r ymchwilydd i gael gwybodaeth fanwl a disgrifiadol am fywydau'r bobl a astudir.
- Maent yn fwy tebygol o gynhyrchu data ansoddol.
- Mae cyfweliadau lled-strwythuredig yn cyfuno manteision y ddau ddull arall.

### Testun

Mae cyfweliadau strwythuredig yn restr o gwestiynau sydd wedi eu paratoi ymlaen llaw. Mae llawer o ymchwilwyr yn gweld cyfweliadau strwythuredig yn addas ar gyfer gwybodaeth "ffeithiol" syml fel oed yr atebwr, rhyw, cymwysterau addysgol a galwedigaeth.
Mae cyfweliadau strwythuredig yn fwy tebygol o gynhyrchu data cymharol - gan fod pob atebwr yn ateb yr un cwestiynau, dylai hyn alluogi'r ymchwilwyr i gymharu'r ymatebion yn uniongyrchol ac adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau. Mae hwn yn tueddu i fod yn fwy dibynadwy.

Mae data mesuradwy yn fwy tebygol o gael ei gyda'r dull hwn gan fod modd strwythuro'r

© CBAC / WJEC 2015

cwestiynau i ddarparu atebion ydw/nac ydw neu ddewis o atebion. Gan fod cyfweliadau strwythuredig hefyd yn fwy ffurfiol, efallai fod llai o debygrwydd o gael gogwydd y cyfwelydd.

Mae cyfweliadau distrwythur yn debyg i sgwrs.
Mae cyfweliadau distrwythur neu anffurfiol yn galluogi'r ymchwilydd i gael gwybodaeth fanwl a disgrifiadol am fywydau'r bobl a astudir. Rhaid i'r cyfwelydd fod yn hyblyg ac ymateb i'r sawl sy'n cael ei gyfweld (cyfwelai), gan lywio'r sgwrs gydag un ai rhestr gyffredinol o bethau i'w holi neu gwestiynau penagored. Y nod yw annog y person sy'n cael ei gyfweld i siarad yn rhydd, gan adael iddynt benderfynu ar agweddau pwysig y drafodaeth. Mae hwn yn tueddu i fod yn fwy dilys.

Yn aml, fe ddefnyddir recordydd tâp er mwyn sicrhau fod yr wybodaeth yn gywir, a gellir mynd yn ôl ato a'i ddadansoddi yn nes ymlaen.
Oherwydd manylder y dull hwn, cynhelir cyfweliadau anffurfiol ar sampl lai o bobl na holiaduron.

Mae cyfweliadau lled-strwythuredig yn gyfuniad o'r cyfweliad strwythuredig a distrwythur. Dilynir sgript ond mae modd addasu neu holi yn ddyfnach yn ôl yr angen. Mantais hyn yw bod modd cyfuno cryfderau'r ddau fath arall o gyfweliadau. Mae cyfweliadau lled-strwythuredig yn enghraifft o driongli o fewn dull.

Mewn ymchwil i fewnfudwyr i Brydain yn ddiweddar gan Jayaweera a Choudhury (2008), defnyddiwyd ymchwilwyr cymunedol i gynnal cyfweliadau lled-strwythuredig. Gwnaed ymdrech arbennig i gael cyfwelwyr oedd yn siarad yr un iaith ac oedd â'r un nodweddion cymdeithasegol â'r atebwyr. Golyga hyn y gallai'r atebwyr siarad yn eu hoff iaith, ac wedyn y gallai'r cyfwelwyr helpu yn y broses gyfieithu.

### Cwestiynau

1. Beth yw cyfweliadau strwythuredig?
2. Beth yw eu cryfderau?
3. Beth yw cyfweliadau distrwythur?
4. Beth yw eu cryfderau?
5. Beth oedd mantais defnyddio cyfweliadau lled-strwythuredig i ymchwil Jayaweera a Choudhury?

### Allweddeiriau

- Cyfweliad strwythuredig - rhestr o gwestiynau wedi eu paratoi ymlaen llaw.
- Cyfweliad distrwythur - cyfweliad yn cynnwys cwestiynau agored, fel sgwrs.
- Cyfweliad lled- strwythuredig - cyfuniad o ddulliau strwythuredig a distrwythur ble gellir dilyn sgript, ond caniateir ychydig o hyblygrwydd.
- Triongli o fewn dull - dull sy'n cyfuno gwahanol fathau ar ddata ac sy'n gadael i'r ymchwilydd wirio dibynadwyedd a dilysrwydd y data.

## Grwpiau Ffocws neu gyfweliadau grŵp

### Bwledi

- Mae grwpiau ffocws yn cynnwys grwpiau o bobl sy'n cael eu cyfweld yr un pryd.

© CBAC / WJEC 2015

- Dyma ddull ymchwil rhad ac ymarferol.
- Efallai bydd gogwydd grŵp a gogwydd cyfwelydd mewn ymchwil grŵp ffocws.
- Fe'u defnyddir yn aml ar y cyd â dulliau eraill.

## Testun

Mae grŵp ffocws neu gyfweliad grŵp yn ddull a gysylltir ag ymchwil ansoddol. Er bod y dull hwn wedi'i ddatblygu gan Merton yn y 1940au, fe'i defnyddiwyd yn amlach gan asiantaethau marchnata tan yr 1980au. Mae bellach yn un o'r prif ddulliau a ddefnyddir mewn ymchwil 'pur' neu academaidd. Mae'n wahanol i'r cyfweliad distrwythur o ran bod amrywiaeth o bobl yn cael eu cyfweld ar yr un pryd. Ystyrir mai rhwng 5 a 7 o atebwyr yw'r nifer gorau o gyfranogwyr i'w cael mewn grŵp ffocws. Gallant roi deinamig mwy naturiol i'r cyfweliad oherwydd bod pobl yn rhannu ac yn addasu eu syniadau drwy drafod. Gelwir y cyfwelydd yn aml yn gymedrolwr, sy'n gyfrifol am arwain y grŵp drwy gyfres o destunau trafod. Bydd ychydig o strwythur o ran bod gan y cymedrolwr amlinelliad a rhai cwestiynau enghreifftiol i ddechrau'r ymchwil.

Mantais y dull grŵp ffocws yw ei fod yn gymharol rad ac ymarferol. Gellir trefnu cynnal grwpiau ffocws mewn clybiau ac ysgolion neu mewn sefydliadau. Ceir llawer o fanylion o'r rhyngweithio rhwng y grŵp oherwydd gall un person annog rhywun arall i wneud sylwadau neu fynegi barn. Cyfwelir nifer o bobl yn yr un amser ag y gellid cyfweld un person mewn dyfnder. Weithiau, gwneir cofnod o'r cyfweliad ar fideo fel y gall y dadansoddiad terfynol gymryd ystyriaeth o symudiadau ac ystumiau na sylwodd y cymedrolwr arnynt. Nid yw grwpiau ffocws yn golygu cyfweld yn unig; mae chwarae rôl yn arbennig o boblogaidd gyda phlant.

Mae problem gyda grwpiau ffocws o ran bod aelod cryf yn gallu effeithio ar y canlyniadau wrth i ogwydd y cyfwelydd fod yn ffactor, a'r atebwyr yn dweud beth maent yn teimlo mae'r cymedrolwr eisiau iddynt ddweud, yn hytrach na beth maent yn teimlo mewn gwirionedd. Mae seicolegwyr wedi edrych ar ddeinameg grwpiau ac yn gweld bod pobl yn tueddu i symud eu gwir farn tuag at farn y grŵp. Am y rheswm hwn, nid yw'r bobl a wahoddir i grwpiau ffocws fel arfer yn adnabod ei gilydd cyn y cyfarfod. Anaml iawn y mae grwpiau ffocws ar hap; maent yn fwy tebygol o fod yn samplau cwota neu fwriadus felly ni ellir dweud eu bod ar hap ac efallai bod amheuaeth am eu cynrychioldeb. Ychydig o brosiectau ymchwil sy'n dibynnu ar grwpiau ffocws yn unig. Tueddir i'w defnyddio yn ychwanegol at gyfweliadau mwy confensiynol. Defnyddir nifer o grwpiau o wahanol gyfansoddiad fel arfer.

## Cwestiynau

1. Beth yw grŵp ffocws?
2. Sut mae grwpiau ffocws yn gweithio?
3. Pryd fyddai'n briodol defnyddio grŵp ffocws?
4. Beth yw'r cyfyngiadau ar ddefnyddioldeb grŵp ffocws?

## Allweddeiriau

- Gogwydd cyfwelydd - nodweddion y cyfwelydd yn effeithio ar ansawdd y data.
- Grŵp ffocws - cyfweld mwy nag un person ar y tro.
- Cyfweliad grŵp - enw arall ar grŵp ffocws.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Sgiliau ymchwil)

## Trefnu sefyllfa gyfweld

### Bwledi

- Bydd atebwyr yn fwy parod i siarad os ydynt wedi ymlacio.
- Ni ddylai'r amodau ble cynhelir y cyfweliadau fod yn ymosodol.
- Mae'n ddoeth i ymchwilwyr gadw ychydig o bellter oddi wrth y sefyllfa ymchwil.
- Gall ymatebion amrywio yn ôl ansawdd y cwestiynau.
- Gall y cyfwelydd effeithio ar yr ymchwil.

### Testun

Er mwyn i gyfweliadau lwyddo, rhaid i'r cyfwelydd/cyfwelai ymlacio. Mae Barker, yn ei hastudiaethau o'r Moonies, yn disgrifio'r broses hon yn ofalus. Roedd hi'n ceisio gwneud ei gorau glas i gael ei chyfwelai i ymlacio a gwneud iddynt deimlo'n hapus gyda'r sefyllfa. Gwnaed hyn wrth osod yr ystafell yn ofalus. Roedd angen iddi osgoi creu sefyllfa ymosodol neu anodd mewn unrhyw ffordd. Mae hefyd yn bwysig i gyfwelydd baratoi'n dda, sy'n gofyn am gryn waith trefnu a chynllunio. Mae cyfweliadau yn cymryd cryn dipyn o amser, ac os bydd angen ailadrodd cyfweliadau, yna mae'n bwysig bod y cyfwelai yn teimlo bod yr amser a dreuliwyd yn y cyfweliad gwreiddiol yn ddigon gwerthfawr i'w ailadrodd.

Mae angen cynllunio'r cwestiynau neu'r pynciau i'w trafod eu hunain yn ofalus. Gall cwestiynau fod yn 'agored' neu'n 'gaeedig.' Mae cwestiynau caeedig yn cynnig atebion ond mae angen datblygu ar gwestiynau agored. Mae'n bwysig annog y cyfwelai i fod yn agored, felly rhaid i'r cyfwelydd osgoi cwestiynau y gellir eu hateb gyda 'ie' neu 'na.' Gellir gofyn cwestiynau mewn mwy nag un fformat, ac weithiau bydd caniatáu distawrwydd yn ddigon i ennyn ymateb.

Gall materion moesegol difrifol fod ynghlwm â chyfweliadau. Yn ei hastudiaeth yn 2003 o bobl ifanc gwyn dosbarth gweithiol a chyflogaeth, bu Linda McDowell yn cyfweld nifer o fechgyn o ardaloedd difreintiedig. Yn Sheffield cynhaliodd y cyfweliadau mewn llefydd cyhoeddus megis siopau prydau parod. Wrth gyfweld yng Nghaergrawnt, defnyddiodd ei chegin ei hun i gynnal y cyfweliadau. Wrth edrych yn ôl, gwelodd bod peryglon difrifol o wneud hyn, er nad oedd hi byth ar ei phen ei hun yn y tŷ gyda'r atebwyr a'u bod hwythau dros 16 oed ac wedi cael caniatâd eu rhieni.

Cydnabyddir y gall y cyfwelydd effeithio ar ansawdd y data a gesglir gan y dull hwn. Gelwir hyn yn ogwydd y cyfwelydd. Er enghraifft, mae llawer o astudiaethau o leiafrifoedd ethnig yn defnyddio cyfwelwyr o'r gymuned honno oherwydd bod ganddynt ddealltwriaeth o'i gilydd. Yn astudiaeth Carl Hylton o Black Families Talking (1997), defnyddiwyd cyfelwyr o dras Garibïaidd Affricanaidd a De Ddwyrain Asia a fyddai â'r un meddylfryd a'r un cefndir diwylliannol â'r sampl.

Amrywiadau ar y dechneg gyfweld

Defnyddiodd yr Offending, Crime and Justice Survey (2003) amrywiaeth o dechnegau cyfweld gan gynnwys cyfweld drwy gymorth cyfrifiadur. Defnyddiwyd tri dull sylfaenol:

1. Cyfweld personol drwy gymorth cyfrifiadur (CAPI): Mae'r cyfwelydd yn darllen y cwestiynau a mewnbynnir yr ymatebion i mewn i liniadur.

© CBAC / WJEC 2015

2. Hunan gyfweld drwy gymorth cyfrifiadur (CASI): Mae'r atebwr yn darllen y cwestiynau ar liniadur ac yn mewnbynnu ei (h)atebion ei hun.
3. Hunan gyfweld clywedol drwy gymorth cyfrifiadur (A-CASI): gall yr atebwr wrando ar gwestiynau ar glustffonau. Roedd hyn yn gymorth i atebwyr ag anawsterau darllen i gymryd rhan yn yr arolwg. Roedd hyn yn bwysig iawn oherwydd bod llythrennedd llawer o droseddwyr ifanc yn wan.

### Cwestiynau

1. Pam ei fod yn bwysig fod y cyfwelai wedi ymlacio yn ystod y cyfweliad?
2. Pa ffactorau all effeithio ar ansawdd y cyfweliad?
3. Beth yw gogwydd cyfwelydd?
4. Sut gellir osgoi gogwydd cyfwelydd?
5. Pa faterion moesegol a gododd wrth i McDowell wahodd atebwyr i'w chartref ei hun?
6. Beth oedd manteision amrywio'r technegau cyfweld wrth gynnal yr arolwg ar drosedd yn 2003?

### Allweddeiriau

- Cwestiynau agored - gall yr atebwr ateb mewn unrhyw ffordd sy'n briodol.
- Cwestiynau caeedig - mae'r atebwr yn dewis o nifer o atebion sydd wedi'u paratoi o flaen llaw.
- Gogwydd cyfwelydd - nodweddion y cyfwelydd yn effeithio ar ansawdd y data.
- Moesegol - gallai'r atebwr neu'r ymchwilydd gael niwed.

## Cryfderau Cyfweliadau

### Bwledi

- Mae yma gyfle i ddatblygu perthynas gyda'r atebwr.
- Maent yn fwy tebygol o gynhyrchu data dilys.
- Maent yn fwy addas ar gyfer darganfod ystyron, gwerthoedd, agweddau barn a chredoau.
- Mae cyfweliadau yn gallu bod yn hyblyg ac anffurfiol ac felly yn annog y cyfwelai i siarad yn agored.

### Testun

Mae cyfweliadau yn rhoi gwybodaeth fanwl i ni o safbwynt yr atebwr. Yn aml, geiriau ac iaith y cyfwelai sydd fwyaf diddorol mewn ymchwil. Mae cyfweliad yn ddull effeithiol i ddarganfod sut mae cyfwelai yn meddwl ac yn teimlo am bethau.

Mae'r raddfa ymateb yn uwch nag ydynt i holiaduron post. Mae'n bosib i'r cyfwelwyr egluro ystyr y cwestiynau a gofyn am fanylion pellach os oes angen. Mae unrhyw un sydd yn cael trafferthion darllen neu ysgrifennu yn gallu cael eu cynnwys yn y sampl.

Mae yma gyfle i ddatblygu perthynas ('rapport') ac ymddiriedaeth rhwng y cyfwelydd a'r atebwr ac felly mae yna fwy o siawns o gael atebion gonest a dilys.

Yn ei astudiaeth o ddiwylliant 'Goths', bu Hodkinson (2002) gyfweld nifer fawr o bobl wyneb yn wyneb, a theimlodd bod ei astudiaeth wedi elwa o ddyfnder a dilysrwydd

oherwydd bod ef ei hun yn dilyn diwylliant y 'Goths' ac yn aelod ei hun. Roedd y cyfweliadau yn llifo'n rhwydd felly. Nid oedd ei holiaduron drwy'r post ac ar e-bost yr un mor llwyddianus.

Mae cyfweliadau yn addas ar gyfer pynciau sensitif ac mae yma fwy o gyfle i fynegi eu safbwyntiau eu hunain. Maent yn fwy tebygol o gynhyrchu data dilys. Mae yma fwy o fanylder. Maent yn addas ar gyfer darganfod ystyron, gwerthoedd, agweddau, barn a chredoau. Bu Duffy et al (2008) gyfweld 182 o bobl ifanc oedd wedi defnyddio canabis neu wedi gwerthu canabis yn y chwe mis diwethaf. Roedd yr atebwyr mor ifanc â 12 oed mewn rhai achosion. Roedd yn sampl anghynrychioladol. Roedd y cyfweliadau yn lled-strwythuredig ac roedd yr ymchwil yn defnyddio dyfyniadau o'r cyfweliadau i egluro'r casgliadau. Mae hyn yn cyfoethogi'r canfyddiadau a gyflwynir hefyd ar ffurf ystadegol a graffigol. Er bod rhai o'r atebwyr yn honni eu bod wedi rhoi'r gorau i werthu cyffuriau, roedd yn anodd gwybod a oeddent yn dweud y gwir ai peidio. Roedd yr ymchwilwyr o'r farn argraffiadol bod yr atebwyr yn dweud y gwir mewn gwirionedd.

Mae cyfweliadau yn hyblyg ac anffurfiol ac felly'n caniatáu i'r ymchwilydd ymateb i'r hyn sy'n cael ei ddweud. Yn astudiaeth Frosh et al's (2002) o Young Masculinities, defnyddiodd y tîm ymchwilio'r hyn a elwir yn arddull gyfweld glinigol. Gyda'r dull hwn, cynhaliwyd cyfweliadau dwbl. Roedd y cyfweliad cyntaf yn annog myfyrio ar bethau, a defnyddiwyd ail gyfweliad i archwilio bylchau yn y cyfweliad cyntaf. Anogwyd yr atebwr i fyfyrio ar y broses gyfweld ei hun. Hefyd, roedd y cyfwelydd yn casglu nodiadau ar bob cyfwelai, gan wneud cofnod o'i ymateb personol i'r cyfwelai. Disgrifiodd un o'i samplau fel 'hunan gyfiawn, elitydd a phlagus.' Roedd yn hoffi eraill, er eu bod yn mynegi barn a oedd yn annerbyniol iddo ef yn bersonol.

Mae cyfweliadau ar y rhyngrwyd yn dod yn fwyfwy poblogaidd oherwydd eu bod yn caniatáu holi ystod ddaearyddol eangach o bobl, a gallant hefyd fod dipyn yn rhatach na chyfweld wyneb yn wyneb.

### Cwestiynau

1. Beth yw cryfderau cyfweliadau? Eglurwch gan gyfeirio'n benodol at rai o'r enghreifftiau rydych wedi darllen amdanynt.

### Allweddeiriau

- Dilys - Mae hwn yn cyfeirio at y gwirionedd a chywirdeb disgrifiad neu fesuriad. Mae data yn ddilys os yw'n rhoi darlun cywir o ffordd o
- fyw neu fesuriad cywir o rywbeth. Mae rhai ymchwilwyr yn dadlau bod data ansoddol gyda'i ddyfnder a'i gyfoethogrwydd yn fwy tebygol o ddarparu llun dilys o fywyd cymdeithasol na
- data meintiol.

## Gwendidau Cyfweliadau

### Bwledi

- Mae cyfweliadau yn gallu bod yn ddrud.
- Mae'n anodd cymharu cyfweliadau, yn arbennig rhai distrwythur.

© CBAC / WJEC 2015

- Mae dibynadwyedd hefyd yn broblem gyda chyfweliadau distrwythur.

### Testun

Mae cyfweliadau yn costio'n ddrud i'w cynnal, oherwydd mae'r cyfwelwyr yn cael eu talu. Gall hefyd gymryd amser i drefnu rhai cyfweliadau, er enghraifft, gall fod yn anodd trefnu cyfweliadau gyda phobl brysur. Yn astudiaeth Innes a Scott o famau ar gwrs dychwelyd i'r gwaith, gwelwyd bod trefnu cyfarfodydd yn hynod anodd oherwydd bod gan y mamau blant ifanc yn dibynnu arnynt, bod angen iddynt drefnu gofal plant, a threfnu a thalu am drafnidiaeth cyhoeddus. Golyga hyn bod y sampl yn aml yn fach a ddim yn gynrychioladol.

Mae'n bosib cael problem gyda gogwydd cyfwelydd. Fe all y cyfwelydd, yn fwriadol neu'n anfwriadol, arwain yr atebwr i ateb mewn ffordd arbennig. Weithiau, mae'r atebwr eisiau i'r cyfwelydd ei weld yn bositif, ac felly mae'n bosib iddo beidio â datgelu'r gwirionedd yn llawn. Bydd hyn felly yn cael effaith negyddol ar ddilysrwydd y data. Mae pobl yn dueddol o fod eisiau plesio eraill. Mae'n gwrtais ddweud wrth bobl yn union beth maen nhw eisiau ei glywed, mae'n rhan o ryngweithio cymdeithasol arferol. Felly, gall y cyfweliad fod yn annilys gan fod yr atebwr yn rhoi'r wybodaeth maen nhw yn meddwl mae'r ymchwilydd am ei derbyn yn hytrach na'r gwirionedd. Os yw'r cyfwelydd a'r cyfwelai yn debyg iawn o ran nodweddion personol, bydd gogwydd positif iawn at yr wybodaeth.

Gall cyfweliadau fod yn fygythiol i rai pobl. Gall y broses ei hun arwain at broblemau, yn enwedig i'r rheiny sy'n teimlo dan fygythiad gan bobl dosbarth canol yn gofyn cwestiynau treiddiol am eu bywyd. Mae cyfwelwyr ffeministaidd yn credu y dylai'r broses ymchwil rymuso merched a thynnu eu sylw at eu gwir sefyllfa. Dadleua Millen (1997) y gallai hyn fod yn dacteg beryg i rai merched, oherwydd gallai gael gwared â'u strategaethau ar gyfer delio gyda rhagfarn a gwahaniaethu. Yn yr un modd, gallai ymchwil i bobl dan anfantais a phobl fregus godi eu gobeithion y gallai'r ymchwil gael effaith ar eu bywyd. Mae hyn yn fater moesegol difrifol i gyfwelwyr.

Mae'n anos cymharu cyfweliadau, yn arbennig rhai distrwythur, ac felly rhaid bod yn ofalus wrth gyffredinoli. Dylai cyfwelwyr ofyn am ganiatâd cyn cadw tapiau o gyfweliadau, a gall trawsgrifio'r rhain fod yn dasg ddigon anodd ynddi'i hun. Os defnyddir tîm o ymchwilwyr, yna gall y cyfwelwyr drawsgrifio eu nodiadau mewn gwahanol ffyrdd, felly mae'n anodd iawn gwneud cymariaethau. Mae casglu'r data a dadansoddi patrymau yn dasg gymhleth a diflas.

Mae dibynadwyedd hefyd yn broblem gyda chyfweliadau distrwythur - nid oes modd ail greu'r un sefyllfa na ail ofyn yr un cwestiynau.

### Cwestiynau

1. Beth yw gwendidau cyfweliadau? Cyfeiriwch at enghreifftiau o ymchwil.

### Allweddeiriau

- Gogwydd cyfwelydd - y cyfwelydd yn effeithio ymateb y cyfwelai.

## Beth yw pwrpas arsylwi cymdeithasegol?

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Sgiliau ymchwil)

## Rhagymadrodd

### Bwledi

- Wrth ddefnyddio arsylwi cyfranogol, mae'r cymdeithasegwr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dyddiol y grŵp astudio a sylwi beth maent yn ei ddweud a gwneud.
- Mae yna nifer o broblemau yn gallu codi wrth ddefnyddio'r dull hwn.

### Testun

Sut ydym yn darganfod gwybodaeth am ffordd o fyw grŵp o bobl?

Un ffordd yw ymuno â nhw - cymryd rhan yn eu gweithgareddau dyddiol a sylwi beth maent yn ei ddweud a gwneud. Gelwir y dull ymchwil hwn yn Arsylwi Cyfranogol.

Cafodd ei ddefnyddio gan John Howard Griffin (1960), newyddiadurwr gwyn a newidiodd liw ei groen yn ddu er mwyn darganfod drosto'i hun sut brofiad oedd byw fel dyn du yn nhaleithiau de America yn niwedd y 50au. Cafodd ei ddefnyddio gan yr anthropolegydd Bronislaw Malinowski a dreuliodd sawl blwyddyn yn astudio'r "Trobriand Islanders" yn New Guinea. Arsylwodd fanylion personol iawn o'u bywydau i gasglu data ar gyfer "Sex and Repression in Savage Society" (1927).

Mae arsylwi o'r math hwn yn golygu bod yr ymchwilydd yn dod yn aelod o'r grŵp, fel ei fod o/ hi yn gallu astudio gweithredoedd cymdeithasol yn eu cyd-destun naturiol, fel maent yn digwydd. Gallai hyn amrywio o ymuno â grŵp o gleifion â nam meddyliol mewn ysbyty, neu fynd gyda giang ifanc i glybiau/caffis neu arsylwi ymddygiad disgybl/athro yn yr ystafell ddosbarth.

Mae arsylwi yn ceisio cael llun manwl o realiti cymdeithasol a brofir gan y bobl/actorion. Y bwriad yw gweld y byd drwy lygaid y rhai rydych yn eu hastudio. Sut maent yn gwneud synnwyr o amgylchedd yr ysbyty, y sgarmes/ffeit ar nos Wener, neu'r ffrae gan yr athro? Rhaid i'r ymchwilydd geisio cael dealltwriaeth o weithred gymdeithasol heb wthio ei ddehongliadau a'i werthoedd ei hun arno.
Rhaid i ymchwilydd sy'n defnyddio'r dull hwn benderfynu a yw'n bwriadu mabwysiadu safbwynt -

Cuddiedig ("covert") - ni fydd y deiliaid yn gwybod gwir enw a phwrpas yr ymchwilydd. Yn aml, mae hyn yn golygu bod rhaid i'r ymchwilydd fabwysiadu hunaniaeth ffals e.e. James Patrick yn "A Glasgow Gang Observed" - disgrifiodd ei hun i'r giang fel "haufer" Tim h.y. "ffrind gorau".

neu

Agored ("overt") - bydd yr ymchwilydd yn datgelu ei hun ond weithiau yn cuddio gwir natur yr ymchwil. Er enghraifft, ceisiodd ymchwil Gann, "The Levitowners" ymchwilio i effaith bywyd trefol newydd. Dywedodd wrth bobl Levitown mai pwrpas ei ymchwil oedd astudio'r gymuned o safbwynt hanesyddol.

Mae "A Glasgow Gang Observed" gan James Patrick, a "Tearoom Trade" gan Laud Humphreys yn defnyddio arsylwi cyfranogol cudd i astudio "grwpiau gwyredig" ("deviant

© CBAC / WJEC 2015

groups"), na fyddent o bosib wedi cael mynediad iddynt fel arall. Mae ymchwil Humphreys yn dangos sut y gellir gwneud arsylwi cyfranogol yn fwy systematig ac o'r herwydd yn fwy gwrthrychol drwy ddefnyddio amserlen arsylwi ("observation schedule").

Mae arsylwi Patrick yn llai strwythuredig ond yn rhoi syniad clir o'r math o ddata ansoddol y mae arsylwi cyfranogol yn gallu ei gynhyrchu.

Mae ymchwil Eileen Barker "The Making of a Moonie - Choice or Brainwashing?" yn defnyddio arsylwi agored gyda dulliau eraill o ymchwil ac yn dangos yn glir manteision ac anfanteision arsylwi agored yn hytrach nag arsylwi cuddiedig. Mae'r tair astudiaeth yn dangos y problemau mae arsyllwr cyfranogol yn cael i fabwysiadu rôl, yn ogystal ag adnabod cryfderau a gwendidau'r dull ymchwil hwn.

### Cwestiynau

1. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng arsyllu cuddiedig ac arsyllu agored?
2. Darganfyddwch mwy am yr enghreifftiau o ymchwil sy'n cael eu nodi yn y testun. Beth oedd manteision ac anfanteision arsylwi?

### Allweddeiriau

- Arsylwi cuddiedig - ni fydd y deiliaid yn gwybod gwir enw a phwrpas yr ymchwilydd.
- Arsylwi agored - bydd yr ymchwilydd yn datgelu ei hun ond weithiau yn cuddio gwir natur yr ymchwil.

## Ethnograffeg

### Bwledi

- Ethnograffeg yw astudio pobl mewn grwpiau bach.
- Mae gan ethnograffeg anawsterau ymarferol.
- Mae llawer o faterion moesegol yn ymwneud ag ethnograffeg.

### Testun

Ethnograffeg yw dull ymchwil sy'n seiliedig ar arsylwi pobl yn eu hamgylchedd naturiol. Drwy ethnograffeg, rydym yn ceisio gweld y byd o safbwynt eraill ac yn ceisio gweld patrymau yn eu hymddygiad. Gwelir bod arolygu pobl yn ofer, ac felly gwneir ymdrech i geisio deall eu byd. Mae ethnograffeg yn ceisio cael mewnwelediad drwy set o weithdrefnau systematig. Cesglir nodiadau, lluniau, tapiau fideo a sain. Bydd yr ymchwilwyr yn cynnal cyfweliadau distrwythur a chymryd rhan yng ngweithgareddau eu grwpiau sampl er mwyn deall yr ystyr mae'r grwpiau wedi'i greu i'w hunain.

Un enghraifft o ethnograffeg adnabyddus yn ddiweddar oedd astudiaeth Tony Sewell (1997) o fechgyn du mewn ysgol. Uniaethodd Sewell â'r bechgyn gan gymysgu gyda nhw'n gymdeithasol. Dywedodd fod y broses hon yn gadael iddo 'ymlacio'. Er hyn, roedd hefyd yn oedolyn yn cymysgu gyda bechgyn oed ysgol. Arsylwodd a chyfweld, ac yna dychwelodd i ail gyfweld er mwyn i'w atebwyr fyfyrio ar yr hyn roeddent wedi'i ddweud.

© CBAC / WJEC 2015

Roedd yn ymwybodol o'r perygl o uniaethu gormod gyda'r bechgyn gan fod yntau o gefndir tebyg, ond er hynny gwelodd fod 100% o'r athrawon yn yr ysgol yn hiliol, gan gynnwys yr athro Du a'r rheiny o dras Asiaidd. Nod ei astudiaeth oedd edrych ar ysgolion fel cyfrwng gormes, a sut mae bechgyn yn ymateb i hyn. Mae hyn yn dangos perygl ethnograffeg; mae'n anodd cynnal gwrthrychedd. Mae Sewell bellach wedi newid ei farn, ond mae ei waith yn dal i fod yn ddylanwadol a dyfynnir ohono'n aml.

Cyhoeddodd Valerie Hey ethnograffeg o gyfeillgarwch merched (1997) yn seiliedig ar waith maes yn yr 1980au. Teimlai nad oedd digon o ymchwil wedi'i wneud i ferched a chyfeillgarwch yn gyffredinol. Roedd hi eisiau ymchwilio i berthynas merched ifanc â'i gilydd. Datblygodd ei thechnegau wrth iddi gynnal yr ymchwil ac mae hi'n gymeriad arwyddocaol yn yr astudiaeth ei hun wrth iddi egluro ei dulliau. Defnyddiodd Hey amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys cymdeithasu gyda'r merched, a hyd yn oed chwarae triwant gyda nhw. Byddai hi'n cyfnewid amser ac arian, oedd yn gyfaddawd moesegol gredai hi. Un o'i ffynonellau data oedd y nodiadau oedd merched yn ysgrifennu at ei gilydd yn y dosbarth.

### Cwestiynau

1. Beth yw ethnograffeg?
2. Beth yw'r anawsterau ymarferol gydag ethnograffeg?
3. Beth yw'r materion moesegol gydag ethnograffeg?

### Allweddeiriau

- Ethnograffeg - astudio grwpiau bach o bobl yn fanwl.

## Ennill Mynediad

### Bwledi

- Ni all arsylwi cyfranogol weithio os nad yw'r ymchwilydd yn ennill mynediad i'r grŵp ac yn cael rhyw fath o dderbyniad gan ei aelodau. Gall hyn fod yn anodd.
- Mae llawer o grwpiau nad ydynt eisiau cael eu hastudio, yn arbennig y rhai hynny sy'n gwneud gweithgareddau a ystyrir yn wyrdroëdig neu'n droseddol gan y gymdeithas ehangach.
- Mae pobl yn aml yn gwrthod rhai o'r tu allan sy'n fusneslyd os nad ydynt yn cael eu cyflwyno gan aelod ffyddlon o'r grŵp.

### Testun

Ni all arsylwi cyfranogol weithio os nad yw'r ymchwilydd yn ennill mynediad i'r grŵp ac yn cael rhyw fath o dderbyniad gan ei aelodau.
Gall hyn fod yn anodd. Mae llawer o grwpiau nad ydynt eisiau cael eu hastudio, yn arbennig y rhai hynny sy'n gwneud gweithgareddau a ystyrir yn wyrdroëdig neu'n droseddol gan y gymdeithas ehangach.
Serch hynny, fel mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos, mae'n aml yn bosibl cael mynediad i grwpiau caeedig hyd yn oed.

Ar gyfer ei ymchwil i ryw achlysurol ("casual sex") rhwng dynion mewn toiledau cyhoeddus - "The Tearoom Trade" - mae Humphreys (1970) yn cymryd y rôl o wyliwr

© CBAC / WJEC 2015

("lookout"). Wrth gymryd y rôl dderbyniol hon llwyddodd i ennill ymddiriedaeth y rhai oedd yn eu gwylio heb orfod ymuno yn eu gweithgareddau rhywiol.

Ar achlysuron eraill rhaid i ymchwilwyr gymryd rhan fwy uniongyrchol er mwyn ennill mynediad. Darganfu Festinger (1964) mai'r unig ffordd i arsylwi sect grefyddol fechan oedd ffugio aelodaeth a dod yn aelod.

Mae'r enghreifftiau uchod yn dangos ymchwil cuddiedig ("covert research") lle cedwir enw a phwrpas yr ymchwilydd yn gudd. Mae gan ymchwil agored ("overt research"), lle mae'r rhai sy'n cael eu hastudio yn ymwybodol o rôl a phwrpas yr ymchwilydd, ei phroblemau ei hun o fynediad a derbyniad.

Mae pobl yn aml yn gwrthod rhai o'r tu allan sy'n fusneslyd os nad ydynt yn cael eu cyflwyno gan aelod ffyddlon o'r grŵp. Digwyddodd hyn yn astudiaeth Judith Okely (1983) o sipsiwn teithiol. Roedd cael mynediad yn broses hir ac anodd tan iddi ennill cyfeillgarwch ac ymddiriedaeth teulu a oedd wedi profi marwolaeth yn ddiweddar. Llwyddodd i gael mynediad i weddill y grŵp oherwydd y berthynas sympathetig a ddatblygodd gydag aelodau o'r teulu hwn.

Mae'r enghreifftiau canlynol hefyd yn cyfeirio at broblemau mynediad. Gall fod yn anodd cael mynediad at grwpiau i astudio'r math o fanylion mae arsylwyr aml eu hangen. Bu'n rhaid i Hey ddechrau ei hastudiaeth ffeministaidd eto oherwydd gelyniaeth gan fechgyn mewn un ysgol. Aeth hi i ysgol i ferched yn unig. Hefyd, roedd hi eisiau astudio merched iau, ond fe'i gwrthodwyd ganddynt, felly gweithiodd gyda grŵp hŷn. Yn ei hastudiaeth o ferched Du, edrychodd Heidi Safia Mirza ar ddwy ysgol a gweithiodd fel athrawes yn un ohonynt; drwy wneud hyn cafodd fynediad at gofnodion disgyblion, ond ni fyddai hi wedi cael yr un lefel o fynediad at y disgyblion eu hunain fel ymchwilydd oedd yn fwy annibynnol. Yn ei astudiaeth o bobl dosbarth gweithiol yn Rotherham, roedd gan Charlesworth (2000) y fantais o rannu cefndir â hwy.

Cysylltodd â llawer drwy ei gysylltiadau cymdeithasol mewn tafarndai. Gwrthododd lawer o'i ffrindiau gymryd rhan yn yr astudiaeth oherwydd bod Charlesworth yn cymryd arno i fod yn berson naïf ac ychydig yn ddwl, oedd yn codi cywilydd ar ei atebwyr. Gwelodd fod pobl yn anfodlon siarad ag ef, hyn yn oed mewn sefyllfaoedd anffurfiol megis yn y ganolfan hamdden.

Wrth arsylwi mewn ysgolion, gwelai Mac an Ghaill, bod yr athrawon yn cymryd yn ganiataol ei fod ar ochr y bechgyn yr oedd yn eu hastudio, ac roedd y bechgyn yn meddwl mai athro ydoedd. Nid oedd y naill ochr na'r llall yn gwbl onest nes iddo setlo yn yr ysgol. Er hynny, rhoddodd y broblem hon ddarlun iddo o'r berthynas bŵer yn yr ysgol.

## Cwestiynau

1. Beth yw'r problemau gydag ennill mynediad i'r grŵp astudio?

## Allweddeiriau

- Arsylwi cuddiedig - ni fydd y deiliaid yn gwybod gwir enw a phwrpas yr ymchwilydd.

© CBAC / WJEC 2015

- Arsylwi agored - bydd yr ymchwilydd yn datgelu ei hun ond weithiau'n cuddio gwir natur yr ymchwil.

## Cynnal Ymchwil

### Bwledi

- Mae arsylwi cyfranogol yn golygu gwylio a gwrando.
- Gan mai'r nôd yw arsylwi pobl yn eu hamgylchedd naturiol, rhaid i'r ymchwilydd beidio â tharfu ar yr amgylchedd.
- Nid yw gwylio a gwrando bob amser yn addas i bwrpas yr ymchwilydd. Weithiau rhaid i'r arsylwr cyfranogol gymryd rôl fwy gweithredol er mwyn cael gwybodaeth.
- Mae recordio darganfyddiadau arsylwi cyfranogol yn gallu bod yn broblem, yn arbennig pan fydd yr ymchwil yn un cuddiedig.
- Mae ymchwilwyr yn aml yn cael eu torri i ffwrdd o gefnogaeth naturiol teulu a ffrindiau, weithiau yn byw bywyd dwbl mewn amgylchedd dieithr.

### Testun

Mae arsylwi cyfranogol yn golygu gwylio a gwrando.

Y rheol gyffredinol yw "mynd gyda'r lli" yn hytrach na dylanwadu ar ymddygiad pobl. Gan mai'r nod yw arsylwi pobl yn eu hamgylchedd naturiol, rhaid i'r ymchwilydd beidio â tharfu ar yr amgylchedd. Awgrymir toddi i'r cefndir, er nad yw hyn yn bosibl bob amser. Er enghraifft, gall arsylwr cyfranogol mewn ystafell ddosbarth sefyll allan yn amlwg. Gallai hyn arwain at wers "artiffisial". Serch hynny, mae'n syndod mor fuan gall o/hi fod yn anweledig neu hyd yn oed ei gymryd yn ganiataol.
Nid yw gwylio a gwrando bob amser yn addas i bwrpas yr ymchwilydd. Weithiau rhaid i'r arsylwr cyfranogol gymryd rôl fwy gweithredol er mwyn cael gwybodaeth. Mewn achosion o'r fath y mae'r llinell rhwng arsylwi cyfranogol a chyfweliadau distrwythur yn niwlog.

Mae llawer o arsylwi cyfranogol yn anffurfiol, heb ei gynllunio ac yn distrwythur - gall olygu "hongian o gwmpas". Yn ei astudiaeth o ladrata o'r dociau yn St.John's, Newfoundland, crwydrodd Mars (1982) o gwmpas y borthfa a'r cytiau yn sgwrsio gyda'r docwyr, a hongian o gwmpas y bariau yn yfed gyda nhw gyda'r nos.
Mae recordio darganfyddiadau arsylwi cyfranogol yn gallu bod yn broblem, yn arbennig pan mae'r ymchwil yn un cuddiedig ("covert").

Mae'r ymchwilwyr fel arfer yn cofnodi darganfyddiadau'r dydd bob noson tra bydd y digwyddiadau yn dal yn fyw yn eu cof. Mewn rhai achosion mae'r toiled wedi bod yn fan defnyddiol i wneud nodiadau byr cyn eu hysgrifennu'n llawn ymhellach ymlaen (Festinger 1964, Ditton 1977). Serch hynny, mae llawer yn dibynnu ar gof yr ymchwilydd, sy'n gallu bod yn ddetholedig ac felly gellir effeithio ar ddilysrwydd y data.
Gall arsylwi cyfranogol fod yn broses hir gyda blwyddyn neu fwy yn cael ei threulio "yn y maes". Gall olygu ffyddlondeb, egni a dewrder. Mae ymchwilwyr yn aml yn cael eu torri i ffwrdd o gefnogaeth naturiol teulu a ffrindiau, weithiau yn byw bywyd dwbl mewn amgylchedd dieithr. Ac fe all arsylwi cyfranogol fod yn beryglus. Er enghraifft, cafodd Haralambos (1994) ei fygwth gyda gynnau ar fwy nac un achlysur yn ystod ei ymchwil ar ochr ddeheuol Chicago. Cafodd Ken Price, cymdeithasegydd o India'r Gorllewin ei lofruddio wrth ymchwilio 'yardy gangs' o Jamaica.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Sgiliau ymchwil)

## Cwestiynau

1. Beth yw'r problemau wrth arsylwi?

## Allweddeiriau

- Arsylwi cuddiedig - ni fydd y deiliaid yn gwybod gwir enw a phwrpas yr ymchwilydd.
- Arsylwi agored - bydd yr ymchwilydd yn datgelu ei hun ond weithiau yn cuddio gwir natur yr ymchwil.

## Cryfderau Arsylwi

### Bwledi

- Mae arsylwi yn gyfle i ymchwilwyr arsylwi pobl yn eu hamgylchfyd naturiol.
- Mae'n cael ei ystyried yn ddilys.
- Mae'r ymchwilydd yn gweld bywyd cymdeithasol o'r un persbectif â'r grŵp.
- Mae'n gallu creu perthynas agos ac felly yn rhoi mwy o gyfle i ddatgelu pethau na fyddai'n debygol o gael eu datgelu fel arall.

### Testun

Mae arsylwi yn gyfle i ymchwilwyr arsylwi pobl yn eu hamgylchfyd naturiol. Honnir bod astudiaeth drwy arsylwi yn fwy dilys nag arolygon, er gellir cwestiynu'r farn hon. Y ddadl yw y bydd pobl yn ymddwyn yn naturiol os cânt eu harsylwi mewn sefyllfaoedd naturiol. Gallant fod yn onest a gwneud fel y byddent yn arfer.

Yn amlwg, mae'r posibilrwydd o hyn yn lleihau gydag arsylwi agored anghyfranogol. Mae'n dechneg a ddefnyddir yn aml fel ffordd o asesu ansawdd gwaith athrawon.

Wrth arsyllu, honnir y gellir gweld pobl yn ymddwyn yn naturiol yn eu hamgylchedd eu hunain, felly mae hyn yn golygu y gallant ymlacio. Gelwir hyn yn ddilysrwydd ecolegol. Credir bod pobl yn fwy agored pan fyddant yn gyfforddus ac mewn amgylchedd naturiol.

Mae'n gyfle i gasglu gwybodaeth newydd a darganfod cyfeiriadau newydd. Gall ymchwilwyr weld patrymau yn ymddygiad pobl nad ydynt hwy eu hunain yn meddwl sy'n arwyddocaol neu'n bwysig. Datgelodd astudiaethau ffeministaidd cynnar er enghraifft, bod athrawon yn rhoi dros 70% o'u sylw i fechgyn yn y dosbarth, hyd yn oed pan roeddent yn meddwl eu bod wedi cywiro'r cydbwysedd, roedd y bechgyn yn dal yn cael mwy o sylw gan yr athrawon.

Wrth arsylwi gall yr ymchwilydd weld bywyd cymdeithasol o'r un persbectif â'r grŵp. Y term am hyn yw 'verstehen'. Mae'n gallu caniatáu i berthynas agos ddatblygu ac felly yn rhoi mwy o gyfle i ddatgelu pethau na fyddai'n debygol o gael eu datgelu fel arall.

Astudiodd Bourgois (1998) pobl ddigartref oedd yn gaeth i heroin yn San Francisco gan ddefnyddio dulliau ethnograffeg. Gwrthododd ddulliau arolwg oherwydd teimlai bod y data a gafwyd yn rhy amhenodol i fod o ddefnydd. Nid yw arolygon yn rhoi lle i gael dealltwriaeth agos, nac i feithrin ymddiriedaeth rhwng testun yr astudiaeth a'r ymchwilydd. Tuedda ethnograffeg i ddigwydd dros amser, ond mae arolygon yn cynnig

© CBAC / WJEC 2015

ciplun o farn person mewn cyfnod byr iawn. Mae hyn ynddo'i hun yn gwneud arsylwi yn fwy dilys.

Mae arsylwi felly'n gallu cynhyrchu data dilys gan ei bod yn anodd camarwain yr ymchwilydd, yn enwedig dros gyfnod o amser ac mae'r ymchwilydd yn gallu gweld agweddau ar fywyd cymdeithasol drosto'i hun.

### Cwestiynau

1. Beth yw cryfderau arsylwi?

### Allweddeiriau

- Dilysrwydd - Mae hwn yn cyfeirio at y gwirionedd a chywirdeb disgrifiad neu fesuriad. Mae data yn ddilys os yw'n rhoi darlun cywir o ffordd o fyw neu fesuriad cywir o rywbeth. Mae rhai ymchwilwyr yn dadlau bod data ansoddol gyda'i ddyfnder a'i gyfoethogrwydd yn fwy tebygol o ddarparu darlun dilys o fywyd cymdeithasol na
- data meintiol.
- 'Verstehen' - y gallu i ddeall bywyd cymdeithasol o safbwynt y rhai sy'n cael eu hastudio.

## Gwendidau Arsylwi

### Bwledi

- Mae cost bersonol yn gallu bod yn uchel i'r ymchwilydd.
- Mae'n gallu bod yn gostus o safbwynt amser ac arian.
- Mae'n gallu effeithio ar ymddygiad y rhai sy'n cael eu hymchwilio os ydynt yn gwybod eu bod yn cael eu gwylio.
- Mae hyn felly yn gallu effeithio ar ddilysrwydd.
- Mae'n anodd cael mynediad a meithrin ymddiriedaeth.

### Testun

Mae anawsterau ymarferol difrifol gydag ethnograffeg. Yn ei astudiaeth o Rotherham, bu rhaid i Charlesworth (2000) wneud nodiadau yn y dirgel neu gofio sgyrsiau ar ei gof. Gan fod ei sgyrsiau mewn tafarndai, efallai bod camgymeriadau. Mae'r rhan fwyaf o ethnograffegwyr yn cyfeirio at y symiau mawr o ddata a gasglant a'r anawsterau a gânt wrth gasglu nodiadau a rhoi trefn arnynt. Hefyd, mae'n gostus iawn cyflogi pobl i wylio eraill am gyfnod o amser. Mae'r rhan fwyaf o arsylwyr naill ai'n gweithio gyda'u testunau, neu maent yn fyfyrwyr eu hunain wrth gynnal yr ymchwil.
Mae'n anodd cael mynediad i'r sampl a meithrin ymddiriedaeth.

Unwaith i'r ymchwilydd gael mynediad gall ei bresenoldeb effeithio ar ymddygiad y rhai sy'n cael eu harsylwi os ydynt yn gwybod eu bod yn cael eu gwylio. Y term a ddefnyddir am hyn yw Effaith Hawthorne. Mae hyn felly yn gallu effeithio ar ddilysrwydd y data. Hefyd, mae maint y sampl fel arfer yn fach felly nid yw'n bosib cyffredinoli.

Mae'n anodd, os nad yn amhosib ail wneud yr un ymchwil neu ymchwil tebyg a'u cymharu. Nid yw arsylwi yn systematig ac mae hyn yn effeithio ar ddibynadwyedd. Mae hefyd problemau yn ymwneud â dehongli'r hyn sy'n cael ei arsylwi. Mae'r ffeminist adnabyddus

© CBAC / WJEC 2015

Stanworth yn sôn am ddigwyddiad pan enwodd yr athro'r holl fechgyn yn ei ddosbarth wedyn dweud 'dim ond merched oedd y gweddill.' Cymerwyd hyn fel tystiolaeth glir o rywiaeth ar ran yr athro ac mae'n ddyfyniad adnabyddus. Er hynny, mae'r un mor debygol bod yr athro yn gwneud hwyl ar draul Stanworth; roedd hi'n ffeminist oedd yn edrych am dystiolaeth o ragfarn o du dynion a gallai hi fod wedi disgwyl ychydig o brofocio. Mae'n anodd gwybod beth yw'r dehongliad cywir o'r digwyddiad; nid oedd trydydd person yno felly rhaid i ni dderbyn dehongliad yr ymchwilydd. Nid yw hyn bob tro yn ddibynadwy. Mae Sewell, er enghraifft, yn dehongli bod athrawesau sy'n ceisio rheoli bechgyn Du mewn ffordd ymosodol mewn ysgol ble ymosodwyd yn dreisgar ar athrawesau, yn dystiolaeth o hiliaeth. Gallai hyn fod yn fater gender yn hytrach na hiliaeth i'r merched, ond gwelai'r bechgyn hyn fel hiliaeth.

Y gwyn clasurol yn erbyn ethnograffeg ac arsylwi cyfranogol yw bod yr ymchwilydd yn dod 'yn frodor' ac yn gymaint rhan o'r grŵp fel na ellir bod yn ddigon gwrthrychol. Mae'r ymchwilydd yn rhannu golwg ar y byd gyda'r grŵp astudio fel nad yw'n gallu dehongli digwyddiadau yn glir rhagor. Mae'r ymchwilydd yn uniaethu gormod gyda'r grŵp ac yn colli synnwyr o gydbwysedd. Mae llai o ddilysrwydd felly.

Rhaid ystyried nifer o ffactorau moesegol - a ydy'n iawn gwylio rhywun heb eu caniatâd? Beth os bydd yr ymchwiliwr yn arsylwi ymddygiad sy'n droseddol?

Y materion moesegol allweddol y dylai unrhyw gymdeithasegwr ystyried wrth lunio ymchwil yw amddiffyn y sampl rhag niwed (corfforol a meddyliol), atal twyll, amddiffyn preifatrwydd a chael cydsyniad gwybodus. Byddwch wedi sylweddoli bod astudiaethau drwy arsylwi yn codi problemau moesegol neilltuol a chymhleth i ymchwilwyr ym mhob ystyriaeth. Yr hyn sy'n codi o arsyllu cuddiedig yw'r ffaith nad yw pobl yn gallu atal cydsyniad gwybodus os nad ydynt yn ymwybodol eu bod yn cael eu hastudio. Dyma a gododd gydag astudiaeth Laud Humphries o weithredoedd cyfunrhywiol yn The Tearoom Trade.

Hefyd, mae amheuaeth am gyfrinachedd. Ni ddatgelir enwau, ond os rhoddir digon o wybodaeth, gall fod yn bosibl adnabod yr atebwyr. Er enghraifft, mae Webster et al yn Poor Transitions, yn siarad am dref ddychmygol Kelby, ond mae'r disgrifiadau o Kelby a'r data a roddir ar gyfer y lleoliad yn golygu y gellir dyfalu'n deg iawn pa dref yw hi. Mae arsyllwyr cyfranogol sy'n edrych ar grwpiau o droseddwyr yn aml mewn sefyllfaoedd sy'n eu rhoi mewn perygl o dorri'r gyfraith, os nad ymddwyn mewn ffordd droseddol. Hefyd, mae ymchwilwyr wedi cael eu hanafu a'u lladd wrth roi sylw i faterion sensitif. Efallai bydd rhaid i ymchwilwyr ddweud celwydd hefyd a thwyllo'r cyfranogwyr. Efallai bydd hyd yn oed angen iddynt guddio eu gwir fwriadau. Gallai hyn fod yn broblem i'r ymchwilydd sy'n bod yn gyfaill i aelodau o'r grŵp sampl.

## Cwestiynau

1. Beth yw gwendidau arsyllu cyfranogol?

## Allweddeiriau

- Dilysrwydd - Mae hwn yn cyfeirio at y gwirionedd a chywirdeb disgrifiad neu fesuriad. Mae data yn ddilys os yw'n rhoi darlun cywir o ffordd o

© CBAC / WJEC 2015

- fyw neu fesuriad cywir o rywbeth. Mae rhai ymchwilwyr yn dadlau bod data ansoddol gyda'i ddyfnder a'i gyfoethogrwydd yn fwy tebygol o ddarparu darlun dilys o fywyd cymdeithasol na
- data meintiol.
- Dibynadwyedd - Mae dulliau ymchwil a data yn ddibynadwy pan mae ymchwilwyr gwahanol sy'n defnyddio'r un dulliau yn cael canlyniadau tebyg e.e. os yw'r un holiadur a'r un drefn samplu yn cynhyrchu canlyniadau tebyg ar ôl eu defnyddio gan ymchwilwyr gwahanol, yna mae'r dulliau o gasglu'r data yn ddibynadwy.
- Mae dull dibynadwy yn galluogi i astudiaethau i gael eu hail-adrodd a'u copïo, a chael yr un canlyniadau neu ddarganfyddiadau.
- Effaith Hawthorne - dylanwad y proses o gael eu harsylwi ar ymddygiad y rhai sy'n cael eu harsylwi. Mae'n lleihau dilysrwydd y data.

## Pa mor ddibynadwy yw ystadegau swyddogol?

### Rhagymadrodd

#### Bwledi

- Mae ystadegau swyddogol yn ddata niferol a gynhyrchir gan gyrff llywodraeth leol a chenedlaethol.
- Prif ffynonellau ystadegau swyddogol yw adrannau'r llywodraeth ac arolygon.

#### Testun

Mae ystadegau swyddogol yn enghraifft o ddata eilaidd.

Mae ystadegau swyddogol yn ddata niferol a gynhyrchir gan gyrff llywodraeth leol a chenedlaethol. Gallent fod yn wrth gynnyrch o weithgaredd normal adran yn y llywodraeth, neu gallent fod yn ganlyniad ymchwil i gasglu gwybodaeth. Mae'r "Labour Force Survey" yn casglu gwybodaeth am ddiweithdra er enghraifft.

Mae ystadegau swyddogol yn cynnwys nifer eang o weithredoedd cymdeithasol gan gynnwys genedigaethau, marwolaethau, priodas ac ysgariad, dosbarthiad incwm a chyfoeth, troseddau a dedfrydu, a gwaith a hamdden.

Mae adrannau fel Addysg a Chyflogaeth a'r Swyddfa Gartref yn aml yn gwneud cais am wybodaeth gan fudiadau fel swyddfeydd treth leol ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol, canolfannau gwaith a gorsafoedd heddlu. Mae'r wybodaeth hon wedyn yn cael ei phrosesu a llawer ohoni'n cael ei chyhoeddi, er enghraifft mae'r Adran Addysg a Chyflogaeth yn cyhoeddi "Employment Gazette" yn fisol sy'n cynnwys ychwanegiad ystadegol gyda manylion am enillion, prisiau, cyflogaeth, diweithdra, swyddi gwag, anghydfod diwydiannol a rhaglenni hyfforddi a menter ayyb.

Arolygon

Bob deng mlynedd mae Cyfrifiad ("Census") yn cael ei gynnal, sydd yn cynnwys pob cartref yn y Deyrnas Unedig. Mae'n rhaid i bob pennaeth teulu, yn ôl y gyfraith, gwblhau holiadur sy'n ymwneud â maint teuluoedd, tai, gwaith, teithio a hamdden. Roedd yr ymateb i'r Cyfrifiad yn 1991 yn 98% ("Social Trends" 1995). Arolygon eraill a gynhelir yw'r "General Household Survey" sy'n cael ei gynnal yn flynyddol, sydd wedi ei seilio ar holiadur

© CBAC / WJEC 2015

manwl yn cael ei roi i sampl o bron i 12,000 o bobl, a hefyd y "New Earning Survey" sy'n seiliedig ar sampl o weithwyr a ddewisir o recordiau Talu Wrth Ennill (PAYE) Cyllid y Wlad.

### Cwestiynau

1. Eglurwch pa ffynonellau ystadegau swyddogol sydd ar gael?

### Allweddeiriau

- Ystadegau swyddogol - data niferol a gynhyrchir gan gyrff llywodraeth leol a
- chenedlaethol.
- Data eilaidd - data sydd wedi'i gasglu gan rywun arall ar wahân i'r cymdeithasegwr sy'n ei ddefnyddio.

## Pa mor ddefnyddiol yw ystadegau swyddogol?

### Bwledi

- Mae ystadegau swyddogol yn cynnwys nifer fawr o ystadegau.
- Efallai eu bod yn adlewyrchu barn y llywodraeth yn hytrach na barn gyffredinol.
- Mae ystadegau sydd wedi'u cyhoeddi ar gael yn rhad ac am ddim.
- Mae maint y samplau yn aml yn fawr ac yn gynrychioladol.
- Mae arolygon y llywodraeth fel arfer wedi'u cynllunio'n ofalus ac yn safonol dros ben.

### Testun

Cyhoeddwyd yr astudiaeth gymdeithasegol gyntaf yn 1897. Astudiaeth glasurol o hunanladdiad gan Emile Durkheim oedd hon. Yn yr astudiaeth honno, roedd Durkheim eisiau profi bod rheolau cymdeithasol yn rheoli ymddygiad yr unigolyn.

Dewisodd y weithred fwyaf unigol y gallai ystyried: hunanladdiad, ac wedyn defnyddiodd ystadegau swyddogol o nifer o wledydd i ddangos bod patrymau cymdeithasol mewn ymddygiad hunanladdol. Darganfuwyd tri pheth sylfaenol: bod ystadegau hunanladdiad yn gyson o fewn diwylliannau dros amser, bod gan wahanol ddiwylliannau gwahanol gyfraddau hunanladdiad, a bod cyfraddau hunanladdiad yn amrywio o fewn grwpiau cymdeithasol penodol o fewn gwledydd.

Roedd Durkheim yn dra ymwybodol o gyfyngiadau defnyddio data swyddogol, ond nid oedd ganddo ddewis ond ei dderbyn. Ni ellir camsynied dylanwad y dadansoddiad hwn ar y ffordd o feddwl ar y pryd. Mae'r llyfr yn dal mewn print.

Bellach, mae casglu a dadansoddi data swyddogol yn ddiwydiant mawr oherwydd bod angen i'r llywodraeth osod targedau a mesur ei llwyddiant neu ei diffyg llwyddiant ei hun. Mae pob corff a ariennir yn gyhoeddus yn casglu data ar bob elfen o'u gwaith. I gael syniad o faint o ddata a gesglir, ystyriwch faint o brofion a gwaith llenwi ffurflenni sy'n dilyn plant yn ystod eu haddysg.

Mae'r broses o gasglu ystadegau gan y llywodraeth yn llawn anawsterau. Mae ystadegau swyddogol yn ddibynadwy o ran eu bod fel arfer yn defnyddio samplau mawr neu hyd yn

© CBAC / WJEC 2015

oed y boblogaeth i gyd. Maent yn ddibynadwy o ran eu bod yn cael eu casglu gan ddefnyddio dulliau dadansoddi manwl. Er hynny, gallant fod yn wleidyddol ac felly yn annilys yn y ffordd y cesglir ac y dadansoddir y ffigyrau. Ystadegau troseddu yw'r enghraifft symlaf. Caiff yr heddlu wybod bron yn ddieithriad am drosedd ceir oherwydd na fydd cwmnïau yswiriant yn talu am ddifrod na dwy heb gael rhif trosedd. Mae trais rhywiol yn drosedd na chaiff yr heddlu wybod digon amdano oherwydd bod y cyfraddau cyhuddo yn isel iawn a bod gan bobl gywilydd cydnabod beth sydd wedi digwydd.

Ystadegau swyddogol yw ystadegau'r llywodraeth. Mae'n bosib bod ystyriaethau gwleidyddol tu cefn iddynt. Efallai eu bod yn adlewyrchu barn y llywodraeth yn hytrach na barn gyffredinol.
Weithiau, mae yna bwysau ar gyfarwyddwyr ystadegau mewn adrannau, i ddal ystadegau yn ôl, neu eu newid - yn arbennig mewn perthynas â diweithdra ac iechyd.

Darganfu Atkinson (1978) bod nifer o brosesau cymdeithasol yn digwydd cyn yr ystyrir bod marwolaeth yn hunanladdiad. Mae'r rhain yn cynnwys nodiadau hunanladdiad, cyflwr meddwl cyn marw a'r rhesymau posibl dros hunanladdiad. Mae rhai crwneriaid yn fwy amharod nag eraill i ddatgan hunanladdiad oherwydd y galar a'r cywilydd y gallai'r teulu deimlo. Bydd yr holl bethau hyn yn effeithio ar ddata ystadegol swyddogol.

Mae ystadegau swyddogol yn cynnwys nifer fawr o ystadegau. Ond mae'n rhaid bod yn ofalus wrth eu defnyddio nhw. e.e. ystadegau diweithdra - mae sawl diffiniad o ddiweithdra ac mae sawl ffordd o gasglu data am ddiweithdra.

Cyfrifwyd bod ffigyrau diweithdra ym Mhrydain wedi aros ar gyfradd afrealistig o isel ers 1979 gan fod bron i 30 o newidiadau wedi digwydd i'r ffordd y cyfrifir y ffigyrau, gyda phob un wedi lleihau nifer y bobl ar gofrestri diweithdra swyddogol.

Mae hyn yn wir am ystadegau yn gyffredinol - mae angen ystyried y ffordd maent wedi'u casglu.

Mae data swyddogol yn werthfawr oherwydd gall roi darlun i ni o batrymau dros amser. Gellir defnyddio cyhoeddiadau megis Social Trends, The Annual Abstract of Statistics a Regional Trends fel sylfaen ar gyfer ymchwil pellach.

Mae Bilton et al yn awgrymu bod pum rheswm da dros ddefnyddio data swyddogol, sef:

1. Yn aml, data swyddogol yw'r unig ffynhonnell ddata ddibynnol sydd ar gael. Mae hyn yn sicr yn wir am ddata am droseddu ac iechyd.

2. Gellir cael gafael ar y data yn rhwydd ar y Rhyngrwyd ac mewn llyfrau.

3. Mae'r data yn rhoi cyfle i ni edrych ar dueddiadau dros amser, er enghraifft mesurir cyfraddau pasio TGAU a gwneir sylwadau arnynt.

4. Gallwn gymharu data, er enghraifft mae data rhanbarthol yn dangos gwahaniaethau economaidd mawr rhwng gwahanol siroedd yng Nghymru, neu rhwng Lloegr a Chymru.

5. Gellir mesur effaith deddfwriaeth ar newidiadau cymdeithasol. Gallwn gymharu effaith sgrinio meddygol ar gyfraddau goroesi salwch, neu ddeddfwriaeth ysgariad ar gyfradd

© CBAC / WJEC 2015

ysgariad.

Mae'n ymarferol iawn defnyddio ystadegau swyddogol. Mae ystadegau sydd wedi'u cyhoeddi ar gael yn rhad ac am ddim. Mae maint y samplau yn aml yn fawr ac yn gynrychioladol. Mae arolygon y llywodraeth fel arfer wedi'u cynllunio'n ofalus ac yn safonol. Er hynny, ni chânt eu casglu i'w defnyddio gan gymdeithasegwyr ac felly gall fod tuedd yn yr hyn a ddangosant.

### Cwestiynau

1. Beth yw manteision defnyddio ystadegau swyddogol?
2. Pa broblemau sy'n gysylltiedig â defnyddio ystadegau swyddogol?

### Allweddeiriau

- ystadegau swyddogol - data niferol a gynhyrchir gan gyrff llywodraeth leol a chenedlaethol.
- Cynrychioladol - Mae Cynrychioladol yn golygu i ba raddau y mae prif nodweddion y sampl yr un fath â nodweddion y boblogaeth y mae'r sampl wedi'i chymryd ohoni - mae'n rhaid i'r grŵp o unigolion a astudir fod yn nodweddiadol o'r
- boblogaeth gyfan, ac felly fe ellir cyffredinoli.

# Pa ddulliau eraill a ddefnyddir gan gymdeithasegwyr?

## Rhagymadrodd

### Bwledi

- Data eilaidd yw ail ddadansoddi data sy'n bod yn barod.
- Rhai enghreifftiau yw ystadegau, adroddiadau papur newydd, dyddiaduron a dogfennau hanesyddol.
- Mae data eilaidd yn cyfeirio at ddata sy'n bodoli'n barod.
- Mae cymdeithasegwyr wedi bod yn archwilio dulliau newydd yn ddiweddar.

### Testun

Mae gan gymdeithasegwyr sy'n ymchwilio i bwnc arbennig y dewis o amryw o ddulliau ymchwil gwahanol. Gallent gynnal eu hymchwil drwy ddefnyddio data eilaidd, hynny yw, ail ddadansoddi data sy'n bod yn barod, fel ystadegau, (gweler tud. 9 ) adroddiadau papur newydd, dyddiaduron a dogfennau hanesyddol. Neu, fe allent gynnal eu hymchwil cynradd eu hunain, er enghraifft drwy ddefnyddio arolwg cymdeithasol, gwahanol fathau o gyfweliadau neu arsyllu.

Mae data eilaidd yn cyfeirio at ddata sy'n bodoli'n barod. Gall gynnwys cofnodion hanesyddol, ystadegau swyddogol, adroddiadau'r llywodraeth, dyddiaduron, hunangofiannau, nofelau, papurau newydd, ffilmiau, cerddoriaeth wedi ei recordio a data wedi ei gynhyrchu'n barod gan gymdeithasegwyr yn ymchwilio i brosiectau eraill.

Wrth i ôl-foderniaeth a ffeministiaeth ddod yn gynyddol bwysig, mae ymchwilwyr wedi

© CBAC / WJEC 2015

dangos diddordeb mewn dulliau ymchwil eraill sy'n cymryd i ystyriaeth meddylfryd newydd. Unwaith i ffeministiaid herio'r farn bod rhaid i gymdeithaseg fod yn wyddonol, yna roedd yn bosibl ystyried dulliau oedd yn rhoi rhan weithredol i gyfranogwyr yn y broses ymchwil. Mae'r fethodoleg newydd yn llai prif lif na'r fethodoleg draddodiadol, ond maen rhoi mewnwelediad defnyddiol a gwerthfawr.

### Cwestiynau

1. Eglurwch beth yw data eilaidd?

### Allweddeiriau

- Ystadegau swyddogol - data niferol a gynhyrchir gan gyrff llywodraeth leol a chenedlaethol.

## Dulliau eilaidd

### Bwledi

- Mae cymdeithasegwyr yn gallu gwneud defnydd o ddogfennau personol a hanesyddol
- Maent yn debygol o gael eu defnyddio gan gymdeithasegwyr sydd yn cymryd safbwynt ansoddol neu ddeongliadol ac sydd eisiau darganfod gwybodaeth am brofiadau pobl.
- Mae'r dogfennau yn aml yn bell iawn o'r gwrthrychedd mae cymdeithasegwyr yn chwilio amdano
- Mae gan ddogfennau hanesyddol eu problemau eu hunain o ddadansoddiad gan eu bod o gyfnod gwahanol, diwylliant gwahanol, ac fel arfer mae'r rhai a'u cynhyrchwyd wedi marw
- Defnyddir dadansoddi cynnwys yn aml gan gymdeithasegwyr sy'n astudio'r cyfryngau.

### Testun

Dogfennau personol.

Mae cymdeithasegwyr yn gallu gwneud defnydd o ddogfennau personol fel llythyrau a dyddiaduron. Maent yn debygol o gael eu defnyddio gan gymdeithasegwyr sydd yn cymryd safbwynt ansoddol neu ddeongliadol ac sydd eisiau darganfod gwybodaeth am brofiadau pobl.
Nid yw dogfennau o'r fath wedi cael eu cynhyrchu yn gwybod y byddent efallai yn ddeunydd ymchwil, ac felly rhaid bod yn ofalus. Weithiau, mae rhai cymdeithasegwyr yn gofyn i bobl gadw dyddiaduron yn fwriadol fel rhan o'r cynllun ymchwil.
Rhaid bod yn wyliadwrus - a ydynt wedi cael eu hysgrifennu gan y person sydd yn honni eu bod wedi ei ysgrifennu?
Pa mor gynrychioladol ydy o? Efallai bod ysgrifennu estynedig yn fwy tebygol o fod yn boblogaidd gan bobl addysgedig, ac efallai nad ydynt yn nodweddiadol o'r grŵp sy'n cael ei astudio.

Mass Observation Archive

Yn ystod y 1930au a'r 1940au, casglwyd gwybodaeth breifat gan bobl drwy brosiect

© CBAC / WJEC 2015

cymdeithasegol mawr o'r enw Mass Observation Archive. Roedd yr wybodaeth hon ar ffurf dyddiaduron fel arfer. Defnyddiwyd y deunydd hwn fel deunydd ffynhonnell ar gyfer llyfrau a dramâu. Roedd lawer o'r deunydd gwreiddiol hwn yn anhrefnus ac roedd swmp mawr ohono. Felly, mae'n anodd didoli'r materion sydd o ddiddordeb i gymdeithasegwyr. Bu diddordeb o'r newydd yn yr Archif a chychwynnwyd ar brosiect newydd yn 1981. Casglwyd ynghyd gwirfoddolwyr drwy'r cyfryngau ac fe'u gwahoddwyd i ysgrifennu am faterion neilltuol yn eu bywydau. Mae astudiaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar (2000) gan Busby yn edrych ar y ffyrdd mae cyfranogwyr yn ysgrifennu am eu hiechyd a'u salwch. Ar hyn o bryd, mae tua 700 o wirfoddolwyr yn ysgrifennu a thuedda'r rhain i fod yn ddosbarth canol, yn ferched ac ychydig yn hŷn na'r cyfartaledd ar gyfer y boblogaeth.

Dogfennau Hanesyddol

Er mwyn astudio'r gorffennol, dogfennau hanesyddol yn aml yw'r brif ffynhonnell wybodaeth neu'n aml yr unig un.

Mae dogfennau hanesyddol yn aml yn bell iawn o'r gwrthrychedd mae cymdeithasegwyr yn chwilio amdano. Maent weithiau yn dangos tuedd, yn rhagfarnllyd, yn unochrog ac yn ymwneud â rhoi drosodd un farn arbennig. Os yw ymchwilwyr yn eu derbyn fel yr hyn ydynt, mae dogfennau hanesyddol yn ffynhonnell data gwerthfawr a chyfoethog.

Mae gan ddogfennau hanesyddol eu problemau eu hunain o ddadansoddiad gan eu bod o gyfnod gwahanol, diwylliant gwahanol, ac fel arfer mae'r rhai a'u cynhyrchwyd wedi marw. Yn ychwanegol at hyn, mae'r dadansoddiad yn dibynnu'n drwm ar safbwynt yr ymchwilydd a'i gefndir.

Dadansoddi cynnwys

Dadansoddi cynnwys yw prif arf ysgrifenwyr y cyfryngau torfol, megis y Glasgow Media Group. Defnyddiant ddull a elwir yn ddadansoddi thematig i ganfod y geiriau allweddol a'r themâu wrth ohebu i ddangos sut mae'r themâu hyn yn dylanwadu ar ohebu. Maent hefyd yn dadansoddi delweddau yn ogystal â geiriau i ystyried sut y gellid rhoi gogwydd i straeon yn y cyfryngau. Defnyddiant y dystiolaeth hon i ddadlau bod tuedd yn y newyddion.

## Cwestiynau

1. Beth yw data personol?
2. Beth yw'r problemau gyda data personol?
3. Pa mor ddefnyddiol yw dogfennau hanesyddol?
4. Ymchwiliwch i enghreifftiau sut mae cymdeithasegwyr wedi defnyddio dadansoddi cynnwys.

## Allweddeiriau

- Data ansoddol - Mae ymchwil ansoddol yn ceisio cael dealltwriaeth fanylach o'r sefyllfa e.e. cyfweliadau anffurfiol, arsyllu cyfranogol
- neu ddadansoddiad o ddyddiaduron personol, neu hunan-gofiannau.
- Cynrychioladol - Mae Cynrychioladol yn golygu i ba raddau y mae prif nodweddion y sampl yr un fath â nodweddion y boblogaeth y mae'r sampl wedi ei gymryd ohono - mae'n rhaid i'r grŵp o unigolion a astudir fod yn nodweddiadol o'r

© CBAC / WJEC 2015

- boblogaeth gyfan, ac felly fe ellir cyffredinoli.
- Rhagfarn - barn bendant am rywbeth heb wybod y ffeithiau cywir
- Dadansoddi cynnwys - dull ymchwil sy'n golygu astudio cynnwys y cyfryngau yn fanwl.

## Dulliau Cyfranogol

### Bwledi

- Mae ymchwil cyfranogol yn ddull cymdeithasegol diweddar.
- Mae'r cyfranogwyr yn dewis y ffocws a'r dulliau astudio.
- Defnyddiwyd hyn yn llwyddiannus gyda phlant.
- Mae angen ychydig o hyfforddiant ar y plant, sydd i'w gynnwys yn y prosiect ymchwil.

### Testun

Mae cymdeithaseg gyfranogol yn ddynesiad cymdeithasegol diweddar. Fe'i defnyddiwyd yn llwyddiannus gyda phlant, ac fe'i defnyddir fel term cyffredinol i gyfeirio at ddynesiad arbennig. Mewn llawer o ymchwil, y tîm ymchwil sy'n gosod yr agenda.

Y bobl sy'n llunio'r astudiaeth sy'n dewis y testun, a'r unig ffordd y gall yr holl gyfranogwyr effeithio ar yr ymchwil yw drwy wrthod cymryd rhan. Mewn ymchwil cyfranogol, mae'r ymchwilwyr yn fwriadol yn osgoi pennu testun i'r ymchwil. Mae'r cyfranogwyr yn dewis y cwestiynau ymchwil ac wedyn yn penderfynu ar y ffocws. Golyga hyn y gall cyfranogwyr ddatblygu amrywiaeth o ddulliau a'u defnyddio.

Yn Sutton et al (2007) cymrodd 42 o blant ran yn yr ymchwil, sef plant 8 i 13 oed o stad ddifreintiedig ac ysgol ddrud. Y bwriad oedd deall argraffiadau o wahaniaethau rhwng dosbarth o ran sut roedd y plant eu hunain yn teimlo oedd hyn wedi siapio eu bywyd, eu profiadau a'u hagweddau. Gofynnwyd am ganiatâd y plant yn gyson fel eu bod yn gallu tynnu allan unrhyw adeg. Dewisodd y plant ddulliau mapio, chwarae rôl, tynnu lluniau, ysgrifennu, ffotograffiaeth a mynd am dro.

Defnyddiodd Kellet a Dar (2007) yr un dull gyda phlant i ddeall y cysylltiadau rhwng tlodi a llythrennedd. Teimlai'r ymchwilwyr y byddai'r plant yn cael gwell ymateb gan eu cyfoedion. Rhoddwyd pŵer i'r plant wrth iddynt gynnal eu hymchwil eu hunain ac felly mae'r canlyniadau yn ddilys. Er hynny, dylid nodi bod gan y dull hwn wendid hefyd; nid oes gan blant bob tro'r sgiliau technegol i gynnal ymchwil. Roedd astudiaeth Kellet a Dar yn cynnwys rhaglen o sesiynau hyfforddi i'r plant.

### Cwestiynau

1. Beth yw ymchwil cyfranogol?
2. Pam allai ymchwil cyfranogol fod yn arbennig o addas i astudio agweddau plant?

### Allweddeiriau

- Ymchwil cyfranogol - mae'r cyfranogwyr yn dewis y ffocws a'r dulliau a ddefnyddir.
- Grŵp Cyfoedion - pobl o'r un oed a statws.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Sgiliau ymchwil)

## Pa syniadau ansoddol eraill fyddai'n ddefnyddiol bod yn ymwybodol ohonynt?

### Bwledi

- Datblygwyd amrywiaeth o ddulliau newydd.
- Mae ymchwil cineseg yn dadansoddi iaith y corff.
- Mae Ffenomenolegwyr yn astudio symbolau ac ystyron.
- Mae ymchwil naratif yn edrych ar straeon personol.
- Mae dadansoddiad sgyrsiol yn edrych ar yr ystyron sy'n gysylltiedig ag iaith.

### Testun

Mae damcaniaeth seiliedig yn derm mwyfwy poblogaidd mewn astudiaeth ansoddol ac astudiaeth drwy arsylwi. Mewn damcaniaeth seiliedig, mae'r grŵp yn ceisio creu damcaniaeth sy'n seiliedig ar eu profiad arsylladwy eu hunain. Maent yn gweithio gyda'r ymchwilydd i ddadansoddi eu sefyllfa drwy gyfres o gamau (Banning 1995)

Mae ymchwil Cineseg yn seiliedig ar y ddealltwriaeth fod pob bod dynol yn ymateb i sefyllfaoedd ac yn cyfathrebu drwy iaith y corff. Efallai eu bod yn dweud un peth, ond mae eu corff yn datgelu rhywbeth hollol wahanol. Mae llawer o ymchwilwyr bellach yn defnyddio nodiadau byr yn eu gwaith i ddangos sut y bu'r atebwr ymateb wrth drafod materion. Gwnaeth Frosh et al nodiadau o sut y bu bechgyn ymateb i gwestiynau arbennig ac awgrymiadau yn eu hastudiaeth o Young Masculinities. Mae astudiaeth grŵp ffocws yn aml yn gwneud nodiadau ar sut mae pobl yn ymddwyn. Yn amlwg, mae perygl o ddehongli ymddygiad pobl ormod, ond gall y gwaith fod yn ddifyr hefyd.

Mae ffenomenoleg yn debyg iawn i ethnofethodoleg ac weithiau gellir defnyddio'r geiriau yn gyfnewidiol, ond mae ganddynt ddamcaniaethau ychydig yn wahanol tu cefn iddynt. Tuedda ffenomenolegwyr i astudio ystyr symbolau cymdeithasol; er enghraifft, cysylltir pinc â benyweidd-dra a bydd y rhan fwyaf o fechgyn yn osgoi'r lliw oni bai eu bod nhw'n ceisio cyfleu rhyw fath o neges am eu hunain i bobl eraill. Fel y dangosodd Hebdige yn ei astudiaeth o bobl oedd wedi eillio eu gwallt, roedd gan eu dillad fwy o arwyddocâd na steil yn unig.

Mae ymholiad naratif yn astudiaeth ddifyr. Dadansoddi naratif yw pan fydd pobl yn siarad am eu bywyd eu hunain. Maent yn creu dogfennau a hefyd yn rhoi ystyr i'w straeon. Y mathau o ddogfennau a ddefnyddir mewn ymholiad naratif yw dyddiaduron, ffotograffau, llythyrau a drama. Gellir gweld rhai enghreifftiau ar wefan David Gauntlett, Theory.org gydag ymchwil o ddifrif wedi'i gynnal drwy gyfrwng celf. Gwahoddwyd oedolion i ddefnyddio Lego i greu trosiadau ar gyfer eu bywyd eu hunain ac yna archwilio eu teimladau. Gellir gweld yr ymchwil ar y we.

Mae ffeministiaid megis Jane Pilcher wedi defnyddio dadansoddiad sgyrsiol i archwilio'r math o iaith a ddefnyddia pobl wrth ddisgrifio eu bywyd eu hunain. Er eu bod yn gwrthod ffeministiaeth fel term, gwelodd fod gan bobl ifanc safbwyntiau ffeministaidd cadarn, a bod merched hŷn yn hapus i alw eu hunain yn ffeministaidd ond yn ymddwyn mewn ffordd oedd yn llai pendant na'u perthnasau iau.

### Cwestiynau

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Sgiliau ymchwil)

1. Beth yw damcaniaeth seiliedig?
2. Pam fyddai cymdeithasegwr yn dewis defnyddio ymchwil cineseg?
3. Pam fod symbolau cymdeithasol yn bwysig?
4. Beth ellir ei ddysgu drwy ymchwil naratif na fyddai'n bosibl drwy ymchwil cymdeithasegol traddodiadol?
5. Pa mor ddibynadwy yw'r dulliau hyn?
6. Pa mor ddilys yw'r dulliau hyn?

## Allweddeiriau

- Damcaniaeth seiliedig - grwpiau yn gweithio gydag ymchwilydd i archwilio eu sefyllfa a datblygu damcaniaeth.
- Ymchwil Cineseg - edrych ar iaith y corff a sut y mynegir ystyr.
- Ffenomenoleg - yn edrych ar yr ystyr tu ôl i ffenomenau cymdeithasol.
- Ethnofethodoleg - edrych ar bobl yn eu sefyllfaoedd.
- Ymholiad naratif - pobl yn dweud eu straeon eu hunain.

© CBAC / WJEC 2015